



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales**  
**The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2006**  
**Tuesday, 28 November 2006**

**Cynnwys  
Contents**

- |    |  |
|----|--|
| 3  | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister  |
| 29 | Datganiad Busnes<br>Business Statement   |
| 34 | Cymeradwyo Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006<br>Approval of the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2006 |
| 37 | Datganiad ar Araith y Frenhines<br>Statement on the Queen's Speech   |
| 59 | Araith y Frenhines<br>The Queen's Speech   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Targedau Allweddol Key Targets**

**Q1 Alun Cairns:** What assessment has the First Minister made of the progress of the Welsh Assembly Government in relation to key Assembly targets? OAQ2086(FM)

**The First Minister:** Each year since 2001, I have published my report on progress in delivering our commitments, such as eliminating long waits in the national health service, expenditure that is well ahead of target on schools, health centres and hospitals, and an 88 per cent reduction in personal injuries in 20 mph zones.

**Alun Cairns:** To say that the figures in your annual report are selective would be somewhat kind. Do you not accept that economic targets drive many other targets, such as those on health and poverty, and therefore that there has been an abject failure in your Assembly Government's performance? Inactivity rates are among the highest in the United Kingdom, and according to gross value added figures we are the poorest part or nation of the United Kingdom. You always seem to fall back on gross domestic household income figures, but if you track that back to 1996 and 1997, it has not moved. It has stagnated over that period. In fact, there was a dip in those figures—that was when you were the Minister with responsibility for economic development.

**The First Minister:** I am pleased that because you were so stunned by the references that I made you turned to the economy. Whereas the UK economy has performed extremely well by most European standards during the past seven to eight years, the Welsh economy has shown a clean pair of heels to the rest of the UK. We have had an

**C1 Alun Cairns:** Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud o gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran targedau allweddol y Cynulliad? OAQ2086(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bob blwyddyn ers 2001, yr wyf wedi cyhoeddi fy adroddiad ar gynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiadau, megis dileu amserau aros hir yn y gwasanaeth iechyd gwladol, rhagori ar dargedau gwario ar ysgolion, canolfannau iechyd ac ysbtyai, ac 88 y cant o leihad o ran anafiaidau personol mewn parthau 20 milltir yr awr.

**Alun Cairns:** Byddai braidd yn garedig dweud bod y ffigurau yn eich adroddiad blynnyddol yn rhai dethol. Onid ydych yn derbyn bod targedau economaidd yn rheoli llawer o dargedau eraill, megis y targedau ar iechyd a thlodi, ac oherwydd hynny fod perfformiad eich Llywodraeth wedi bod yn fethiant llwyr? Mae'r cyfraddau anweithgarwch ymhlih yr uchaf yn y Deyrnas Unedig ac, yn ôl ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, ni yw rhan dlotaf neu genedl dlotaf y Deyrnas Unedig. Ymddengys eich bod bob amser yn dychwelyd at ffigurau incwm aelwydydd mewnwladol crynswth, ond os ewch yn ôl hyd at 1996 ac 1997, nid yw wedi symud. Mae wedi aros yn ei unfan yn ystod y cyfnod hwnnw. Mewn gwirionedd, bu gostyngiad yn y ffigurau hynny—sef pan oeddech chi'n Weinidog â'r cyfrifoldeb dros ddatblygu economaidd.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn falch bod y cyfeiriadau a wnaethpwyd gennyl wedi'ch syfrdanu gymaint nes peri ichi droi at yr economi. Yn ystod y saith i wyth mlynedd diwethaf, tra bo economi'r Deyrnas Unedig wedi perfformio'n arbennig o dda yn ôl y rhan fwyaf o'r safonau Ewropeaidd, mae economi Cymru wedi bod yn gwneud yn

11 per cent increase in jobs in Wales compared with a 7 per cent increase in jobs in the UK as a whole—those are not our figures, but those of the Office for National Statistics, and cannot be gainsaid by any political party, as they do not come from a political party. Those figures also show that west Wales and the Valleys has had a 12 per cent increase in jobs over that period, which is where we wanted to see an above-average increase in jobs.

llawer gwell na gweddill y Deyrnas Unedig. O ran swyddi, yr ydym wedi gweld cynnydd o 11 y cant yng Nghymru, o'i gymharu â chynnydd o 7 y cant yn y Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl—nid ein ffigurau ni yw'r rheini, ond rhai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ni all dim un blaid wleidyddol eu gwrrhddweud, gan nad ydynt yn dod gan blaidd wleidyddol. Dengys y ffigurau hynny hefyd fod cynnydd o 12 y cant wedi bod mewn swyddi yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y cyfnod hwnnw, ac yno yr oedd arnom eisai gweld cynnydd uwch na'r cyfartaledd o ran swyddi.

**Leanne Wood:** In a recent report on the reconfiguration of health services in Rhondda Cynon Taf and Merthyr Tydfil, a proposal has been put forward for a 24-hour accident and emergency facility to be provided at only one of the hospitals in the area. Your Government claims to want to bring services closer to the people, but downgrading accident and emergency services either at the Royal Glamorgan Hospital or Prince Charles Hospital in Merthyr will hardly achieve that. Will you agree to examine the proposals to see whether they are consistent with your stated aims? If you find that the proposals are inconsistent, what steps can and will you take to stop those proposals moving on to the consultation stage?

**Leanne Wood:** Mewn adroddiad diweddar ar ailgyflunio gwasanaethau iechyd yn Rhondda Cynon Taf ac ym Merthyr Tudful, cyflwynwyd cynnig a ddywed mai dim ond un ysbty yn yr ardal a ddylai ddarparu gwasanaeth damweiniau ac achosion brys 24 awr. Honna eich Llywodraeth fod arni eisai dod â gwasanaethau'n nes at y bobl, ond prin y bydd israddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys naill ai yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg neu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, yn cyflawni hynny. A gytunwch i archwilio'r cynigion i weld a ydynt yn gyson â'r nodau a nodwyd gennych? Os gwelwch fod y nodau'n anghyson, pa gamau y gallwch eu cymryd, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd, i atal y cynigion hynny rhag mynd ymlaen i'r cam ymgynghori?

**The First Minister:** I do not think that one should stop consultation stages, because you do not know what the outcome of the consultation will be. Throughout Wales, if we want more modern, 24/7 services to be provided, then we all have to accept that sometimes that will mean change. There are political parties—and the use of a mirror might help you with identification at this stage, Leanne—that tend to leap on any proposal in the hope that they can grub up a few cheap votes on the basis of opposing all change wherever it occurs. However, responsible political parties will look at the proposal, and ask whether it is in the best interests of the patients in the area. In the meantime, of course, we are continuing to spend large sums of money on Prince Charles Hospital.

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf y dylai rhywun atal camau ymgynghori, oherwydd ni wyddoch beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad. Os dymunwn weld rhagor o wasanaethau modern 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn cael eu darparu ledled Cymru, bydd angen i bawb ohonom dderbyn y bydd hynny, o dro i dro, yn golygu newid. Mae rhai pleidiau gwleidyddol yn tueddu i neiddio ar unrhyw gynnig yn y gobaith y gallant gael gafael ar ychydig o bleidleisiau salw ar sail gwrrhwynebu pob newid lle bynnag y bydd hynny'n digwydd—efallai y byddai drych o fudd ichi wrth geisio adnabod y pleidiau hyn, Leanne. Fodd bynnag, bydd pleidiau gwleidyddol cyfrifol yn edrych ar y cynnig ac yn holi a ydyw er budd cleifion yn yr ardal. Yn y cyfamser, wrth gwrs, yr ydym yn parhau i fuddsoddi llawer o arian yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** On climate change targets, the Assembly Government set itself a target of a 20 per cent cut in greenhouse gas emissions, on the 2000 baseline, by 2020. What progress has been made on that to date, and would it not be better to have annual targets rather than one set so far in the future, which people do not focus on?

**The First Minister:** I think that annual targets would be disastrous for the Welsh economy. Although Wales's economy is small in general, it has some large, bulky plants—electricity generating stations, steelworks or whatever—and a major investment in those, even though it may be a much greener and more efficient investment, nevertheless will increase greenhouse gas emissions. Therefore, if we build new power stations—we need them in Wales—it is not going to be particularly good for climate change, but it can be good for the UK figures, because a gas-fired power station can replace a much more pernicious form of power generation station elsewhere in the UK. Your party's attachment to annual targets is a fig leaf for past mistakes on the environment.

**Nick Bourne:** I note that the First Minister dodged answering the first part of the question regarding what progress has been made. If this is so wonderful, perhaps he can come on to that when he tries to answer the second question: if he believes that that is the right way to approach it, what progress has been made in achieving that target of 20 per cent? He attacks the annual targets, but it is not just my party that believes that targets are a good idea—many organisations believe the same. Friends of the Earth, for example, has said that it is the right way of tackling the situation. It is not just industry that is contributing to this carbon dioxide level. However, what progress has been made, since he thinks that the approach is correct?

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** O ran targedau newid yn yr hinsawdd, gosododd Llywodraeth y Cynulliad darged iddi'i hun, gan ddefnyddio'r flwyddyn 2000 yn sail, i dorri 20 y cant oddi ar ollyniadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020. Pa gynnydd a wnaethpwyd ynghylch hynny hyd yn hyn, ac oni fyddai'n well cael targedau blynnyddol yn hytrach na gosod targed na fydd pobl yn canolbwytio arno gan ei fod wedi'i osod mor bell yn y dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Credaf y byddai targedau blynnyddol yn drychinebus i economi Cymru. Er bod economi Cymru'n fach yn gyffredinol, mae ganddi rai gweithfeydd mawr a swmpus—gorsafoedd sy'n cynhyrchu trydan, gweithfeydd dur neu beth bynnag y bo—a bydd buddsoddi'n helaeth yn y rhain, er y gallai fod yn fuddsoddiad mwy gwyrrd a mwy effeithlon o lawer, yn cynyddu gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Felly, os adeiladwn orsafoedd ynni newydd—ac mae angen gorsafoedd o'r fath arnom yng Nghymru—nid yw'n mynd i wneud llawer o les i'r newid yn yr hinsawdd, ond gall wneud lles i ffigurau'r Deyrnas Unedig, oherwydd gallai gorsaf ynni nwy gymryd lle ffurf arall fwy dinistriol o lawer o gynhyrchu ynni yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig. Ymgais i guddio camgymeriadau'r gorffennol ym maes yr amgylchedd yw ymlyniad eich plaid wrth dargedau blynnyddol.

**Nick Bourne:** Nodaf i'r Prif Weinidog osgoi ateb rhan gyntaf y cwestiwn a oedd yn ymwneud â pha gynnydd a wnaethpwyd. Os yw hyn mor rhyfeddol, efallai y gall sôn am hynny pan fydd yn ceisio ateb yr ail gwestiwn: os cred mai dyma'r ffordd iawn o fynd i'r afael â hyn, pa gynnydd a gafwyd o ran cyflawni'r targed hwnnw o 20 y cant? Mae'n ymosod ar y targedau blynnyddol, ond nid fy mhlaid i'n unig sy'n credu bod targedau'n syniad da—mae llawer o sefydliadau'n credu yr un fath. Mae Cyfeillion y Ddaear, er enghraifft, wedi dweud mai dyma'r ffordd gywir o fynd i'r afael â'r sefyllfa. Nid diwydiant yn unig sy'n cyfrannu at lefel y carbon deuocsi. Fodd bynnag, pa gynnydd a wnaethpwyd, gan ei fod yn meddwl mai dyma sut y mae mynd i'r afael â'r sefyllfa?

**The First Minister:** I do not have the figures with me, but I am sure that I could supply them to you. At the next Cabinet meeting, we will be having a discussion on the issue of having a climate change plan for Wales, which goes into the detail of the impact on the economy, jobs and genuine energy efficiency. You will sometimes get divergence between the picture in Wales and that elsewhere because of the dependence in Wales on large steelworks and other smoke-stack industries. We also know of a large number of plans for gas-fired and biomass power stations that are emerging for consideration in Wales.

**Nick Bourne:** I am surprised that you are not master of the brief on this important issue of knowing whether or not progress has been made. I have the figures since 1997, but not those since 2000 as I have been unable to find them—given the resources that you have, perhaps you can find them. Carbon dioxide emissions have increased by 4.4 per cent since 1997. Do you agree that, at the moment, the Government has a 62-point action plan, but does not have any independent monitoring of progress? Do you agree that the Conservative approach of having an independent body to monitor progress is the correct one?

**The First Minister:** The whole Conservative approach to this is caused by a total lack of understanding of the issue. In the new Cameron plan on climate change, all that you will do is cause steelworkers in Wales to lose their jobs to subsidise stockbrokers in the city of London, who do not generate carbon because of the nature of the work. This does not mean that steelworkers in Wales are not participating in energy-efficiency-improving methods of producing steel; it just so happens that that is the kind of economy that we have in Wales. The sooner you get your leader, David Cameron, and his environment advisers, to realise that the two ends of the M4 have very different types of economies, the better it will be for everyone in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r ffigurau gennyl ar hyn o bryd, ond yr wyf yn sicr y gallwn eu rhoi ichi. Yng nghyfarfod nesaf y Cabinet, byddwn yn trafod cael cynllun ynghylch newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru. Bydd y cynllun hwnnw'n manylu ar effaith hynny ar yr economi, ar swyddi ac ar effeithlonrwydd gwirioneddol o ran ynni. Weithiau, bydd y darlun yng Nghymru yn wahanol i'r darlun a geir mewn mannau eraill oherwydd bod Cymru'n dibynnu ar weithfeydd dur mawr a diwydiannau eraill sy'n cynhyrchu llawer o fwg. Gwyddom hefyd am nifer helaeth o gynlluniau ar gyfer gorsafoedd nwy a gorsafoedd ynni bio-màs sydd wrthi'n cael eu hystyried yng Nghymru.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn synnu nad oes gennych wybodaeth fanwl am y mater pwysig hwn o ran gwybod a gafwyd cynnydd ai peidio. Mae'r ffigurau ers 1997 gennyl, ond nid y ffigurau ers 2000, gan na lwyddais i ddod o hyd iddynt—o ystyried yr adnoddau sydd gennych, efallai y gallwch ddod o hyd iddynt. Mae gollyngiadau carbon deuocsiad wedi codi 4.4 y cant ers 1997. A gytunwch fod gan y Llywodraeth, ar hyn o bryd, gynllun gweithredu sydd â 62 o bwyntiau, ond nad oes ganddi ddull annibynnol o fonitro'r cynnydd? A ydych yn cytuno mai'r ffordd gywir o ymdrin â hyn yw dull y Ceidwadwyr, sef cael corff annibynnol er mwyn monitro'r cynnydd?

**Y Prif Weinidog:** Methu â deall y broblem yn gyfan gwbl sydd wrth wraidd dull y Ceidwadwyr o fynd i'r afael â hyn. Yng nghynllun newydd Cameron ar newid yn yr hinsawdd, yr unig beth a wnewch fydd achosi i weithwyr dur yng Nghymru golli eu swyddi er mwyn rhoi cymhorthdal i froceriaid stoc yn Llundain, nad ydynt yn cynhyrchu carbon deuocsiad oherwydd natur eu gwaith. Nid yw hyn yn golygu nad yw gweithwyr dur yng Nghymru yn cymryd rhan mewn dulliau o gynhyrchu dur sy'n gwella effeithlonrwydd ynni; fel y mae'n digwydd bod, dyna'r math o ddiwydiant sydd gennym yng Nghymru. Po gyntaf y llwyddwch i gael gan David Cameron, eich arweinydd, a'i ymgynghorwyr ar yr amgylchedd, sylweddoli bod dwy economi dra gwahanol ar y ddau ben i'r M4, gorau oll fydd i bawb yng Nghymru.

**Democrat Group (Michael German):** One of the targets that you have missed by a country mile is that to upgrade school buildings. In your 2003 manifesto you state that, by 2010, you will ensure that every school in Wales is fit for our children. However, your recently published policy document states that you will strive to meet your original target that all schools should be fit for purpose by 2010, although you are aware that many local education authorities will not be able to deliver on this. You also state that, in your third term, you will commit yourself to achieving this as soon as possible. Therefore, you promised something, then you realised that you could not deliver it, and so you decided to blame someone else. Is that not the real fact of your promise?

**The First Minister:** Not at all. We have exceeded our manifesto commitment, which was to spend £550 million on improving school buildings. We are way ahead of that—we have spent more than £600 million. As I mentioned in my answer to the original question by Alun Cairns, we exceed targets in some areas, including expenditure on modernising schools, hospitals and health centres. We are well above target in those areas.

**Michael German:** We are all well aware of the amount of money that you are spending, but what about the promise that you made that, by 2010, you would be able to ensure that every school was fit for purpose? Your latest policy document says that you will not be able to achieve that because LEAs are not delivering. You promised the people of Wales that that would be the case by 2010, but you have not kept that promise and now you have turned away from it. Will you admit that you have broken that promise and that the target does not exist any more? You will spend the money and do what you described, but not by 2010.

**The First Minister:** This is the most extraordinary example of nit-picking that I have ever heard. Many members of your

**Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Un targed yr ydych wedi methu â'i gyflawni o bellffordd yw'r targed a oedd yn anelu at uwchraddio adeiladau ysgolion. Yn eich manifesto yn 2003, datganwyd y byddai pob ysgol yng Nghymru yn addas ar gyfer ein plant erbyn y flwyddyn 2010. Fodd bynnag, mae dogfen bolisi a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar yn datgan y byddwch yn ymdrechu i gyrraedd eich targed gwreiddiol—sef y dylai pob ysgol fod yn addas i'w diben erbyn 2010—er eich bod yn ymwybodol na fydd llawer o awdurdodau addysg lleol yn gallu cyflawni hyn. Yr ydych yn datgan hefyd y byddwch, yn eich trydydd tymor, yn ymrwymo i gyflawni hyn mor fuan ag y bo modd. Felly, addawsoch rywbeth, cyn sylweddoli na allech ei gyflawni, ac felly penderfynasoch roi'r bai ar rywun arall. Onid hynny yw'r gwir am eich addewid?

**Y Prif Weinidog:** Ddim o gwbl. Yr ydym wedi rhagori ar ymrwymiad ein manifesto, sef gwario £550 miliwn ar wella adeiladau ysgolion. Yr ydym ymhell ar y blaen i hynny—ac wedi gwario mwy na £600 miliwn. Fel y crybwyllais yn fy ateb i'r cwestiwn gwreiddiol gan Alun Cairns, byddwn yn rhagori ar dargedau mewn rhai meysydd, gan gynnwys gwario ar foderneiddio ysgolion, ysbtyai a chanolfannau iechyd. Yr ydym wedi rhagori cryn dipyn ar ein targedau yn y meysydd hynny.

**Michael German:** Yr ydym yn ymwybodol iawn o faint o arian yr ydych yn ei wario, ond beth am yr addewid a wnaethoch, sef y byddech yn gallu sicrhau y byddai pob ysgol yn addas i'w diben erbyn 2010? Dywed eich dogfen bolisi ddiweddaraf na fyddwch yn gallu cyrraedd y nod hwn gan nad yw awdurdodau addysg lleol yn cyflawni hyn. Gwnaethoch addewid i bobl Cymru mai dyna fyddai'r sefyllfa erbyn 2010, ond nid ydych wedi cadw'ch addewid ac yn awr yr ydych wedi cefnu arno. A gyfaddefwch eich bod wedi torri'r addewid hwnnw ac nad yw'r targed yn bodoli mwyach? Byddwch yn gwario'r arian ac yn gwneud yr hyn a ddisgrifiwyd gennych, ond nid erbyn 2010.

**Y Prif Weinidog:** Dyma'r enghraift fwyaf hynod o bigo beiau a glywais erioed. Mae llawer o aelodau eich plaid yn rhedeg

party are running local authorities in Wales, and you know that, among them, are the laggards who simply cannot decide on which schools to spend the money. As a result, we are in hock to those local authorities.

2.10 p.m.

Everybody agrees that we want all our school buildings to be fit for purpose by 2010, but some authorities—some of which you will know extremely well, as they are run by your party—cannot develop the administrative capacity to decide on which schools to spend the money. You cannot blame us for that, Mike; you had better talk to those who are close to you who have that responsibility. They do not like to step up to the plate and accept the responsibility for modernising the school buildings that they were so proud to be elected to run a few years ago.

**Michael German:** We are having to pick up the mess that the Labour Party left for us in those local authority areas. As you know, the sad reality is that it takes a year or two of capital investment to do that. However, my question was not about local authorities; it was about your promises. You promised this by 2010, and you have changed your mind—it is no longer a promise. You should tell the people of Wales that you are sorry for getting the promise wrong, and that you will rephrase it and put it differently next time.

**The First Minister:** We did not get it wrong; it was the Liberal Democrat authorities who undermined it. They simply did not have the guts to make up their minds on which schools to spend the money. The Assembly has given the money to the authorities, but they do not want it as they do not have the guts to make up their minds.

awdurdodau lleol yng Nghymru, a gwyddoch fod rhai diog—sy'n methu â phenderfynu ar ba ysgolion i wario'r arian—yn eu plith. Yn sgîl hyn, yr ydym ar drugaredd yr awdurdodau lleol hynny.

Mae pawb yn gytûn ein bod yn awyddus i adeiladau pob un o'n hysgolion fod yn addas i'w diben erbyn 2010, ond ni all rhai awdurdodau—byddwch yn adnabod ambell un o'r rheini'n dda iawn, gan mai eich plaid chi sy'n eu rhedeg—ddatblygu'r gallu gweinyddol i benderfynu ar ba ysgolion i wario'r arian. Ni allwch ein beio ni am hynny, Mike; byddai'n well ichi siarad â'r rhai sy'n agos atoch sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Nid ydynt yn hoffi wynebu'r her a derbyn cyfrifoldeb dros foderneiddio adeiladau ysgolion yr oeddent mor falch o gael eu hethol i'w rhedeg ychydig flynyddoedd yn ôl.

**Michael German:** Yr ydym yn gorfod delio â'r llanastr a adawodd y Blaid Lafur inni yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny. Fel y gwyddoch, y gwir yw bod angen buddsoddi cyfalaf am flwyddyn neu ddwy i wneud hynny—ac mae hynny'n drist. Fodd bynnag, nid cwestiwn yngylch awdurdodau lleol oedd f'un i; cwestiwn yngylch eich addewidion chi ydoedd. Addawsoch y byddech yn gwneud hyn erbyn 2010, ac yr ydych wedi newid eich meddwl—nid addewid ydyw mwyach. Dylech ddweud wrth bobl Cymru ei bod yn ddrwg gennych am fod yn anghywir yngylch yr addewid, ac y byddwch yn ei aralleirio, ac yn ei fynegi yn wahanol y tro nesaf.

**Y Prif Weinidog:** Nid oeddem yn anghywir; awdurdodau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'i tanseilioedd. Nid oeddent yn ddigon dewr i wneud penderfyniadau yngylch ar ba ysgolion i wario'r arian. Mae'r Cynulliad wedi rhoi'r arian i'r awdurdodau, ond nid oes arnyt eisiau'r arian gan nad ydynt yn ddigon dewr i wneud y penderfyniadau.

## Cyfraddau Cyflogaeth Employment Rates

**Q2 Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on employment rates in

**C2 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraddau

Wales? OAQ2099(FM)

**The First Minister:** The increase in the employment rate in west Wales and the Valleys during the period since 1999 has been 4.3 per cent. The increase for the whole of Wales was 2 per cent, and the increase for the UK as a whole was 0.5 per cent.

**Mark Isherwood:** Despite big increases in public spending and in public-sector jobs, unemployment in Wales has been rising over recent months. The proportion of the working-age population not in work now exceeds 30 per cent for the first time since 2002. In other words, it is now higher than it was when the Assembly was established. Meanwhile, there is zero growth in Wales in the number of new company registrations. What does this say about your economic record?

**The First Minister:** I think that you are having some difficulty in that you prejudge your supplementary question before you hear the answer to the original question. A 4.3 per cent increase in west Wales and the Valleys is eight times higher than the increase for the UK as a whole, where the figure is 0.5 per cent. I do not know whether you think that that is a bad performance, so let us go through it again. Since the Assembly came into being, the employment rate increase for the UK as a whole is 0.5 per cent; in Wales it is 2.8 per cent, which is 550 per cent higher than in the UK as a whole. In west Wales and the Valleys, which is the key target area, the figure is 4.3 per cent, or eight times higher. That is a pretty good performance in terms of employment-rate increases. You asked about the employment rate and I answered your question; you did not like the answer, so you tried to divert me onto a different subject.

**Jeff Cuthbert:** Do you agree that it is extremely unwise for the Conservatives to remind us about unemployment rates? When the Conservatives were in charge of the Welsh economy, the unemployment rate stood at 130,000 people, and resulted in devastation for many communities, especially Valleys communities such as mine.

cyflogaeth yng Nghymru? OAQ2099(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod y cyfnod ers 1999, 4.3 y cant fu'r cynnydd yn nghyfradd cyflogaeth yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bu cynnydd o 2 y cant ar gyfer Cymru gyfan, a 0.5 y cant oedd y cynnydd ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd.

**Mark Isherwood:** Er bod cynnydd mawr wedi bod o ran gwariant cyhoeddus a swyddi sector cyhoeddus, mae diweithdra wedi bod ar gynnydd yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf. Mae cyfradd y boblogaeth sydd mewn oedran gweithio nad ydynt yn gweithio yn fwy na 30 y cant am y tro cyntaf ers 2002. Mewn geiriau eraill, mae'n awr yn uwch nag a oedd pan sefydlwyd y Cynulliad. Yn y cyfamser, o ran y cwmnïau newydd a gofrestrowyd, ni chafwyd dim cynnydd. Beth a ddywed hyn am eich record economaidd?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn meddwl eich bod yn cael rhywfaint o anhawster gan eich bod yn rhoi eich barn ynghylch eich cwestiwn atodol cyn clywed yr ateb i'ch cwestiwn gwreiddiol. Mae cynnydd o 4.3 y cant yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wyth gwaith yn uwch na'r cynnydd ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd—0.5 y cant yw'r ffigur hwnnw. Nid wyf yn gwybod a yw hynny'n berfformiad gwael yn eich tyb chi, felly gadewch inni edrych arno eto. Ers sefydlu'r Cynulliad, cafwyd cynnydd o 0.5 y cant yng ngraddfa cyflogaeth y Deyrnas Unedig; yng Nghymru, yr oedd yn 2.8 y cant, sy'n 550 y cant yn uwch nag yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd—yr ardal darged allweddol—mae'r ffigur yn 4.3 y cant, neu wyth gwaith yn uwch. Mae hwnnw'n berfformiad pur dda o ran cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth. Gofynasoch am y gyfradd gyflogaeth ac atebais eich cwestiwn; nid oeddech yn hoffi'r ateb, felly ceisiaoch fy ngwyro i gyfeiriad pwnc arall.

**Jeff Cuthbert:** Onid ydych yn cytuno ei bod yn annoeth iawn i'r Ceidwadwyr ein hatgoffa am gyfraddau cyflogaeth? Pan oedd y Ceidwadwyr yn gyfrifol am economi Cymru, yr oedd cyfradd diweithdra yn 130,000 o bobl. Yr oedd hyn yn drychneb i lawer o gymunedau, yn enwedig cymunedau yn y Cymoedd megis fy rhai i.

**The First Minister:** Yes. If you take the number of people on the dole during the 18 Conservative years, it averages out at 123,000 people; it is now 44,000 and falling. Therefore, I think that the Conservatives need to put that in their pipe and smoke it rather than ask sarcastic questions.

**Alun Ffred Jones:** Mae tua 160,000 o bobl dros 50 oed nad ydynt mewn oed pensiwn yn economaidd anweithgar, sy'n golygu, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, bod y ganran gyfuwch â 40 neu 50 y cant. Mae cynlluniau ar gael, fel Potentia, i helpu pobl mewn oed i waith, ac yn ôl yr adroddiadau diweddaraf mae rhyw 1,800 o'r bobl yn y categori oed hwn wedi'u helpu i waith. Ond, canran fach o'r cyfanswm yw hynny. Beth mae eich Llywodraeth chi yn ei wneud i gynyddu'r niferoedd hyn? Yn amlwg, mae hyn yn effeithio ar berfformiad economaidd ardaloedd Amcan 1.

**Y Prif Weinidog:** Er bod y bwlc rhwng canran y bobl mewn gwaith yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol wedi haneru dros y saith mlynedd diwethaf, mae'n dal i fod yn rhy uchel. Ychydig iawn o gamau ymlaen sydd wedi eu cymryd gan gategori dynion dros eu 50 oed. Felly, o ran y ddwy raglen Llwybrau at Waith ac Yn Awyddus i Weithio, mae'r cytundeb a'r cydweithredu rhyngom ni ac Adran Gwaith a Phensiynau y Llywodraeth yn San Steffan yn symud pobl ymlaen fel nad ydynt yn ddibynnol ar sawl math o fudd-dâl, yn enwedig budd-daliadau iechyd, ond yn hytrach yn cymryd rhan yn y farchnad lafur. Mae hynny'n bwysig dros ben, ond nid ydym wedi cyflawni'r gamp hyd yn hyn.

**Kirsty Williams:** In the past, your Government has pointed to the high employment levels in Powys as an excuse for not doing more to assist the area. However, average earnings in Powys are some £50 per week lower than the Welsh average and, as we know, earnings in Wales are lower than in most other parts of the UK. What is your Government doing to assist those who are on low wages in east Wales who need an opportunity to advance in their local economy just as much as people in west Wales and the Valleys do?

**Y Prif Weinidog:** Ydwyt. Os cymerwch nifer y bobl a oedd yn ddi-waith yn ystod 18 mlynedd y Ceidwadwyr, mae'r cyfartaledd yn 123,000 o bobl; 44,000 ydyw heddiw, ac mae'n disgyn. Felly, credaf y dylai'r Ceidwadwyr lyncu hynny yn hytrach na gofyn cwestiynau coeglyd.

**Alun Ffred Jones:** Around 160,000 over-50s who are not of a pensionable age are economically inactive, which means that, in some parts of Wales, the percentage is as high as 40 or 50 per cent. Schemes such as Potentia are available to help people in this age group into work; according to the latest reports, some 1,800 people in this age category have been helped into work. However, that is a small percentage of the total figure. What is your Government doing to increase these numbers? Obviously, this is having an effect on the economic performance of Objective 1 areas.

**The First Minister:** Even though the gap between the percentage of people in work in Wales and in the United Kingdom has halved over the last seven years, it remains too high. Men in their 50s have, as a category, made little progress. Therefore, in terms of the Pathways to Work and Want to Work programmes, the agreement and co-operation between us and the Department for Work and Pensions is moving people forward so that they are not dependent on many kinds of benefits, especially health benefits, and so that they play their part in the labour market. That is very important, but we have not entirely achieved that as yet.

**Kirsty Williams:** Yn y gorffennol, mae eich Llywodraeth wedi cyfeirio at lefelau cyflogaeth uchel Powys fel esgus dros beidio â gwneud mwy i gynorthwyo'r ardal. Fodd bynnag, mae enillion cyfartalog ym Mhowys tua £50 yr wythnos yn is na chyfartaledd Cymru ac, fel y gwyddwn, mae enillion yng Nghymru'n is nag yn y rhan fwyaf o rannau eraill y DU. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i gynorthwyo'r rhai sydd ar gyflogau isel yn y dwyrain, y mae angen cyfre arnynt i ddatblygu yn eu heconomi leol llawn cymaint â phobl yn y gorllewin a'r Cymoedd?

**The First Minister:** You are quite right about the characteristics of the Powys economy; they depart from the average in the sense that the employment rate is high but average wages are low. That is not uncommon in farming areas that have only very small towns and so on, but it is nevertheless frustrating for the people living in the area. Continuing to support economic development and diversification in Powys remains an issue, but you will find that we still support the area, even though it is not assisted. We find whatever means we can. For example, we make special efforts in Ystradgynlais, which is an assisted area.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn gwbl gywir am nodweddion economi Powys; maent yn wahanol i'r cyfartaledd gan fod cyfradd cyflogaeth yn uchel ond bod cyflogau cyfartalog yn isel. Nid yw hynny'n anghyffredin mewn ardaloedd ffermio lle y mae'r trefi'n fach iawn, ac yn y blaen, ond serch hynny mae'n peri rhwystredigaeth i'r bobl sy'n byw yn yr ardal. Mae parhau i gefnogi datblygiad ac amrywiaeth economaidd ym Mhowys yn fater perthnasol o hyd, ond fe welwch ein bod yn dal i gefnogi'r ardal, er nad yw'n ardal a gynorthwyir. Fe wnawn hynny mewn unrhyw fodd y gallwn. Er enghraift, yr ydym yn gwneud ymdrechion arbennig yn Ystradgynlais, sy'n ardal a gynorthwyir.

### **Ymddygiad Pobl Ifanc The Behaviour of Young People**

**Q3 William Graham:** Will the First Minister outline the impact of Welsh Assembly Government policies on the behaviour of those less than 10 years of age in Wales? OAQ2101(FM)

**The First Minister:** Our parenting action plan, together with Flying Start and Cymorth, aim to provide parents and carers in Wales with the confidence, advice and support that they need to manage children's behaviour effectively. We have also begun a national review of behaviour and attendance in education.

**William Graham:** I am sure that you will join me in deprecating the violent crimes that now seem to be carried out by people under the age of 10. The Youth Justice Board for England and Wales reports that violent offences by 10-year-olds have risen by a third in the past two years, and that 270 children aged below 10 were charged with criminal offences between April and March 2005. Surely one of the contributory factors must be poor discipline at home and at school. What particular policies will your Government use to address the problem?

**The First Minister:** I have not seen that particular statistic, but it is quite frightening

**C3 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu effaith polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ymddygiad y sawl sydd dan 10 oed yng Nghymru? OAQ2101(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nod ein cynllun gweithredu i rieni, ar y cyd â Dechrau'n Deg a Chymorth, yw rhoi'r hyder, y cyngor a'r cymorth y mae eu hangen ar rieni a gofalwyr yng Nghymru i reoli ymddygiad plant yn effeithiol. Yr ydym hefyd wedi dechrau ar adolygiad cenedlaethol o ymddygiad a phresenoldeb mewn addysg.

**William Graham:** Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi wrth anghymeradwyo'r troseddau treisgar yr ymddengys fod pobl dan 10 mlwydd oed bellach yn eu cyflawni. Mae Bwrdd Cyflawnder Ieuenciad Cymru a Lloegr yn adrodd bod cynnydd o un rhan o dair wedi bod mewn troseddau treisgar gan blant 10 oed yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a bod 270 o blant dan 10 oed wedi'u cyhuddo o droseddau rhwng Ebrill a Mawrth 2005. Mae'n rhaid bod disgylblaeth wael yn y cartref ac yn yr ysgol yn un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn. Pa bolisiau penodol y bydd eich Llywodraeth yn eu defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld yr ystadegyn penodol hwnnw, ond mae'n eithaf

if it is true, as reported by you from the YJB to the Assembly. The raft of programmes, such as Flying Start, for children up to the age of three, and the early years agenda, which is intended to enrich children's experience right through up to the age of seven, are to ensure that as few youngsters as possible develop low self-esteem or a feeling that school or being part of normal society is not really for them, by the time they start on key stage 2, at the age of seven. That is what it is all about. It has never before been tried in Britain, but, given its success in certain other countries, especially the Nordic countries, we are fairly convinced that it will be a success in Wales.

**Catherine Thomas:** The Assembly Government has done a great deal of work to highlight the importance of children's health and wellbeing. With that in mind, will you join me in congratulating Tracy Pike and her team at the Carmarthenshire Youth and Children's Association on their excellent work on children's health and wellbeing? They have been running anger-management, health and wellbeing classes for many years, which have made an enormous difference to some of the most vulnerable children in my constituency. First Minister, do you agree that such work should be applauded, supported and, indeed, replicated in many other organisations throughout Wales that work with very young children?

**The First Minister:** I am grateful that you have brought their work to the attention of the Assembly and, therefore, to the attention of other people who might want to follow the example of their success. As well as the point that I made to William Graham, about trying to make sure that kids do not feel socially excluded from the school system as they reach the ages of six and seven, when they are ready to start key stage 1, it is also very important to enable the maximum number of children to have robust health when they reach the age at which they start to become socially aware and start thinking about whether they feel fully a part of society—or not, in some cases, sadly. If we can get the health and the education right, I believe that

dychrynllyd os yw'n wir, yn ôl y Bwrdd Cyflawnder Ieuenciad fel y'i hadroddir gennych wrth y Cynulliad. Diben yr ystod o raglenni, megis Dechrau'n Deg, ar gyfer plant hyd at dair blwydd oed, ac agenda'r blynnyddoedd cynnar, sydd wedi'i bwriadu i gyfoethogi profiad plant hyd at saith mlwydd oed, yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o blant ifanc yn datblygu diffyg hunan-barch neu deimlad nad ydynt yn perthyn yn yr ysgol neu fel rhan o gymdeithas arferol, erbyn iddynt ddechrau cyfnod allweddol 2, yn saith oed. Hynny yw diben yr holl beth. Nid ydys wedi rhoi cynnig ar hynny erioed o'r blaen ym Mhrydain, ond o ystyried ei llwyddiant mewn rhai gwledydd eraill, yn enwedig gwledydd Llychlyn, yr ydym yn eithaf argyhoedddeg y bydd yn llwyddiant yng Nghymru.

**Catherine Thomas:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud llawer iawn o waith i dynnu sylw at bwysigrwydd iechyd a lles plant. Ac ystyried hynny, a ymunwch â mi i longyfarch Tracy Pike a'i thîm yng Nghymdeithas Plant ac Ieuenciad Sir Gaerfyrddin ar eu gwaith ardderchog ym maes iechyd a lles plant? Maent wedi bod yn cynnal dosbarthiadau rheoli dicter, iechyd a lles ers blynnyddoedd lawer, ac mae'r rhain wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn fy etholaeth. Brif Weinidog, a gytunwch y dylid cymeradwyo gwaith o'r fath, ei gefnogi, ac, yn wir, ei ddyblygu mewn nifer o sefydliadau eraill ledled Cymru sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi tynnu sylw'r Cynulliad at eu gwaith a, thrwy hynny, sylw pobl eraill a allai fod yn dymuno dilyn esiampl eu llwyddiant. Yn ogystal â'r pwyt a wneuthum i William Graham, ynglŷn â cheisio sicrhau nad yw plant yn teimlo eu bod yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol o'r system ysgolion wrth gyrraedd chwech a saith mlwydd oed, pan fyddant yn barod i ddechrau cyfnod allweddol 1, mae hefyd yn bwysig iawn galluogi'r nifer fwyaf o blant i gael iechyd da wrth gyrraedd yr oedran pan fyddant yn dechrau dod yn gymdeithasol ymwybodol, ac yn dechrau ystyried a ydynt yn teimlo'n rhan lawn o gymdeithas—neu'n teimlo nad ydynt, mewn rhai achosion, yn anffodus. Os gallwn

we will get the behaviour right.

sicrhau bod yr iechyd a'r addysg yn iawn, credaf y sicrhawn fod yr ymddygiad yn iawn.

2.20 p.m.

### **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mental Health Services**

**Q4 Christine Gwyther:** Will the First Minister make a statement on the provision of mental health services in Wales? OAQ2098(FM)

**The First Minister:** Improving mental health services remains a key priority. We expect to see that improvement in in-patient and community mental health services, and in the experience of all service users, which is why, in October 2005, we announced £5 million of additional recurrent funding to help to implement the revised national service framework.

**Christine Gwyther:** I am sure that you would agree that the most extreme manifestation of emotional and psychological distress is suicide. Every year, more people die from committing suicide than from all the armed conflicts around the world, and, in any year, as many as 6 per cent of the population have serious thoughts of suicide. Most people who consider that course of action share their intent with someone. How do we recognise and respond to that intent? That clearly needs training. Will you join me in applauding the ground-breaking work of Mind Cymru, funded by the Welsh Assembly Government, in terms of its applied suicide intervention skills training workshops throughout Wales? ASIST training is aimed at carers, emergency service workers, counsellors, teachers, mental health practitioners, council staff, youth service providers, volunteers and members of the public. I was privileged to attend the seminar as a public representative, because people come to us in a state of distress, so it is important that we recognise exactly how serious their intent might be.

**C4 Christine Gwyther:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ2098(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau'n flaenoriaeth allweddol. Disgwylwn weld y gwelliant hwnnw mewn gwasanaethau iechyd meddwl preswyl a chymunedol, ac ym mhrofiad pob defnyddiwr gwasanaethau a dyna pam, ym mis Hydref 2005, y cyhoeddasm £5 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol er mwyn helpu i weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig.

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno mai hunanladdiad yw'r mynegiant mwyaf eithafol o drallod emosynol a seicolegol. Bob blwyddyn, mae mwy o bobl yn cyflawni hunanladdiad nag sy'n marw yn holl ryfleoedd y byd, ac, mewn unrhyw flwyddyn, mae cynifer â 6 y cant o'r boblogaeth yn meddwl o ddifrif am gyflawni hunanladdiad. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ystyried y weithred honno'n rhannu eu bwriad gyda rhywun. Sut yr ydym yn gweld bod y bwriad hwnnw'n bod ac yn ymateb iddo? Mae'n amlwg bod angen hyfforddiant ar gyfer hynny. A ymunwch â mi wrth gymeradwyo gwaith arloesol Mind Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o ran eu gweithdai hyfforddiant sgliau ymyriad hunanladdiad cymwysedig ledled Cymru? Mae hyfforddiant ASIST wedi'i anelu at ofalwyr, gweithwyr y gwasanaethau argyfwng, cynghorwyr, athrawon, ymarferwyr iechyd meddwl, staff cyngor, darparwyr gwasanaethau ieuencid, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd. Yr oedd yn faint imi gael mynchu'r seminar fel cynrychiolydd i'r cyhoedd, oherwydd daw pobl atom mewn trallod, felly mae'n bwysig inni wybod yn union pa mor ddifrifol y gallai eu bwriad fod.

**The First Minister:** I am sure that we will

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn siŵr y byddwn

all have seen people who fit into that category attending constituency surgeries, at least those of us who have held them for more years than I care to remember. We tend to think of the Samaritans as being the specialist organisation in this field, but there are others such as Mind Cymru that also train carers and other specialists, and I am glad that you brought it to our attention today.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae eich Llywodraeth wedi dweud wrthym ers saith mlynedd bod afiechyd meddwl yn flaenoriaeth i chi, ond mae'r rhan fwyaf o'r mudiadau hynny sy'n cefnogi a chynnal pobl â phroblemau iechyd meddwl, os nad pob un ohonynt, yn dweud wrthym nad oes fawr ddim wedi newid yn y saith mlynedd diwethaf. Ar ôl etholiad Mai 2007, a gytunwch mai un o'r pethau cyntaf y dylai pa Lywodraeth bynnag a gaiff ei ffurfio yma ei wneud yw sicrhau Deddf iechyd meddwl i Gymru fel ymateb i anghenion a gofynion pobl yng Nghymru, os yw hynny wrth fod yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ei bod yn debyg bod ganddo'r hawl i roi feto ar Orchmylion yn y Cyfrin Gyngor?

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod eich sylw ychydig yn annheg o ran sut yr ydym wedi blaenoriaethu'r pwnc hwn, oherwydd yr ydym yn gwario mwy y pen ar iechyd meddwl nag y maent yn ei wneud yn Lloegr, a chredaf ein bod yn gwario canran fwy o'r gyllideb iechyd ar iechyd meddyliol nag y maent yn ei wneud Lloegr. Felly, wrth sôn am flaenoriaeth, yr ydym yn sôn am arian. O ran y 21 targed ar gyfer darparu gwasanaethau yn y GIG, mae pump ohonynt yn berthnasol i iechyd meddyliol.

**Jonathan Morgan:** One of the great challenges that we need to overcome is the fact that many people with a mental illness feel excluded from many of the decisions that affect them. In the national service framework that you published last year, one of the targets was that, by March 2006, all local authorities and local health boards were to include service users and carer representatives on all relevant local strategic partnerships. Has that been achieved?

oll wedi gweld pobl sydd yn y categori hwnnw'n mynchyu cymorthfeydd etholaethau, neu o leiaf y rhai ohonom sydd wedi bod yn eu cynnal ers cyn cof. Yr ydym yn tuedd i gredu mai'r Samariaid yw'r mudiad arbenigol yn y maes hwn, ond mae eraill megis Mind Cymru sydd hefyd yn hyfforddi gofalwyr ac arbenigwyr eraill, ac yr wyf yn falch eich bod wedi tynnu ein sylw at hynny heddiw.

**Rhodri Glyn Thomas:** Your Government has told us for seven years that mental illness is a priority of yours, but most, if not all, organisations that support people with mental health problems tell us that not much has changed over the last seven years. Following the May 2007 election, do you agree that one of the first things that whatever Government is formed here should do is secure a mental health Act for Wales in order to respond to the needs and requirements of the people of Wales, if that finds favour with the Secretary of State, as it seems that he has the right of veto over Orders in Council?

**The First Minister:** I think that your comment is a little unfair in terms of the priority that we have given to this issue, as we spend more per head on mental health than is spent in England, and I believe that we spend a higher percentage of the health budget on mental health than is spent in England. Therefore, in talking about priority, we are talking about money. In terms of the 21 targets for service provision within the NHS, five relate to mental health.

**Jonathan Morgan:** Un o'r heriau pennaf y mae angen inni eu goresgyn yw'r ffaith bod llawer o bobl sydd â salwch meddwl yn teimlo'u bod wedi'u cau allan o lawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gennych y llynedd, un o'r targedau oedd y byddai pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol, erbyn mis Mawrth 2006, yn cynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ym mhob partneriaeth strategol leol berthnasol. A yw hynny wedi'i gyflawni?

**The First Minister:** I cannot tell you that, but I will make appropriate inquiries and Brian Gibbons will, no doubt, write to you. You raise a very good point, but I think that I may have said earlier—I cannot remember whether or not I did—that the service users' personal experiences should inform plans for improved investment and improved service delivery.

**Jenny Randerson:** I listened carefully to your answer to Rhodri Glyn Thomas and you failed to answer his question. I will give you another opportunity to answer it. Scotland has its own Mental Health Act, and the new amending Bill that is currently going through the House of Lords, which was introduced by the UK Government, is hugely controversial because it includes clauses that allow people to be detained even when there is no useful treatment available and even if they have not committed an offence. It does not give patients the right to have early treatment. Those issues have been addressed satisfactorily in Scotland. If Scotland can do it, why can we not do so? Can you give us a straight 'yes' or 'no' answer for once, please, First Minister? Would you support a mental health Bill for Wales, or not?

**The First Minister:** I see that you have been taking one of those Liberal Democrat sanctimoniousness tablets again, Jenny. It really is quite absurd to say that I did not answer Rhodri Glyn's question. There was a long preamble, which I took to be a question, and I answered that. There really was not time to answer the other question. If he asks one question, then he will get one simple answer; if he asks two, then he is lucky to get the answer to one, to be honest. The important thing is that, with regard to legislation on mental health, we will be starting to talk about legislation later. These will be matters for manifestos; you know that, as you were not born yesterday, Jenny, any more than I was. If anyone wants to commit themselves to Acts or Orders in Council or whatever after the election, then they can put it in the manifesto.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf ddweud hynny wrthych, ond fe wnaf ymholiadau priodol a bydd Brian Gibbons, heb amheuaeth, yn ysgrifennu atoch. Yr ydych yn codi pwynt da iawn, ond credaf fy mod wedi dweud eisoes—ni allaf gofio a wneuthum ai peidio—y dylai profiadau personol defnyddwyr gwasanaethau lywio cynlluniau ar gyfer gwell buddsoddiad a gwell darpariaeth o ran gwasanaethau.

**Jenny Randerson:** Gwrandewais yn astud ar eich ateb i Rhodri Glyn Thomas, ac nid atebasoch ei gwestiwn. Rhoddaf gyfle arall ichi ei ateb. Mae gan yr Alban ei Deddf Iechyd Meddwl ei hun, ac mae'r Mesur diwygio newydd sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, yn hynod o ddadleul oherwydd ei fod yn cynnwys cymalau sy'n caniatáu cadw pobl yn gaeth hyd yn oed pan nad oes triniaeth fuddiol ar gael a hyd yn oed os nad ydynt wedi cyflawni trosedd. Nid yw'n rhoi'r hawl i gleifion gael triniaeth gynnar. Mae'r materion hynny wedi derbyn sylw boddhaol yn yr Alban. Os gall yr Alban wneud hynny, pam na allwn ni? A allwch roi ateb 'byddwn' neu 'na fyddwn' pendant inni am unwaith, os gwelwch yn dda, Brif Weinidog? A fyddch yn cefnogi Mesur iechyd meddwl i Gymru, ai peidio?

**Y Prif Weinidog:** Gwelaf eich bod wedi bod yn cymryd un o dabledi ffugsancteiddrwydd y Democratiaid Rhyddfrydol unwaith eto, Jenny. Mae'n beth gwirioneddol hurt dweud nad atebais gwestiwn Rhodri Glyn. Yr oedd rhagymadrodd hir, cymerais ei fod yn gwestiwn, ac fe'i hatebais. Nid oedd amser i ateb y cwestiwn arall. Os yw'n gofyn un cwestiwn, fe gaiff un ateb syml; os yw'n gofyn dau, yna mae'n lwcus i gael yr ateb i un, a dweud y gwir. Y peth pwysig yw, o ran y ddeddfwriaeth ar iechyd meddwl, y byddwn yn dechrau siarad am ddeddfu'n ddiweddarach. Bydd y rhain yn faterion i'r maniffestos; gwyddoch hynny, Jenny, gan nad ddoe y'ch ganed, mwy na minnau. Os oes unrhyw un am ymrwymo i Ddeddfau neu Orchmylion yn y Cyfrin Gyngor, neu beth bynnag y bo, ar ôl yr etholiad, yna cânt roi hynny yn y maniffesto.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mental Health Services

**Q5 Brynle Williams:** Will the First Minister make a statement on mental health services in north Wales? OAQ2095(FM)

**The First Minister:** Improving mental health services, as I said, is a key priority. It is intended that each local health board, including those in north Wales, should develop a local action plan to improve mental health services. They need to work closely with their corresponding local authority, which would deliver the social services that go alongside it.

**Brynle Williams:** One mental health voluntary organisation in north Wales is serving in excess of 60 people daily. These people have to travel 40 or 45 miles for drop-in facilities. The organisation is doing this with only one full-time member of staff and two part-time members of staff. Do you not agree, First Minister, that it is unacceptable that these organisations are provided with funding on a one-year basis from the Wales Council for Voluntary Action and that they should be funded on a three-year basis to give them some sort of security with regard to their funding? When the demand for these services is, regrettably, increasing, substantial additional resources must be provided for this facility.

**The First Minister:** If you mentioned the particular organisation, I am sorry, but I missed it. However, I will ensure that either Brian Gibbons or I read the Record and respond to you on a matter of detail.

The distances involved in travelling to drop-in facilities are a material factor in ensuring that those facilities are used by the people for whom they are intended. However, in remote, sparsely populated areas, you will have distances to travel to any kind of specialist facility. The general philosophy in relation to the development of mental health services is that it should be produced as much in the community as possible, as much on an out-patient basis as possible, and as little on an in-patient basis as possible. As much of it as possible should be provided in primary care

**C5 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl yn y gogledd? OAQ2095(FM)

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth allweddol. Bwriedir i bob bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys y rhai yn y gogledd, ddatblygu cynllun gweithredu lleol er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl. Mae angen iddynt weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol sy'n cyfateb iddynt, a fyddai'n darparu'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyd-fynd â'r cynllun.

**Brynle Williams:** Mae un mudiad gwirfoddol ym maes iechyd meddwl yn y gogledd yn gwasanaethu dros 60 o bobl bob dydd. Rhaid i'r bobl hyn deithio 40 neu 45 milltir i gyrraedd cyfleusterau galw heibio. Mae'r mudiad yn gwneud hyn gyda dim ond un aelod staff llawnamser a dau aelod staff rhan-amser. Oni chytunwch, Brif Weinidog, ei bod yn annerbyniol bod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru'n rhoi cyllid i'r mudiadau hyn ar sail un flwyddyn yn unig, ac y dylid eu hariannu ar sail tair blynedd er mwyn rhoi rhyw fath o sicrwydd iddynt o ran eu cyllid? Wrth i'r galw am y gwasanaethau hyn gynyddu, yn anffodus, rhaid darparu adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer y cyfleuster hwn.

**Y Prif Weinidog:** Os soniasoch am y mudiad penodol, mae'n ddrwg gennyf, ond fe gollais hynny. Fodd bynnag, sicrhaf fy mod i neu Brian Gibbons yn darllen y Cofnod ac yn ymateb ichi ynglŷn â'r manylion.

Mae'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â theithio i gyfleusterau galw heibio yn ffactor perthnasol o ran sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n cael eu defnyddio gan y bobl y'u bwriedir ar eu cyfer. Fodd bynnag, mewn ardaloedd anghysbell sydd â phoblogaeth isel, bydd gennych bellteroedd i'w teithio i unrhyw fath o wasasnaeth arbenigol. Yr athroniaeth gyffredinol ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl yw y dylid eu darparu yn y gymuned hyd y gellir, ar sail cleifion allanol hyd y gellir, a chyn lleied ag sydd bosibl ar sail cleifion preswyl. Dylid

settings, voluntary-body settings, or non-intimidating, non-ward-and-corridor-based premises in order to avoid stigma and to ease the re-entry of a person into society following an acute episode.

darparu cymaint ag sy'n bosibl ohono mewn lleoliadau gofal sylfaenol, lleoliadau cyrff gwirfoddol, neu mewn adeilad anfygythiol, heb wardiau a choridorau, er mwyn osgoi stigma a hwyluso ailgyflwyno unigolyn i'r gymdeithas wedi cyfnod aciwt.

### **Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus Improving Public Services**

**Q6 Janet Ryder:** Will the First Minister make a statement on the effectiveness of Welsh Assembly Government policies in improving public services? OAQ2105(FM)

**C6 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaeth cyhoeddus? OAQ2105(FM)

**The First Minister:** I think that you know the answer to this already, Janet. Last week, we published 'Delivering Beyond Boundaries' as a response to Sir Jeremy Beecham's excellent review of local service delivery, which sets out the next phase of our public service reform agenda.

**Y Prif Weinidog:** Credaf eich bod eisoes yn gwybod yr ateb i hyn, Janet. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddasom 'Cyflawni Ar Draws Ffiniau' fel ymateb i adolygiad ardderchog Syr Jeremy Beecham o ddarpariaeth gwasanaethau lleol, sy'n penu cam nesaf ein hagenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Janet Ryder:** One Government policy that is not improving the effectiveness of public services is the 1 per cent cuts that local authorities are being asked to make. I know that many local authorities are turning to you as they have been told that they have to make genuine efficiency savings. In terms of education budgets, which take up around 40 per cent of councils' budgets and which are mainly taken up by staffing costs and resources, what would you class as being a genuine efficiency saving?

**Janet Ryder:** Un o bolisiau'r Llywodraeth nad yw'n gwella effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus yw gofyn i awdurdodau lleol wneud toriadau o 1 y cant. Gwn fod llawer o awdurdodau lleol yn troi atoch gan eu bod wedi cael eu hysbysu bod rhaid iddynt wneud arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol. O ran cyllidebau addysg, sydd tua 40 y cant o gyllidebau cynhorau ac a ddefnyddir ar gostau staffio ac adnoddau gan mwyaf, beth y byddech yn ei alw'n arbediad effeithlonrwydd gwirioneddol?

**The First Minister:** I said that you knew the answer to the first question and I think that you also know the answer to this question. Two simple things would be dominant in such an efficiency saving. If it is at the school level, it is about getting advice from Value Wales on joint procurement or more efficient procurement of supplies. On a broader level, in terms of efficiency in delivering education, if there is a problem with regard to surplus school places, it would be to address that problem. That is a big gain in efficiency, which enables you to employ more teachers and to teach more children better.

**Y Prif Weinidog:** Dywedais eich bod yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn cyntaf, a chredaf eich bod hefyd yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn hefyd. Byddai dau beth syml yn flaenllaw mewn arbediad effeithlonrwydd o'r fath. Ar lefel ysgolion, mae'n ymwneud â chael cyngor gan Werth Cymru ar gaffael adnoddau ar y cyd neu eu caffael mewn modd mwy effeithlon. Ar lefel fwy cyffredinol, o ran effeithlonrwydd mewn darparu addysg, os oes problem yn ymwneud â lleoedd gwag mewn ysgolion, mynd i'r afael â'r broblem honno fyddai'r ateb. Mae hynny'n ennill llawer o ran effeithlonrwydd, sy'n eich galluogi i gyflogi rhagor o athrawon a dysgu rhagor o blant yn well.

**Karen Sinclair:** Last night, the Liberal Democrat independent leadership of Wrexham council decided to close the excellent and well-respected Llys Madoc care home in my area and to run down the Nant Silyn home despite a vigorous campaign by local people, which has the support of all Labour AMs and MPs in the area.

2.30 p.m.

The council leadership decided to run roughshod over the wishes of the local community and to press ahead with the closure programme. First Minister, do you agree that every area benefits from a good mix of private and public care homes, and that such decisions to close good-quality local homes' in-house care facilities will leave communities such as Wrexham far poorer as a result?

**The Presiding Officer:** Order. I believe that that question referred to the internal decisions of a local authority. I am sure that the First Minister will bear that in mind when he replies.

**The First Minister:** I cannot comment on decisions as regards individual homes. Your point about needing a variety of provision and avoiding dependence on one shot in the golf bag, as it were, is well made. Local authorities need to be aware of that when they make their dispositions.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Mae'n siŵr eich bod yn cofio, Brif Weinidog, imi ofyn i chi, ar 7 Tachwedd—ryw dair wythnos yn ôl—pam yr oedd cynnydd mewn gwariant ar addysg, ers 1999, yn llai yng Nghymru nag yng ngweddill gwledydd Prydain. Mae'n siŵr gennyl hefyd eich bod yn cofio beirniadu awdurdodau lleol am beidio â rhoi blaenoriaeth i addysg. Mae'n siŵr gennyl eich bod wedi ystyried y Cofnod yn ofalus erbyn hyn, felly a ydych bellach yn derbyn bod eich beirniadaeth o awdurdodau lleol yn gwbl annheg?

**Y Prif Weinidog:** Daw'r arian a glustnodir ar gyfer addysg o ddwy ffynhonnell, sef yr arian a geir oddi wrthym ni a'r penderfyniadau a wneir yn annibynnol gan

**Karen Sinclair:** Neithiwr, penderfynodd arweinyddiaeth yr annibynwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Wrecsam gau cartref gofal ardderchog ac uchel ei barch Llys Madog yn fy ardal a lleihau gwasanaethau yng nghartref Nant Silyn er gwaethaf ymgyrch egniol gan bobl leol, sy'n cael cefnogaeth yr holl ACau ac ASau Llafur yn yr ardal.

Penderfynodd arweinwyr y cyngor sathru ar deimladau'r gymuned leol a bwrw ymlaen â'r rhaglen gau. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod pob ardal yn elwa o gymysgedd dda o gartrefi gofal preifat a chyhoeddus, ac y bydd penderfyniadau o'r fath i gau cyfleusterau gofal mewnol cartrefi lleol o ansawdd da yn peri bod cymunedau fel Wrecsam yn llawer tlotach o ganlyniad?

**Y Llywydd:** Trefn. Credaf fod y cwestiwn hwnnw yn cyfeirio at benderfyniadau mewnol awdurdod lleol. Yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cadw hynny mewn cof wrth iddo ateb.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf gyflwyno sylwadau am benderfyniadau ynglŷn â chartrefi unigol. Gwnaethoch y pwyt yn dda fod angen amrywiaeth o ddarpariaeth ac osgoi dibynnu ar un math o ofal. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o hynny wrth wneud eu penderfyniadau.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** I am sure that you recall, First Minister, that I asked you, on 7 November—around three weeks ago—why the increase in spending on education, since 1999, was less in Wales than in the rest of the UK. I am also sure that you will recall criticising local authorities for not prioritising education. I am sure that you will have considered the Record carefully by now, so would you accept that your criticism of local authorities was quite unfair?

**The First Minister:** The money allocated for education comes from two sources, namely the funding that they receive from us and the decisions that they make autonomously

awdurdodau. Cyhoeddir y grant cynnal refeniw a roddwn tuag at wariant fel bod pawb yn gwybod faint a glustnodwyd ar gyfer addysg. Serch hynny, mae rhai awdurdodau lleol yn gwario mwy na'r swm hwnnw ac eraill yn gwario llai. Hefyd, gallant wario'u harian eu hunain, a ddaw o'r dreth gyngor. Mae rhai yn blaenorriaethu addysg ac eraill yn dewis peidio; felly, mae'n bwysig bod y rhai sydd ar waelod y gynghrair o ran gwariant ar addysg yn edrych ar yr hyn y mae'r awdurdodau eraill yn ei wneud ac yn ystyried a allant wneud yn well.

**Ieuan Wyn Jones:** Felly, mewn gwirionedd, yr hyn a ddywedwch, yn ôl yr ateb hwnnw, yw nad yw pob awdurdod addysg yn rhoi digon o flaenorriaeth i addysg, yn eich barn chi, a rhai yn unig sy'n peidio â rhoi digon o flaenorriaeth. Felly, yr oedd eich beirniadaeth chi o awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn gwbl annheg, onid oedd?

Mae'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei ddweud yn gyson bellach—ac nid mater o'r naill awdurdod na'r llall yw hyn. Ar wahân i'r arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant y maent yn gorfol eu gwneud—ac mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn dweud eu bod yn gorfol rhoi hwnnw ymlaen i ysgolion—dywed yr awdurdodau lleol nad ydych yn cyllido pensiynau athrawon, costau ynni uwch, cynydd ar gostau arholiadau, a phrinder cyfalaf i wella adeiladau.

Dywed prifathrawon ysgolion wrthyf os na fydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o arian ar gyfer addysg y flwyddyn nesaf, caiff athrawon eu diswyddo yn orfodol. A dderbyniwch y gall hynny ddigwydd?

**Y Prif Weinidog:** Gan fod 40,000 o blant yn ymadael â'r ysgol eleni a dim ond 30,000 o blant yn mynd i mewn i'r ysgol, mae'n amlwg bod gennym broblem—fel ym mhob gwlad arall yn Ewrop—o ddisgyniad sylweddol yng nghyfanswm y plant sydd yn ein system addysg. Ni fedrwn wneud dim yn ei gylch. Nid wyf yn ceisio rhagweld y dyfodol; sôn am y presennol yr ydwyf. Felly, bydd cwmp yn nifer yr athrawon os ydych am gadw'r ganran o athrawon i blant ar yr un lefel â'r lefel bresennol.

Wedi hynny, bydd dryswch wastad yn gallu

themselves. The amount of revenue support grant that we provide towards expenditure is made public so that everyone knows how much has been earmarked for education. However, some local authorities spend more than that amount and some spend less. Also, they can spend their own money, which is generated through council tax. Some choose to prioritise education, while others do not; therefore, it is important that those that are at the bottom of the league in terms of spending on education look at what others are doing and consider whether they can do better.

**Ieuan Wyn Jones:** Therefore, in reality, what you are saying in that response is that, in your opinion, not every education authority is giving adequate priority to education, and that only some are not giving it adequate priority. Therefore, your criticism of local authorities, as a whole, was quite unfair, was it not?

What local authorities are now saying is consistent—it is not a case of one authority or another. Apart from the efficiency savings of 1 per cent that they have to make—and the vast majority are saying that they have to pass that on to schools—the local authorities say that you do not fund pensions for teachers, higher energy costs, the increase in the cost of examinations, and the lack of capital to improve buildings.

School headteachers are telling me that if the Government does not provide more funding for education next year, teachers will face compulsory redundancy. Do you accept that that could happen?

**The First Minister:** As 40,000 children will be leaving schools this year and only 30,000 will be going into schools, it is clear that we have a problem—as is the case in every other country in Europe—of a significant reduction in the number of children in our education system. We cannot do anything about that. I am not trying to foresee the future; I am talking about the current situation. Therefore, there will be a reduction in the number of teachers required if you are to keep the ratio of teachers to pupils at the current level.

Following on from that, there will always be

codi, rhwng y cwyp o safbwyt cyfanswm y plant a'r cynnydd o safbwyt arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant y gofynnwn amdanynt gan ein hawdurdodau lleol. Mae awdurdodau yn dweud eu bod wedi gwneud yn well na hynny a'u bod wedi cyflawni 2 y cant. Felly, nid ydynt fel pe baent yn brwydro i gyrraedd y nod y mae Sue Essex wedi'i osod iddynt o arbed 1 y cant.

**Ieuan Wyn Jones:** What I find extraordinary about your answers, both on 7 November and today, is that you blame everybody else. First, it is those local authorities that do not spend enough on education who are to blame. Secondly, if a teacher is to be sacked next year, it is because of falling school rolls. Let us make this clear, First Minister: the figures show that the increase in education spending in Wales since 1999 has not kept pace with the increase in England, Scotland or Northern Ireland. Therefore, local authorities in Wales have less money in their budgets than their counterparts.

You are not prepared to fully fund, for example, superannuation for teachers, or the higher energy costs of schools, and so on. Why do you not accept that some of this is your responsibility? Why do you not live up to your responsibility and ensure that schools have more money, given the pressures that they will face next year? Otherwise, your refrain of 'education, education, education' will sound hollow indeed.

**The First Minister:** It would, if all of that were true. However, the teachers' pension increase has been fully funded. I do not know where you get these wild facts that you attempt to throw in front of us, but they really do need to be checked. I think that you will find that many of these complaints are a case of last-minute special pleading. If you look at the real problems in education, you will find that local authorities in England are not involved in the direct funding of schools, as authorities are in Wales, because they are funded directly by the Chancellor of the Exchequer. We have decided not to go down that route although, in the budget, we show every local council tax payer how the revenue support grant is built up, and the proportion of it that we estimate a local authority will spend on education. Some local

confusion between the fall in the number of pupils and the increase in terms of the efficiency savings of 1 per cent that we are requesting of our local authorities. Local authorities say that they have done better than that and that they have achieved savings of 2 per cent. Therefore, it is not as if they are struggling to achieve the target of 1 per cent that Sue Essex has set.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr hyn sydd yn anhygoel i mi am eich atebion, ar 7 Tachwedd a heddiw, yw eich bod yn beio pawb arall. Yn gyntaf, yr awdurdodau hynny nad ydynt yn gwario digon ar addysg sydd i'w beio. Yn ail, os caiff athro ei ddiswyddo y flwyddyn nesaf, y gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd i'w feio. Gadewch inni wneud hyn yn glir, Brif Weinidog: mae'r ffigurau'n dangos nad yw'r cynnydd mewn gwariant ar addysg yng Nghymru yn cyfateb i'r cynnydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Felly, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru lai o arian yn eu cyllidebau na'u cymheiriaid.

Nid ydych yn barod i ariannu'n llawn bensiynau athrawon, er enghraift, na chostau ynni uwch ysgolion, ac yn y blaen. Pam nad ydych yn derbyn mai eich cyfrifoldeb chi yw peth o hyn? Pam nad ydych yn cydnabod eich cyfrifoldeb ac yn sicrhau bod ysgolion yn cael rhagor o arian, o ystyried y pwysau a fydd yn eu hwynебu y flwyddyn nesaf? Fel arall, bydd eich byrdwn 'addysg, addysg, addysg' yn swnio'n wag iawn, iawn.

**Y Prif Weinidog:** Byddai, pe bai hynny oll yn wir. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ym mhensiynau athrawon wedi cael ei gyllido'n llawn. Ni wn o ble yr ydych yn cael y ffeithiau di-sail hyn yr ydych yn ceisio'u bwrw o'n blaenau, ond mae gwir angen eu gwirio. Credaf y byddwch yn darganfod mai mater o bledio arbennig ar y funud olaf yw llawer o'r cwynion hyn. Os edrychwrch ar y problemau gwirioneddol ym maes addysg, fe welwch nad oes a wnelo awdurdodau lleol yn Lloegr â chyllido ysgolion yn uniongyrchol, gan eu bod yn cael eu cyllido'n uniongyrchol gan Ganghellor y Trysorlys—yn wahanol i'r sefyllfa o ran yr awdurdodau yng Nghymru. Yr ydym wedi penderfynu peidio â dilyn y llwybr hwnnw er ein bod, yn y gyllideb, yn dangos i bob un sy'n talu treth gyngor sut y mae'r grant cynnal refeniw yn cael ei lunio,

authorities in Wales will spend less than that sum on education. That is their democratic choice, and it is up to the local voters to decide whether they are happy with that, given the school results. If they are not happy with it, they can put pressure on the local authority. Indeed, sometimes, it is up to Assembly Members to put pressure on, and here I must cite the example of Ann Jones battering down the door of Denbighshire County Council and persuading it, almost single-handedly, to increase its expenditure on education. It really is remarkable. You could do the same instead of coming here to moan to us; you could go to your local authority to persuade it to increase spending on education. That is what one Assembly Member has done as regards her local authority. Its spending figures supported what I have just said, and so she persuaded it to change. You could all do that if you think that your local authority is not spending enough on education.

a'r gyfran ohono yr ydym yn amcangyfrif y bydd awdurdod lleol yn ei gwario ar addysg. Bydd rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwario llai na'r swm hwnnw ar addysg. Dyna eu dewis democrataidd, a mater i'r pleidleiswyr lleol yw penderfynu a ydynt yn hapus â hynny, o ystyried canlyniadau'r ysgolion. Os nad ydynt yn hapus ag ef, gallant roi pwysau ar yr awdurdod lleol. Yn wir, weithiau, mater i Aelodau'r Cynulliad yw rhoi pwysau ar yr awdurdodau, ac yma rhaid imi sôn am enghraifft Ann Jones yn eurio ar ddrws Cyngor Sir Ddinbych ac yn ei berswadio, ar ei phen ei hun fwy neu lai, i gynyddu ei wariant ar addysg. Mae'n hynod yn wir. Gallech chithau wneud yr un peth yn lle dod yma i gwyno wrthym; gallech fynd at eich awdurdod lleol i'w berswadio i gynyddu'r gwariant ar addysg. Dyna y mae un Aelod Cynulliad wedi ei wneud o ran ei hawdurdod lleol. Yr oedd ei ffigurau gwariant yn ategu'r hyn yr wyf newydd ei ddweud, ac felly perswadiodd hi ef i newid. Gallai pob un ohonoch wneud hynny os ydych yn credu nad yw eich awdurdod lleol yn gwario digon ar addysg.

#### **Ad-drefnu Iechyd (Gwent) Health Re-organisation (Gwent)**

**Q7 Lynne Neagle:** Will the First Minister make a statement on health re-organisation in Gwent? OAQ2096(FM)

**The First Minister:** The NHS in Gwent is currently conducting a public consultation on 'Clinical Futures', the future configuration of hospital services in the county.

**Lynne Neagle:** First Minister, you know that I have campaigned for a number of years on addressing health inequalities in Wales, and I believe that the successful re-organisation of services will contribute towards reaching that goal. However, such a re-organisation risks being undermined unless the level of funding matches the health need of the area. Year on year, the Health and Social Services Committee has prioritised the implementation of the Townsend formula, which would mean an extra £7 million for Torfaen alone. Will you commit to allocating the funds due to Gwent, which, at the end of the day, do not constitute an earth-shattering redistribution of

**C7 Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu iechyd yng Ngwent? OAQ2096(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r GIG yng Ngwent wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 'Dyfodol Clinigol', sef cyfluniad gwasanaethau ysbyty yn y sir i'r dyfodol.

**Lynne Neagle:** Brif Weinidog, gwyddoch fy mod wedi ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd ynghylch rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, a chredaf y bydd ad-drefnu gwasanaethau'n llwyddiannus yn cyfrannu tuag at gyrraedd y nod hwnnw. Fodd bynnag, mae perygl i ad-drefnu o'r fath gael ei danseilio onid yw lefel y cyllid yn cyfateb i anghenion yr ardal o ran iechyd. O flwyddyn i flwyddyn, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu fformiwlau Townsend, a fyddai'n golygu £7 miliwn ychwanegol i Dor-faen yn unig. A wnewch ymrwymo i ddyrannu'r arian sy'n ddyledus i

resources, and would simply mean addressing a long-standing funding injustice in how funds are allocated to Gwent?

**The First Minister:** Knowing Professor Townsend as well as I do, I would certainly like to go along with his formula, although it is not normal practice to make budget commitments during First Minister's questions—that really would not be appropriate. We believe in having a national health service, but with a health inequalities fund on top of it to ensure that extra resources go to areas with particular health problems. I think that the inequalities in health fund has been successful in that regard. The problem with the wider issue of the Townsend formula is that it is revisited from time to time, and so it produces remarkably different figures from those produced three years previously. That is a problem for us, but the belief that you can top up the national health service with additional health inequalities funding is fundamental to the way in which we operate.

**William Graham:** First Minister, you will be aware of the disquiet in Newport about the apparent situation regarding the critical care centre to be built in Cwmbran, as it means that there will not be an adequate site in Newport for accident and emergency services and associated urgent health needs. Could you look again at this matter? The meetings have been well attended, and a very large proportion of people indicated that there should be a site in Newport, perhaps at junction 28 of the M4, or on part of the former Royal Gwent Hospital site on Cardiff road. After all, the present hospital serves a very large population, and, in future, there will not be many hospitals situated right in the centre of cities.

2.40 p.m.

**The First Minister:** I appreciate what you say about the wish of the people of Newport to have very good, accessible and high-

Went, nad yw, yn y pen draw, yn golygu ailddosbarthu enfawr ar adnoddau, ac na fyddai ond yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cyllido sydd yn bodoli ers tro o ran dyrannu arian i Went?

**Y Prif Weinidog:** A minnau'r adnabod yr Athro Townsend yn bur dda, byddwn yn sicr yn hoffi cyd-fynd â'i fformiwla, er nad yw'n arferol gwneud ymrwymiadau cyllideb yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog—ni fyddai hynny'n briodol o gwbl. Credwn mewn cael gwasanaeth iechyd cenedlaethol, ond gyda chronfa anghydraddoldebau iechyd ar ben hynny i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn mynd i ardaloedd sydd â phroblemau iechyd penodol. Credaf fod y gronfa anghydraddoldebau iechyd wedi bod yn llwyddiannus yn hynny o beth. Y broblem ehangach gyda fformiwla Townsend yw ein bod yn ailedrych arni o bryd i'w gilydd, ac felly mae'n cynhyrchu ffigurau tra gwahanol i'r rhai a gynhyrchwyd dair blynedd yn gynharach. Mae hynny'n broblem inni, ond mae'r gred bod modd gwella'r gwasanaeth iechyd gwladol gydag arian anghydraddoldebau iechyd ychwanegol yn sylfaenol o ran y ffordd yr ydym yn gweithredu.

**William Graham:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r pryderon yng Nghasnewydd yngylch y sefyllfa, mae'n ymddangos, ynglŷn â'r ganolfan gofal critigol sydd i gael ei chodi yng Nghwmbrân, gan y bydd yn golygu na fydd safle digonol yng Nghasnewydd ar gyfer gwasanaethau damweiniau ac achosion brys ac anghenion iechyd brys sy'n gysylltiedig. A allech edrych ar y mater hwn eto? Mae llawer o bobl wedi dod i'r cyfarfodydd, a dywedodd cyfran fawr o bobl y dylai fod safle yng Nghasnewydd, ar gyffordd 28 yr M4 efallai, neu ar ran o safle hen Ysbyty Brenhinol Gwent ar ffordd Caerdydd. Wedi'r cyfan, mae'r ysbyty presennol yn gwasanaethu poblogaeth fawr iawn, ac, yn y dyfodol, ni fydd llawer o ysbytai wedi'u lleoli yng nghanol dinasoedd.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn sylweddoli'r hyn a ddywedwch am ddymuniad pobl Casnewydd i gael gwasanaethau da iawn,

quality services, including accident and emergency and trauma centres. The health community has told us that, as a general pattern, it wants to see three major critical care centres for the 1.2 million people living in south-east Wales—and this definition excludes Bridgend—which means one critical care centre in Gwent to serve a population of some 0.5 million. Therefore, if you place a centre for the whole of Gwent in Newport you will not be able to satisfy the northern half and the southern half of the county. However, if one of those centres is built in mid Gwent, adequate replacement services will need to be provided in the northern Valleys, as well as in Newport.

hygyrch, o ansawdd da, gan gynnwys canolfannau damweiniau ac achosion brys a thrawma. Mae'r gymuned iechyd wedi dweud wrthym ei bod, o ran patrwm cyffredinol, am weld tair canolfan gofal critigol fawr ar gyfer yr 1.2 miliwn o bobl sy'n byw yn ne-ddwyrain Cymru—ac nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr—sy'n golygu un ganolfan gofal critigol yng Ngwent i wasanaethu poblogaeth o ryw 0.5 miliwn. Felly, os lleolwch ganolfan ar gyfer Gwent i gyd yng Nghasnewydd ni fyddwch yn gallu bodloni hanner gogleddol a hanner deheuol y sir. Fodd bynnag, os caiff un o'r canolfannau hynny ei chodi yng nghanol Gwent, bydd angen darparu gwasanaethau yn lle'r hyn a gollir yn y Cymoedd gogleddol, yn ogystal ag yng Nghasnewydd.

### Farepak

**C8 Helen Mary Jones:** What recent discussions has the First Minister had with UK Ministers regarding Farepak? OAQ2110(FM)

**The First Minister:** Personally, I have had no such discussions. However, my colleague, the Minister for Social Justice and Regeneration, Edwina Hart, has corresponded on the subject with the Minister for Trade, Investment and Foreign Affairs, Ian McCartney who is leading for the UK Government on this issue.

**Q8 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y DU parthed Farepak? OAQ2110(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yn bersonol, nid wyf wedi cynnal dim trafodaethau o'r fath. Fodd bynnag, mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart, wedi gohebu ar y mater gyda'r Gweinidog dros Fasnach, Buddsoddi a Materion Tramor, Ian McCartney sy'n arwain ar ran Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

**Helen Mary Jones:** I urge you, should you get an appropriate opportunity, to raise the issue with your opposite numbers in Westminster as well, because this issue has had a great impact on many of our constituents. I know that we can trust the Minister for social justice to take a vigorous approach in trying to ensure that the situation is remedied.

I put two points to you this afternoon, First Minister. First, do you now consider it time for similar saving companies to be more stringently regulated so that customer savings are protected in the future? Secondly, a case has been put to me by an agent for Farepak from Trimsaran, in my region, who believes

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn eich annog, pe baech yn cael cyfle priodol, i godi'r mater gyda'ch cymheiriad yn San Steffan hefyd, gan fod y mater hwn wedi effeithio'n fawr ar lawer o'n hetholwyr. Gwn y gallwn ymddiried yn y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i weithredu'n egniol i geisio sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei hunioni.

Cyflwynaf ddau bwynt ger eich bron y prynhawn yma, Brif Weinidog. Yn gyntaf, a ydych yn credu bellach ei bod yn bryd i gwmniau cynilo cyffelyb gael eu rheoleiddio'n llymach fel bod cynillion cwsmeriaid yn cael eu diogelu yn y dyfodol? Yn ail, mae achos wedi cael ei gyflwyno imi

that she and her customers may have been victims of the company's obtaining money by false pretences—and that is the phrase that she used—by continuing to take contributions when it knew that it was having serious problems. First Minister, do you agree that there may be a case for police forces across the country to investigate any criminal charges of obtaining of money under false pretences, given that the company was aware so far in advance that it was unlikely to meet its obligations to these vulnerable customers?

**The First Minister:** The Department of Trade and Industry's insolvency branch is looking at the collapse of Farepak, and it would normally investigate whether the directors were trading while insolvent, or whether they were in some way misleading customers to continue to deposit funds into their Christmas saving schemes when they knew that the likelihood was that they would not get them back. All those issues are standard practice in the DTI's insolvency branch's investigations following a bankruptcy.

On the wider issue, we have taken practical steps to try to get credit unions in Wales to move away from their normal rule that a person must have saved with them for at least eight weeks before withdrawing any money. Clearly, that will not be much use to someone who wants to salvage the family's Christmas. We are trying to make special provision for credit unions, looking at the risks involved in enabling people to make withdrawals before putting savings in, if you like. We know that Farepak customers are good savers. Indeed, if there is only one thing that you can say about them, it is that they definitely believe in saving, even if they have lost their savings on this occasion.

The other complication with Farepak is that it is not, strictly speaking, a saving scheme. It is an unregulated financial services area, unlike credit unions, and unlike companies that do doorstep saving such as Provident Financial, although it is not a terribly popular company.

gan asiant ar ran Farepak o Drimsaran, yn fy rhanbarth, sy'n credu iddi hi a'i chwsmeriaid ddioddef efallai am i'r cwmni gael arian drwy dwyll—a dyna'r ymadrodd a ddefnyddiodd hi—drwy barhau i gymryd cyfraniadau ac yntau'n gwybod bod ganddo broblemau difrifol. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y gallai fod achos i heddluoedd ar draws y wlad ymchwilio i gyhuddiadau troseddol o gael arian drwy dwyll, o ystyried bod y cwmni'n gwybod gymaint ymlaen llaw nad oedd yn debygol o allu cyflawni ei ymrwymiadau tuag at y cwsmeriaid hyn a oedd yn agored i niwed?

**Y Prif Weinidog:** Mae cangen ansolfeidd yr Adran Masnach a Diwydiant yn edrych ar fethiant Farepak, ac fel arfer byddai'n ymchwilio i gael gwybod a oedd y cyfarwyddwyr yn masnachu a hwythau wedi mynd yn fethdalwyr, neu a oeddent yn camarwain cwsmeriaid rywsut i ddal i roi arian yn eu cynlluniau cynilo at y Nadolig a hwythau'n gwybod na fyddent yn ôl pob tebyg yn cael yr arian hwnnw'n ôl. Mae'r holl faterion hynny'n bethau y mae'n arferol eu gwneud yn ymchwiliadau cangen ansolfeidd y DTI pan aiff cwmni'n fethdalwr.

O ran y mater ehangach, yr ydym wedi cymryd camau ymarferol i geisio cael gan undebau credyd yng Nghymru wyro oddi wrth eu rheol arferol fod yn rhai i rywun fod wedi cynilo gyda hwy am o leiaf wyth wythnos cyn codi arian. Yn amlwg, ni fyddai hynny o lawer o gymorth i rywun sydd am achub Nadolig y teulu. Yr ydym yn ceisio gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer undebau credyd, gan edrych ar y peryglon sydd ymhlyg mewn galluogi pobl i godi arian cyn rhoi cynillion i mewn, fel petai. Gwyddom fod cwsmeriaid Farepak yn gynilwyr da. Yn wir, os nad oes ond un peth y gallwch ei ddweud amdanynt, yffaith eu bod yn sicr yn credu mewn cynilo yw hynny, hyd yn oed os ydynt wedi colli eu cynillion ar yr achlysur hwn.

Y cymhlethod arall gyda Farepak yw nad ydyw, yn fanwl gywir, yn gynllun cynilo. Mae hwn yn faes nad yw'n cael ei reoleiddio o fewn gwasanaethau ariannol, yn wahanol i undebau credyd, ac yn wahanol i gwmnïau sy'n cynnig cynlluniau cynilo o ddrws i ddrws, fel Provident Financial, er nad yw'n

gwmni neilltuol o boblogaidd.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, I agree with your comments about the role that credit unions could play until such time as these industries are properly regulated. Will you join me in urging UK Government Ministers and others to call on some of our major retailers and commercial organisations to support the Farepak fund set up by the Government, which yesterday stood at £5.6 million? That sum still falls far short of the money that has been lost, but the fund is nevertheless capable of making a valuable contribution.

**The First Minister:** I am sure that the Farepak families would be glad of any kind of restitution of the lost savings in time for them to do some of the Christmas shopping for which the savings were intended. The sum of money deposited by retailers and others has increased from £4 million to £5.6 million, but it is well short of the £40 million that has been lost. Let us hope that continued pressure on those in the retail industry, who would have expected to benefit from the purchases, leads to them agreeing that it would be a wonderful Christmas gesture for them to contribute towards getting that figure a bit closer to £40 million.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, cytunaf â'ch sylwadau am y rôl y gallai undebau credyd ei chwarae hyd nes y bydd y diwydiannau hyn yn cael eu rheoleiddio'n iawn. A wnewch ymuno â mi i annog Gweinidogion Llywodraeth y DU ac eraill i alw ar rai o'n prif adwerthwyr a'n sefydliadau masnachol i gefnogi cronfa Farepak a sefydlwyd gan y Llywodraeth, a oedd ddoe yn werth £5.6 miliwn? Mae'r swm hwnnw'n parhau lawer yn llai na'r arian a gollwyd, ond mae modd i'r gronfa serch hynny wneud cyfraniad gwerthfawr.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn siŵr y byddai teuluoedd Farepak yn falch o unrhyw fath o iawn am y cynillion a gollwyd mewn pryd iddynt wneud ychydig o'r siopa Nadolig y bwriadwyd y cynillion ar ei gyfer. Mae'r swm o arian a roddwyd gan adwerthwyr ac eraill wedi codi o £4 miliwn i £5.6 miliwn, ond mae'n bell iawn o'r £40 miliwn a gollwyd. Gadewch inni obeithio y bydd pwysog parhaus ar y rhai yn y diwydiant adwerthu, a fyddai wedi disgwyl elwa o'r prynu, yn peri iddynt dderbyn y byddai'n arwydd gwych o ewyllys da dros y Nadolig iddynt gyfrannu at godi'r ffigur hwnnw ychydig yn agosach at £40 miliwn.

### Diwydiannau Creadigol Creative Industries

**Q9 Eleanor Burnham:** Will the First Minister make a statement on the creative industries review? OAQ2089(FM)

**The First Minister:** I certainly would if there were one. We are delivering a strategy, not undertaking a review. We are restructuring the Wales Screen Commission to reflect business needs, Creative Business Wales now forms part of International Business Wales, we have a new film agency; and we have re-appointed the creative business panel.

**Eleanor Burnham:** I asked the question because everyone is asking what is happening. There is obviously a great deal of uncertainty. You are aware of concerns, throughout Wales, and even in my region of

**C9 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adolygiad o ddiwydiannau creadigol? OAQ2089(FM)

**Y Prif Weinidog:** Gwnawn hynny'n sicr pe byddai un yn cael ei gynnal. Yr ydym yn gweithredu strategaeth, yn hytrach na chynnal adolygiad. Yr ydym yn ad-drefnu Comisiwn Sgrin Cymru i adlewyrchu anghenion byd busnes, mae Busnes Creadigol Cymru'n rhan o Busnes Rhyngwladol Cymru bellach, mae gennym asiantaeth ffilm newydd; ac yr ydym wedi ailbenodi'r panel busnes creadigol.

**Eleanor Burnham:** Gofynnais y cwestiwn am fod pawb yn holi beth sydd yn digwydd. Mae'n amlwg bod llawer iawn o ansicrwydd. Gwyddoch am y pryderon, ledled Cymru, a hyd yn oed yn fy rhanbarth i, sef gogledd

north Wales, about the fact that—according to your Minister for Enterprise, Innovation and Networks and not the Minister for Culture, Welsh Language and Sport—there will be a downgrading and downsizing of each office, other than Llandeilo and Cardiff, to one individual. Your Minister for Enterprise, Innovation and Networks stated that the income generated by north Wales was only £16,000. My understanding is that that is way off the mark, and that it is at least £100,000. Do you not agree that it is vital to have a clear and positive strategy for all of Wales for this vital industry, which brings so much benefit to the culture tourism sector alone? I am thinking of such things as the north Wales film trail and plaques, which have been extremely successful.

**The First Minister:** I agree with all of that, but the figures that we have show that south-east Wales accounted for more than £17 million of the £18 million total film industry drop in Wales last year, which is 94 per cent. We intend to maintain a strong regional presence in north, mid and south-west Wales to bring the figure for filming up, because this may be a one-off effect; it might be *Doctor Who*. I just do not know why 94 per cent of the film drop was in south-east Wales. We need to market the other regions of Wales so that they catch up, but we must also recognise that if the industry wants to develop mainly in south-east Wales, as did 94 per cent, we must service its needs.

**Owen John Thomas:** When you launched the £7 million creative industries intellectual property fund in April 2005, you said that it would be self-funding, with returns on early investments funding future investments. Unfortunately, there have been failed investments at the LG Phillips factory and the Defence Aviation Repair Agency, and despite the prediction that 1,700 jobs would be created at the Valleywood project, it did not yield anything other than four jobs—from a £2.4 million investment. That leaves me somewhat sceptical of the Government's projections. What are the returns to date on the self-funding IP fund?

Cymru, ynghylch y ffaith—yn ôl eich Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ac nid y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon—y bydd pob swyddfa, heblaw'r rhai yn Llandeilo a Chaerdydd, yn cael ei hisraddio a'i lleihau fel mai un unigolyn fydd ynddynt. Dywedodd eich Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau mai dim ond £16,000 oedd yr incwm a grëwyd yn y gogledd. Yr wyf yn deall bod y ffigur hwnnw'n bell ohoni, a'i fod yn £100,000 o leiaf. Oni chytunwch ei bod yn hollbwysig cael strategaeth glir a chadarnhaol i Gymru gyfan ar gyfer y diwydiant hollbwysig hwn, sydd yn dod â chymaint o fudd i'r sector twristiaeth ddiwylliannol heb sôn am ddim arall? Yr wyf yn meddwl am bethau fel llwybr a phlaciau ffilm gogledd Cymru, sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr, ond mae'r ffigurau sydd gennym yn dangos mai yn y de-ddwyrain y cafwyd mwy na £17 filiwn o'r cyfanswm o £18 miliwn o wariant gan y diwydiant ffilm yng Nghymru y llynedd, sef 94 y cant. Yr ydym yn bwriadu cadw presenoldeb rhanbarthol cadarn yn y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin er mwyn ennill mwy o ffilmio, oherwydd gallai hyn fod yn effaith untrio; efallai mai *Doctor Who* sydd yn gyfrifol. Nid wyf yn gwybod pam y bu 94 y cant o'r gwariant ar ffilm yn y de-ddwyrain. Rhaid inni farchnata rhanbarthau eraill Cymru fel y byddant yn ennill tir, ond rhaid inni hefyd gydnabod, os yw'r diwydiant yn dymuno datblygu yn y de-ddwyrain yn bennaf, fel yr oedd 94 y cant ohono, fod rhaid inni ddiwallu ei anghenion.

**Owen John Thomas:** Pan wnaethoch lansio'r gronfa eiddo deallusol o £7 miliwn i ddiwydiannau creadigol yn Ebrill 2005, dywedasoch y byddai'n ei hariannu ei hun, gan y byddai'r elw o fuddsoddiadau cynnar yn ariannu buddsoddiadau yn y dyfodol. Gwaetha'r modd, mae buddsoddiadau wedi methu yn ffatri LG Phillips ac yn yr Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn, ac er gwaethaf y proffwydo y byddai 1,700 o swyddi'n cael eu creu ym mhrosiect Valleywood, ni chreodd fwy na phedair swydd—o fuddsoddiad o £2.4 miliwn. Mae hynny'n peri imi fod braidd yn amheus ynghylch amcanestyniadau'r

Llywodraeth. Pa elw a gafwyd hyd yma o'r gronfa eiddo deallusol sydd yn ei hariannu ei hun?

**The First Minister:** I am not sure which Government you are talking about as producing wrong estimates. We never made any estimates about the LG project—that was the Conservatives; that was William Hague. I think that that was how he became leader of the Conservative Party: the Conservatives all believed him; the people of Wales did not—they threw him out. On the points that you made about projections with regard to jobs, again, as far as I am aware, we never made any projections about the Valleywood complex. It is not our project, but if it is entitled to regional selective assistance it will get it. Those were not our projections. You like to point the finger of blame. It has to be the Government, has it not, Owen John? You must try to get away from that and ask who made the projections, because they are the people who should stand by them. However, for you, for some reason, it has to be the Government. I do not know what is the matter with you, Owen John. You are always going on along those lines. There is no need for it at all. Try to be a bit more accurate in your next question.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn sicr pa Lywodraeth yr ydych yn sôn amdani fel un a gynhyrchodd amcangyfrifon anghywir. Ni wnaethom ddim amcangyfrifon erioed ar brosiect LG—y Ceidwadwyr a wnaeth hynny; William Hague a wnaeth hynny. Yr wyf yn meddwl mai felly y daeth yn arweinydd y Blaid Geidwadol: yr oedd y Ceidwadwyr i gyd yn ei gredu; nid oedd pobl Cymru—fe'i taflasant allan. Ynghylch y pwyntiau a wnaethoch am amcanestyniadau mewn cysylltiad â swyddi, unwaith eto, hyd y gwn, ni wnaethom erioed ddim amcanestyniadau ynghylch canolfan Valleywood. Nid ein prosiect ni ydyw, ond os oes ganddo hawl i gael cymorth rhanbarthol dewisol, fe'i caiff. Nid ein hamcanestyniadau ni oedd y rheini. Yr ydych yn hoffi bwrw bai. Mae'r Llywodraeth yn sicr o fod ar fai, onid ydyw, Owen John? Rhaid ichi geisio rhoi'r gorau i hynny a gofyn pwy a wnaeth yr amcanestyniadau, oherwydd hwy a ddylai eu hamddiffyn. Fodd bynnag, yn eich golwg chi, am ryw reswm, y Llywodraeth sydd ar fai. Ni wn beth sydd yn bod arnoch, Owen John. Yr ydych bob amser yn rhgynu ar hynny. Nid oes galw am hynny o gwbl. Ceisiwch fod ychydig yn sicrach o'ch ffeithiau yn eich cwestiwn nesaf.

### Milltiroedd Bwyd Food Miles

**Q10 Mick Bates:** What is the Welsh Assembly Government doing to reduce food miles? OAQ2091(FM)

**The First Minister:** That is one of our key policy objectives, because local sourcing is a key element in the public procurement initiative and our food sector business support programmes are designed to develop new channels to market local produce.

**Mick Bates:** I am sure that you agree that local food is miles better. Will you support the campaign to have supermarkets show on their receipts how much local food has been purchased? This will encourage supermarkets to compete with one another to see who is selling the most local food, thus selling more

**C10 Mick Bates:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau milltiroedd bwyd? OAQ2091(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n un o'n prif amcanion polisi, gan fod prynu o ffynonellau lleol yn elfen allweddol yn y cynllun caffael cyhoeddus ac amcan ein rhaglenni cymorth busnes i'r sector bwyd yw datblygu sianelau newydd i farchnata cynyrrch lleol.

**Mick Bates:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod bwyd lleol yn well o lawer. A wnewch gefnogi'r ymgyrch i fynnu bod uwchfarchnadoedd yn dangos ar eu derbynebau faint o fwyd lleol a brynwyd? Bydd hynny'n cymhell uwchfarchnadoedd i gystadlu â'i gilydd i weld pwy sydd yn

local food and reducing food miles.

gwerthu mwyaf o fwyd lleol, fel y gwerthir mwy o fwyd lleol ac y ceir llai o filltiroedd bwyd.

**The First Minister:** I am sure that you will be pleased to know that the newest, and nearest supermarket to this building—Morrisons in Cardiff bay—is stocking 168 different Welsh food and drink products. Officials are also meeting Tesco shortly—should anyone think that I am biased—to explore further opportunities for local sourcing in Wales. There is also the importance of public sector purchasing. We understand that the overall value of Welsh food and drink products purchased by the public sector in Wales has increased by 46 per cent since 2003.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch o gael gwybod bod yr uwchfarchnad ddiweddaraf, a'r un agosaf at yr adeilad hwn—Morrisons ym mae Caerdydd—yn cadw 168 o wahanol gynhyrchion bwyd a diod o Gymru. Bydd swyddogion yn cwrdd â Tesco hefyd cyn bo hir—rhag ofn i rywun dybio fy mod yn unllyeidiog—i ymchwilio i ragor o gyfleoedd i brynu o ffynonellau lleol yng Nghymru. Mae'r prynu gan y sector cyhoeddus yn bwysig hefyd. Yr ydym yn deall bod cyfanswm gwerth y cynhyrchion bwyd a diod o Gymru a brynwyd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi codi 46 y cant ers 2003.

2.50 p.m.

**Elin Jones:** A gredwch y gallai Cymru dorri tir newydd drwy fynnu y nodir ar labeli'r bwyd sy'n cael ei werthu yma y milltiroedd y mae'r bwyd hwnnw wedi ei deithio cyn cyrraedd silff unrhyw archfarchnad?

**Elin Jones:** Do you believe that Wales could break new ground by insisting that the labels of food sold here should note the miles travelled by that food before it reached the shelves of any supermarket?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr y gallai hynny fod yn amod cyfreithlon wrth roi caniatâd cynllunio i unrhyw gorff, siop, archfarchnad neu adeilad newydd. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw symud ymlaen yn ymarferol i godi'r lefel o ddiddordeb ymhlið archfarchnadoedd—gan eu bod hwy yn allweddol mewn sawl ffordd—yn ogystal â'r sector cyhoeddus, i geisio denu mwy o ddiddordeb mewn prynu cig, llaeth, a chynnrych arall o Gymru, ac mae'n gweithio.

**The First Minister:** I am not sure that that could be a legal condition in granting planning permission for any new organisation, shop, supermarket or building. What we are trying to do is take practical action to increase the level of interest among supermarkets—because they are the key players in many ways—and the public sector, to try to generate more interest in promoting meat, milk, and other produce from Wales, and that is working.

**Bryngle Williams:** WWF's 'Living Planet Report' shows that the environmental impact of food imports is only second to that of home energy, and is more than personal transport. Is the Welsh Assembly Government prepared to take action to increase local procurement, and end the importing of food from South America, where, once again, there is indentured labour? We are cutting down the lungs of the world. If we are serious about our carbon footprint, we should stop bringing food half way around the world simply to feed a market that wants cheap food and not to be responsible for what is happening to the

**Bryngle Williams:** Mae 'Living Planet Report' y WWF yn dangos mai dim ond ynni cartref sy'n cael mwy o effaith amgylcheddol na mewnsforion bwyd, a bod mewnsforion bwyd yn cael mwy o effaith na chludiant personol. A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i gymryd camau i gaffael mwy'n lleol, ac i roi terfyn ar fewnforio bwyd o Dde America, lle y ceir llafur ymrwymedig hefyd? Yr ydym yn torri ysgyfaint y byd. Os ydym o ddifrif ynghylch ein hôl troed carbon, dylem roi'r gorau i ddod â bwyd hanner y ffordd o gwmpas y byd dim ond i ddiwallu marchnad sydd am gael bwyd rhad ac nad yw am fod yn gyfrifol am yr hyn

world.

**The First Minister:** I am not familiar with the figures on indentured labour in food production in Latin America—no doubt you will let us have more details on that. We need to be positive about this. The main reason for buying Welsh food, with its low food miles, is because it tastes nicer, because it has not had to travel so far, so it has been less bruised during the journey. It can also be bred so that it remains tender and fresh, rather than having to be bred so that it travels well, which means a hard outside and a boring inside for most fruit and vegetables. It is because it tastes nicer and the positive reasons, rather than the negative reasons, that we should support low food miles and more local purchase.

sy'n digwydd i'r byd.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn gyfarwydd â'r ffigurau ynghylch llafur ymrwymedig ym maes cynhyrchu bwyd yn America Ladin—mae'n sicr y rhwch ragor o fanylion i ni am hynny. Rhaid inni fod yn gadarnhaol ynghylch y mater hwn. Y prif reswm dros brynu bwyd o Gymru, sydd â llai o filltiroedd bwyd, yw ei fod yn blasu'n well, am nad yw wedi gorfol teithio mor bell, fel nad yw wedi'i gleisio gymaint yn ystod y daith. Gellir ei fridio hefyd fel ei fod yn aros yn dyner ac yn ffres, yn hytrach na gorfod ei fridio fel ei fod yn dda am deithio, sydd yn golygu bod y tu allan yn galed a'r tu mewn yn ddiflas yn achos y rhan fwyaf o ffrwythau a llysiau. Am fod gwell blas arno ac oherwydd y rhesymau cadarnhaol, yn hytrach na'r rhai negyddol, y dylem fod o blaidd milltiroedd bwyd isel a mwy o brynu lleol.

## Datganiad Busnes Business Statement

*The Deputy Presiding Officer has determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration:*

*the Local Government Act 2003 (Commencement No. 1 and Savings) (Wales) Order 2006;*

*the Non-Domestic Rating (Demand Notices and Discretionary Relief) (Wales) (Amendment) Regulations 2006;*

*the Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2006;*

*the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006;*

*the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Amendment) (Wales) Regulations 2006;*

*the Town and Country Planning (General Development Procedure) (Amendment) (Wales) Order 2006; and*

*the National Health Service (Dental Charges) (Wales) (Amendment) Regulations*

*Mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-deddfwriaeth i bwyllgor pwnc am ystyriaeth estynedig:*

*Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006;*

*Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad Dewisol) (Cymru) (Diwygio) 2006;*

*Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006;*

*Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006;*

*Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006;*

*Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006; a*

*Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio)*

2006.

**The Business Minister (Jane Hutt):** I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as set out on the draft statement, which should be available to Members on the agenda.

**Y Llywydd:** A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes? Gwelaf fod o leiaf 10 gwrthwynebiad, felly gofynnaf i'r Gweinidog gynnig y datganiad busnes yn ffurfiol.

**The Business Minister (Jane Hutt):** I propose that

*the National Assembly for Wales adopts the business statement.*

**Lisa Francis:** Diolch am yr holl eitemau yr ydych wedi eu cytuno yn eich datganiad heddiw, Drefnydd. Fodd bynnag, yn anffodus, ni allwn ei gefnogi. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, yr ydym yn falch y bydd datganiad llafar ar y rhaglen cydgyfeirio ymhen pythefnos. Dylai rhannau tlataf Cymru gael tua £1.3 biliwn o arian cydgyfeirio rhwng 2007 a 2013, ac mae'n ddigon teg bod y Cynulliad yn cael cyfle i graffu ar hyn.

Ailbwysleisiaf yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf. Os ydych yn awyddus i gael cyfraniad gan y Cynulliad cyfan ar y rhaglen hon, dylech ystyried cynnal dadl yn y dyfodol agos. Unwaith eto, yr ydym ni fel plaid yn gofyn i chi ystyried hynny.

**Kirsty Williams:** I will also raise the issue of the convergence funding document. As I stated last week, one would have thought that it would be in the Assembly's interests to be able to present a united front to the European Union when submitting this convergence document. Following the meeting of the Enterprise, Innovation and Networks Committee last week, the Minister's own paper pointed to the fact that the consultation response to the document had not received universal support. There were still questions outstanding, primarily with regard to how the direction of this fund will be led. There are concerns that local authorities, the voluntary

2006.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Nid oes gennyd ddim newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad drafat, a ddylai fod ar gael i'r Aelodau ar yr agenda.

**The Presiding Officer:** Are there any objections to the business statement? I see that there at least 10 objections, therefore I ask that the Minister formally propose the business statement.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y datganiad busnes.*

**Lisa Francis:** Thank you for all the items to which you have agreed today, Minister. However, unfortunately, we cannot support this. As I said last week, we are pleased that there will be an oral statement on the convergence programme in a fortnight's time. The poorest parts of Wales should get around £1.3 billion in convergence funds between 2007 and 2013, and it is fair that the Assembly is given the opportunity to scrutinise that.

I re-emphasise what I said last week. If you are anxious for Assembly-wide participation in this programme, you should consider holding a debate in the near future. Once again we, as a party, are asking you to consider that.

**Kirsty Williams:** Codaf finnau fater y ddogfen ar arian cydgyfeirio. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, byddai rhywun wedi tybio y byddai er budd i'r Cynulliad allu bod yn unedig wrth gyflwyno'r ddogfen hon ar gydgyfeirio i'r Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yr wythnos diwethaf, yr oedd papur y Gweinidog ei hun yn nodi na chafwyd chefnogaeth unfrydol i'r ymgynghori ar y ddogfen. Yr oedd cwestiynau a oedd heb eu hateb o hyd, gyda golwg yn bennaf ar y dull o bennu cyfeiriad y gronfa. Mae pryderon y bydd awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a rhai ar lawr gwlaid

sector and the grass roots will lose out to a system that will, fundamentally, be directed by the Minister. I believe that we should have the opportunity of having an amendable motion placed before this Chamber, so that we can discuss this document. Should it receive the universal agreement of the Chamber, that would surely strengthen the Minister's hand when presenting the case for Wales to the European Union.

**Alun Ffred Jones:** We will not object to this statement, as the Minister has allowed a statement on the cryptosporidiosis report that was released today. I congratulate the authors on putting together a comprehensive report, which is important not only to the hundreds of people who were affected by the outbreak in Gwynedd and Anglesey, but to the thousands who were inconvenienced and, indeed, alarmed for many months. There is one frightening conclusion, namely that the 'safe' levels of parasites in drinking water are not safe. That and other matters will need to be addressed by the Minister and I look forward to his statement in response to the report.

**Leighton Andrews:** Defnyddiaf y cyfle hwn i ddweud, 'Diolch o galon', i Ioan Gruffudd, sy'n cefnogi gweithwyr Burberry yn Nhreorci. Credaf fod ei ddatganiad yn dangos mai ef yw gwir lais y Cymoedd.

Ioan Gruffudd's intervention has been very significant for the workers at Burberry in Treorchy, because it has raised the issue of that closure to the level of the plc board. We have always taken the view that the manufacturing division of Burberry was trying to take this decision simply on the basis of costs. We have said that if Burberry wants to be seen as a British brand, it must keep manufacturing jobs in Britain. If it does not do so, it will be seen to be damaging that brand. Ioan Gruffudd's intervention has made it absolutely clear that the plc board cannot ignore the potential damage that is being done to Burberry as a British brand.

**Jane Hutt:** It is interesting that matters are dividing nicely along political lines today. I

ar eu colled oherwydd system a gaiff ei chyfarwyddo gan y Gweinidog, yn y bôn. Yr wyf yn credu y dylem gael cyfle i osod cynnig y gellir cyflwyno gwelliannau iddo gerbron y Siambra hon, fel y gallwn drafod y ddogfen hon. Pe bai pawb yn y Siambra yn ei derbyn, byddai hynny'n sier o gynnal breichiau'r Gweinidog pan fydd yn cyflwyno achos Cymru i'r Undeb Ewropeaidd.

**Alun Ffred Jones:** Ni fyddwn yn gwrthwynebu'r datganiad hwn, gan fod y Trefnydd wedi caniatáu datganiad am yr adroddiad ar cryptosporidiosis a gyhoeddwyd heddiw. Llongyfarchaf yr awduron ar lunio adroddiad cynhwysfawr, sydd yn bwysig nid yn unig i'r cannoedd yr effeithiwyd arnynt gan yr achosion yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ond i'r miloedd yr achoswyd anhwylustod iddynt ac a gafodd eu brawychu, yn wir, am fisoeedd lawer. Mae un casgliad sydd yn codi ofn arnom, sef nad yw'r lefelau 'diogel' o barasitiaid mewn dŵr yfed yn ddiogel. Bydd angen i'r Gweinidog ymdrin â'r mater hwnnw ac eraill ac edrychaf ymlaen at glywed ei ddatganiad mewn ymateb i'r adroddiad.

**Leighton Andrews:** I take this opportunity to extend a heartfelt thank you to Ioan Gruffudd, who is supporting the Burberry workers at Treorchy. I think that his statement shows that he is the true voice of the Valleys.

Bu myriad Ioan Gruffudd yn bwysig iawn i'r gweithwyr yn ffatri Burberry yn Nhreorci, gan ei fod wedi codi mater cau'r gwaith hwnnw i lefel bwrdd y cwmni. Yr ydym wedi bod o'r farn drwy'r amser fod adran weithgynhyrchu Burberry yn ceisio gwneud y penderfyniad hwn ar sail costau'n unig. Yr ydym wedi dweud, os yw Burberry yn dymuno cael ei ystyried yn frand Prydeinig, fod rhaid iddo gadw swyddi gweithgynhyrchu ym Mhrydain. Os na wnaiff hynny, bernir fod hynny'n niweidiol i'r brand hwnnw. Mae myriad Ioan Gruffudd wedi dangos yn gwbl glir na all bwrdd y cwmni ddiystyru'r niwed posibl i Burberry fel brand Prydeinig.

**Jane Hutt:** Mae'n ddiddorol bod materion yn ymrannu'n rhwydd ar sail wleidyddol

am very pleased to see this. Lisa, as your party's business manager, you obviously regret the fact that your party will not support the business statement today. Last week, when I returned with a revised business statement, I was pleased that the leader of the opposition, Ieuan Wyn Jones, said that it was responsible and thanked me for promising to schedule time for a statement, and all the opposition parties backed that. That was what happened with the revised business statement last week. The leader of the opposition said that he would retain the right to request a further debate based on what was said as a result of that statement. I am grateful that that side of the Chamber has been consistent with regard to what happened with the business statement last week.

Kirsty, there was extensive consultation, not only with our partners, but in the Enterprise, Innovation and Networks Committee and in the European and External Affairs Committee and amendments were made as a result of that consultation. It is important that we get these proposals to Brussels at the earliest opportunity. We must act quickly, because we do not want to have delays that would jeopardise the timetable and, more importantly, delay the use of these funds for projects all over west Wales and the Valleys. You do not want delays, do you, Kirsty? We do not want them and obviously the rest of the opposition agrees, in recognising that an oral statement from the First Minister will do the job, and then we can move forward with this.

You made an important point about the oral statement next week from the Minister for Health and Social Services on cryptosporidiosis, Alun Ffred, because the situation has been difficult for your constituents. An oral statement is necessary for lessons to be learned and for us to take that forward and to recognise those issues.

Finally, Leighton, I am delighted that Hornblower has joined the campaign, in terms of Ioan Gruffudd's support for the Burberry workers. Obviously, celebrity status

heddiw. Yr wyf yn falch iawn o weld hynny. Lisa, a chithau'n drefnydd busnes eich plaid, mae'n amlwg ei fod yn ofid i chi na wnaiff eich plaid gefnogi'r datganiad busnes heddiw. Yr wythnos diwethaf, pan ddychwelais â datganiad busnes diwygiedig, yr oeddwn yn falch bod arweinydd yr wrthblaid, Ieuan Wyn Jones, wedi dweud ei fod yn un cyfrifol a diolchodd i mi am addo trefnu amser ar gyfer datganiad, ac yr oedd yr holl wrthbleiau o blaid hynny. Dyna a ddigwyddodd o ran y datganiad busnes diwygiedig yr wythnos diwethaf. Dywedodd arweinydd yr wrthblaid y byddai'n cadw'r hawl i ofyn am ddadl arall ar sail yr hyn a ddywedwyd o ganlyniad i'r datganiad hwnnw. Yr wyf yn ddiolchgar bod y rhai ar yr ochr honno i'r Siambwr wedi bod yn gyson gyda golwg ar yr hyn a ddigwyddodd o ran y datganiad busnes yr wythnos diwethaf.

Kirsty, cafwyd ymgynghori helaeth, nid yn unig â'n partneriaid, ond hefyd yn y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ac yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a gwnaed newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghori hwnnw. Mae'n bwysig inni fynd â'r cynigion hyn i Frwsel cyn gynted ag y bo modd. Rhaid inni weithredu'n gyflym, gan nad ydym am weld oedi a fyddai'n peryglur amserlen ac, yn bwysicach, yn gohirio defnyddio'r cronfeydd hyn ar gyfer prosiectau ledled gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Nid ydych am weld oedi, nac ydych, Kirsty? Nid ydym ni am ei weld ac mae'n amlwg bod gweddi y gwrthbleidiau'n cytuno, gan eu bod yn derbyn y bydd datganiad llafar gan y Prif Weinidog yn gwneud y tro, ac wedyn gallwn symud ymlaen o ran hyn.

Gwnaethoch bwynt pwysig am y datganiad llafar a geir yr wythnos nesaf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am cryptosporidiosis, Alun Ffred, gan fod y sefyllfa wedi bod yn anodd i'ch etholwyr. Mae angen datganiad llafar er mwyn dysgu gwensi ac fel y gallwn drafod hynny ymhellach a chyd nabod y materion sydd yn codi.

Yn olaf, Leighton, yr wyf yn falch bod Hornblower wedi ymuno â'r ymgrych, yng nghyd-destun y gefnogaeth gan Ioan Gruffudd i weithwyr Burberry. Wrth gwrs,

is important. I believe that royalty is also on board. The dramatic impact that the closure of the Burberry factory would have concerns us. We know that the important support from Ioan Gruffudd gives a big boost to the morale of the workforce, but it is what you say here, Leighton, in leading that campaign effectively in the Assembly and in Westminster, of course, that will win the case for those workers in the Rhondda valleys.

mae ei statws fel gŵr enwog yn bwysig. Yr wyf yn credu bod rhai o'r teulu brenhinol yn gefnogol hefyd. Yr ydym yn pryderu ynghylch yr effaith sylweddol a gedi o gau ffatri Burberry. Gwyddom fod y gefnogaeth bwysig gan Ioan Gruffudd yn rhoi hwb mawr i ysbryd y gweithwyr, ond yr hyn a ddywedwch yma, Leighton, wrth arwain yr ymgyrch honno'n effeithiol yn y Cynulliad ac yn San Steffan, wrth gwrs, a fydd yn ennill yr achos dros y gweithwyr hynny yng nghymoedd Rhondda.

3.00 p.m.

*Cynnig: O blaid 28, Ymatal 9, Yn erbyn 17.  
Motion: For 28, Abstain 9, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Jones, Laura Anne  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Cymeradwyo Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006  
Approval of the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2006**

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*considers the principle of the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2006, a copy of which was laid in the Table Office on 7 November 2006. (NDM3340)*

I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on 21 November 2006 in relation to the draft the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2006; and*

*2. approves that the draft the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2006 is made in accordance with:*

*a) the draft laid in the Table Office on 7 November 2006; and*

*b) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 8 November 2006. (NDM3341)*

This legislation simply updates last year's legislation and revises the list of approved disinfectants that can be used to deal with outbreaks of specific animal diseases.

**Bryngle Williams:** Briefly, Minister, we welcome the Order. It is of paramount importance as an effective tool to control infectious influenza—a disease that we hope

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn ystyried egwyddor Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006. (NDM3340)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Tachwedd 2006 ynghylch y Gorchymyn draft, Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006; a*

*2. yn cymeradwyo bod y gorchymyn draft, Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:*

*a) y draft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006; a*

*b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2006. (NDM3341)*

Y cyfan a wna'r ddeddfwriaeth hon yw diweddu deddfwriaeth y llynedd ac adolygu'r rhestr o ddiheintyddion a gymeradwywyd i'w defnyddio i ddelio ag achosion o glefydau penodol ar anifeiliaid.

**Bryngle Williams:** Yn fyr, Weinidog, croesawn y Gorchymyn. Mae'n hollbwysig fel arf effeithiol i reoli ffliw heintus—clefyd y gobeithiwn na ddaw. Dywed y Gweinidog

will not come. The Minister states that work has been done to ensure that there are enough supplies of disinfectant, so that an outbreak can be contained as quickly as possible after detection, with minimum risk to the public.

**Mick Bates:** The Welsh Liberal Democrats will support this Order. I draw attention to the previous speaker's comment about ensuring that there are sufficient stocks to make sure that, in the awful event of the outbreak of a major disease, biosecurity measures can be introduced, using disinfectant. However, Minister, there is one issue that concerns many people about the increasing use of disinfectants to maintain biosecurity, and that is their disposal. Could you tell us what work you have undertaken to ensure that the use of these disinfectants does not adversely impact on the local environment where they are used?

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** There are controls in place to ensure that disinfectants are not used inappropriately and guidance is issued from time to time to farmers. Disinfectants have, of course, been used for a number of years and it is important that, when used, they are used in such a way so as not to be detrimental to the environment. Nevertheless, it is essential that there is an approved list, to ensure that we are in a position to deal with animal diseases, as and when they arrive.

fod gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod digon o gyflenwadau o ddiheintydd, fel y gellir rheoli achos cyn gynted ag y bo modd wedi iddo gael ei ganfod, a bod cyn lleied o berygl ag sy'n bosibl i'r cyhoedd drwy hynny.

**Mick Bates:** Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r Gorchymyn hwn. Tynnaf sylw at sylw'r siaradwr blaenorol ynglych sicrhau bod digon o stoc i wneud yn siŵr, pe digwyddai'r sefyllfa enbyd bod achos o glefyd mawr, y gellir cyflwyno mesurau bioddiogelwch, gan ddefnyddio diheintydd. Fodd bynnag, Weinidog, mae un mater sy'n peri pryer i lawer o bobl ynglŷn â'r defnydd cynyddol o ddiheintyddion i gynnal bioddiogelwch, sef sut y'u gwaredir. A allech ddweud wrthym pa waith yr ydych wedi'i wneud i sicrhau na fydd defnyddio'r diheintyddion hyn yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol lle y'u defnyddir?

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau na ddefnyddir diheintyddion mewn modd amhriodol a chyhoeddir canllawiau o bryd i'w gilydd i ffermwyr. Wrth gwrs, mae diheintyddion wedi cael eu defnyddio ers nifer o flynyddoedd ac mae'n bwysig, pan fyddant yn cael eu defnyddio, iddynt gael eu defnyddio mewn modd na fydd yn niweidiol i'r amgylchedd. Serch hynny, mae'n hanfodol cael rhestr gymeradwy, i sicrhau ein bod yn gallu delio â chlefydau anifeiliaid, os cyrhaeddant a phan gyrhaeddant.

*Cynnig (NDM3340): O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3340): For 55, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Cairns, Alun  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, David  
 Davies, Glyn  
 Davies, Jocelyn

Dunwoody, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwin  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Marek, John  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM3341): O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM3341): For 55, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiaidd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody, Tamsin

Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Marek, John  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Datganiad ar Araith y Frenhines Statement on the Queen's Speech**

**Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Peter Hain):** Diolch, Lywydd, a diolch i chi i gyd. Mae'n bleser mawr i mi fod yma unwaith eto.

This is the first time that I have addressed you in this superb new Chamber, and it is an honour to do so. I, too, am proud of our iconic, new Assembly building. It has rightly received international acclaim for its design and green credentials. It symbolises what we seek to achieve through devolution; it is a modern building, complementing a confident and modern country that is facing up to the challenges of the modern world.

**The Secretary of State for Wales (Peter Hain):** Thank you, Presiding Officer, and thank you all. It gives me great pleasure to be with you once again.

Dyma'r tro cyntaf imi eich annerch yn y Siambr newydd wych hon, ac mae'n faint gwneud hynny. Yr wyf finnau hefyd yn falch o adeilad eiconaidd newydd ein Cynulliad. Yn haeddiannol cafodd glod rhyngwladol am ei ddyluniad a'i wyrddni. Mae'n symbol o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni drwy ddatganoli; mae'n adeilad modern, yn addas i wlad fodern, hyderus sydd yn wynebu her y byd modern.

The Queen's Speech heralds a new chapter for devolution in Wales. Over 20 Bills will directly affect Wales, ranging from pensions' reform to combating serious and organised crime. The last session was unprecedented in terms of the sheer quantity of Welsh business that Parliament considered—no less than three Wales-only Bills and a further 13 England and Wales Bills, with specific Welsh provisions. Parliament devoted a huge 37 days to the Wales-only Bills alone, plus the time spent on the Welsh provisions in the England and Wales Bills.

As a direct result, the Assembly will now have the power to make its own legislation. I am proud to have achieved this, along with my hard-working deputy, Nick Ainger, the Member of Parliament for Carmarthen West and South Pembrokeshire. The constitutional argument has been settled and attention can now turn to the delivery of policies that will make a real difference to the people of Wales.

Today, we are beginning a new chapter for devolution. Instead of having to have Wales-only Bills, as in the past, the Government of Wales Act 2006 has, crucially, established a mechanism to grant law-making powers direct to the Assembly, subject to parliamentary approval. Therefore, instead of Wales-only Bills, we will now see Orders in Council and framework powers giving the Assembly much wider powers to meet your policy objectives and commitments without having to fight it out with Whitehall departments for a slot in the legislative programme.

In the last session, the Education and Inspections Act 2006 and the NHS Redress Act 2006 granted framework powers to the Assembly. In this session, two further Bills contain framework powers: a Bill to empower and reform local government, and a Bill to boost skills in further education and training. From next May, the new Order in Council process will come on stream to speed up fresh powers for the Assembly.

Mae Araith y Frenhines yn cyhoeddi pennod newydd i ddatganoli yng Nghymru. Bydd dros 20 o Fesurau'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru, yn amrywio o ddiwygio pensiynau i frwydro yn erbyn troseddu cyfundrefnol a difrifol. Yr oedd y sesiwn ddiwethaf yn un na welwyd ei bath o ran faint o fusnes Cymreig a ystyriwyd gan y Senedd—dim llai na thri Mesur i Gymru'n unig ac, ar ben hynny, 13 Mesur i Gymru a Lloegr, gyda darpariaethau penodol i Gymru. Neilltuodd y Senedd gymaint â 37 diwrnod dim ond ar gyfer y Mesurau i Gymru'n unig, ar ben yr amser a dreuliwyd ar y darpariaethau i Gymru yn y Mesurau i Gymru a Lloegr.

O ganlyniad uniongyrchol, bydd gan y Cynulliad bellach y grym i lunio'i ddeddfwriaeth ei hun. Yr wyf yn falch o fod wedi cyflawni hyn, ynghyd â'm dirprwy dyfal, Nick Ainger, yr Aelod Seneddol dros Orllewin Caerfyrddin a De Penfro. Mae'r ddadl gyfansoddiadol wedi'i setlo ac yn awr gellir troi'r sylw at gyflwyno polisiau a wnaiff wahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru.

Heddiw, yr ydym yn dechrau pennod newydd i ddatganoli. Yn lle gorfol cael Mesurau i Gymru'n unig, fel yn y gorffennol, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn allweddol, wedi sefydlu mecanwaith i ganiatáu pwerau deddfu'n uniongyrchol i'r Cynulliad, yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol. Felly, yn lle Mesurau i Gymru'n unig, bellach cawn weld Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a phwerau fframwaith a fydd yn rhoi pwerau llawer ehangach i'r Cynulliad i gyflawni eich amcanion polisi a'ch ymrwymiadau heb orfol ymladd ag adrannau Whitehall am le yn y rhaglen ddeddfu.

Yn y sesiwn ddiwethaf, rhoddodd Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Unioni Camweddau yn y GIG 2006 bwerau fframwaith i'r Cynulliad. Yn y sesiwn hon, mae dau Fesur arall yn cynnwys pwerau fframwaith: Mesur i rymuso a diwygio llywodraeth leol, a Mesur i hybu sgiliau mewn addysg bellach a hyfforddiant. O fis Mai nesaf, daw'r broses newydd ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i rym i gyflymu pwerau newydd i'r Cynulliad.

I have been working with Rhodri to agree the principles of an orderly process to ensure that the Assembly's needs can be smoothly progressed through Government and through Parliament. There has been much excitable speculation about this, but this is not, and cannot be, about Parliament rubber-stamping Welsh Assembly Government proposals. Parliament is, and remains, the sovereign body in the UK; it does not rubber-stamp anything. There will be full parliamentary scrutiny, with the Welsh Affairs Committee conducting pre-legislative scrutiny of proposed Orders in Council.

Having said that, however, I am a passionate devolutionist, and I want it made absolutely clear that my ambition is to see the Assembly's wishes for greater powers fulfilled—anything less would go against the grain of devolution and against the aims of the Government of Wales Act 2006. I therefore expect a new constitutional convention to be established, in which there is a clear presumption that Assembly requests for new powers will be agreed, so that Parliament only asks the Assembly to reconsider requests if there are clear reasons why the scope or principle of the request is wrong—for example, if it were to relate to a non-devolved matter. Furthermore, I do not believe that any Secretary of State would be so reckless as to stand gratuitously in the way of requests from the Assembly. I give this warning to anybody seeking to adopt a John-Redwood-style anti-Welsh stance: that would be a recipe for constitutional conflict and it would trigger a referendum for primary law-making powers. The last time a Government behaved like that, the Tories were run out of Wales altogether, and I have no doubt that the same would happen again.

As the Assembly acquires new powers, there will be some areas over which Parliament and the Assembly have the power to make laws, and I am working closely with Rhodri to ensure that the overlap is managed smoothly. The memorandum of understanding between our Government and all devolved administrations states that Parliament would not normally legislate on devolved matters, except with the agreement

Yr wyf wedi bod yn gweithio gyda Rhodri i gytuno ar egwyddorion proses drefnus er mwyn sierhau y gellir bwrw ymlaen ag anghenion y Cynulliad yn llyfn drwy'r Llywodraeth a thrwy'r Senedd. Bu llawer o ddyfalu llawn cynnwrf ynglŷn â hyn, ond nid yw'n golygu, ac ni all olygu, fod y Senedd yn rhoi sêl bendith ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y Senedd yw'r corff sofran yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n parhau felly; nid yw'n rhoi sêl bendith ar ddim. Bydd craffu seneddol llawn, a bydd y Pwyllgor Materion Cymreig yn craffu ar Orchmylion arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor cyn y broses ddeddfu.

Wedi dweud hynny, yr wyf yn ddatganolwr brwd, ac mae arnaf eisiau datgan yn holol glir mai fy uchelgais yw gweld cyflawni dymuniadau'r Cynulliad am fwy o bwerau—byddai unrhyw beth llai'n mynd yn groes i'r graen o ran datganoli ac yn groes i amcanion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly disgwyliaf y caiff confensiwn cyfansoddiadol ei sefydlu, lle y ceir rhagdybiaeth glir y cytunir â cheisiadau gan y Cynulliad am bwerau newydd, fel na fydd y Senedd ond yn gofyn i'r Cynulliad ailystyried ceisiadau os bydd rhesymau eglur pam y mae cwmpas neu egwyddor y cais yn anghywir—er enghraifft, pe bai'n ymwneud â mater a fyddai heb ei ddatganoli. At hynny, ni chredaf y byddai dim un Ysgrifennydd Gwladol mor rhyfygus â cheisio rhwystro ceisiadau gan y Cynulliad heb reswm. Rhoddaf y rhybudd hwn i unrhyw un a fynn wneud safiad gwirth-Gymreig yn null John Redwood: byddai hynny'n arwain at wrthdaro cyfansoddiadol a byddai'n sbarduno refferendwm ar gyfer pwerau deddfu sylfaenol. Y tro diwethaf i Lywodraeth ymddwyn felly, cafodd y Toriaid eu hel allan o Gymru'n gyfan gwbl, ac nid oes gennyf ddim amheuaeth na ddigwyddai'r un peth eto.

Wrth i'r Cynulliad ennill pwerau newydd, bydd rhai meysydd lle y bydd gan y Senedd a'r Cynulliad y pŵer i wneud deddfau, ac yr wyf yn cydweithio'n agos â Rhodri i sierhau yr ymdrinnir â'r gorgyffwrdd yn ddidrafferth. Dywed y memorandwm dealltwriaeth rhwng ein Llywodraeth a phob gweinyddiaeth ddatganoledig na fyddai'r Senedd fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig, ac eithrio gyda chytundeb y ddeddfwrfa ddatganoledig.

of the devolved legislature. That remains our shared policy and sets down the key principle that will govern the agreement and procedures to manage this overlap. Meanwhile, there is a huge amount of day-to-day work still to be done, with up to 12 parliamentary Orders that I will have to make to implement the provisions of the Government of Wales Act 2006. Of course, I will also have to put forward your new Standing Orders, without, I hope, the need for me to exercise any of my residual obligations over their content.

Llywydd, this Queen's Speech is about taking the long-term decisions necessary to give us security and opportunity in a rapidly changing world. These include tackling climate change, protecting the public against crime and the threat of terrorism, and providing security in old age. Following the Stern review of climate change, we are legislating to provide a clear and credible long-term framework to reduce carbon dioxide emissions and strengthen the renewable transport fuel obligation that is predicted to deliver carbon savings of 1 million tonnes per annum by 2010. Wales is already at the forefront of providing renewable energy through onshore and offshore wind power, and it has the potential to be at the cutting edge of research and development for green technologies and become a model, green nation. There are new powers in the draft Road Transport Bill to tackle road congestion and pollution, giving greater flexibility to the Assembly and local authorities to implement measures to meet Welsh needs.

3.10 p.m.

Reforms to the state pension system will benefit nearly 589,000 people in Wales, creating an affordable and sustainable pension system to meet the needs of generations to come. They will make pensions much more generous and widely available, and will tackle the scandalous inequalities faced by far too many women and carers. By 2010, 70 per cent of women reaching state pension age will have a full basic state pension, compared with only 30

Dyna yw'r polisi a rannwn o hyd ac mae'n amlinellu'r egwyddor allweddol a fydd yn llywodraethu'r cytundeb a'r gweithdrefnau i reoli'r gorgyffwrdd hwn. Yn y cyfamser, mae llawer iawn o waith o ddydd i ddydd i'w wneud o hyd, gyda hyd at 12 o Orchmyntion seneddol y bydd yn rhaid imi eu gwneud er mwyn gweithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Wrth gwrs, bydd yn rhaid imi gyflwyno eich Rheolau Sefydlog newydd hefyd, heb fod angen, gobeithio, imi arfer dim un o'm rhwymedigaethau gweddilliol ynglŷn â'u cynnwys.

Llywydd, amcan yr Araith hon gan y Frenhines yw gwneud y penderfyniadau hirdymor angenheidol i roi sicrwydd a chyfle inni mewn byd sydd yn newid yn gyflym. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwarchod y cyhoedd rhag troseddwyr a bygythiad terfysgaeth, a darparu diogelwch i'r henoed. Yn sgîl adolygiad Stern o newid yn yr hinsawdd, yr ydym yn deddfu i ddarparu fframwaith hirdymor clir a chredadwy i leihau gollyngiadau carbon deuocsid a chryfhau'r ddyletswydd tuag at danwydd trafnidiaeth adnewyddadwy y rhagwelir y bydd yn arbed 1 miliwn o dunelli o garbon y flwyddyn erbyn 2010. Mae Cymru eisoes yn flaenllaw o ran darparu ynni adnewyddadwy drwy ynni gwynt ar dir a môr, ac mae ganddi'r potensial i fod ar flaen y gad gydag ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau gwyrdd a bod yn genedl werdd sy'n esiampl i eraill. Mae pwerau newydd yn y Mesur Trafnidiaeth Ffyrrdd drafst i fynd i'r afael â llygredd a thagfeydd ar y ffyrrdd, gan roi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad ac awdurdodau lleol i weithredu mesurau i ateb anghenion Cymru.

imi ystyried a fydd hyn yn foddaol. Yr ydym yn sicr o gael gwrtihdaros na allwch ateb y cwestiynau hyn. Yn y bôn, yr hyn y dylem fod wedi'i gael, a'r hyn yr oeddym yn ei haeddu, oedd Mesur Llywodraeth Cymru a oedd yn debyg i Ddeddf yr Alban 1998. Yr hyn a welwn yn awr yw man hanner ffordd, a allai fynd â ni i'r fan honno yn y dyfodol, ond cyfaddawd ydyw i'ch helpu i gau'r rhaniad mewnol sydd gennych yn y Blaid Lafur. Yr wyf yn sylweddoli y gallai'r gwaith o roi trefn ar y carfanau croes yn y Blaid Lafur fod yn briodol o ran y swydd yr ydych yn ceisio'i chael y tu draw i'r môr, ond a allech esbonio felly pam na chafodd dim un o geisiadau Llywodraeth y Cynulliad dros y blynnyddoedd diwethaf ei gynnwys ar gyfer deddfu yn Araith y Frenhines eleni?

Y llynedd, pan ymatebais i'ch datganiad, sonais am y 'jig-so o bwerau' a oedd yn cael ei roi at ei gilydd gan y Cynulliad. Mae'n ymddangos yn awr fod gennym dri darn i'r jig-so: Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor; deddfwriaeth fframwaith; a'n pwerau is-ddeddfu presennol. Mae'n briodol inni ymdrin â'r Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor fel y pwysicaf o'r ffactorau hynny. Dywedasoch ar goedd heddiw mai'r cyntaf o ddim ond dau gwestiwn a ofynnech, fel Ysgrifennydd Gwladol neu, gellir cymryd, fel Llywodraeth yn Llundain, ynghylch a ddylai'r Cynulliad gael y pwerau hynny, yw a ydyw'n iawn mewn egwyddor. Nid wyf yn deall yn hollol beth yw'r gwahaniaeth rhwng penderfyniad o'r math hwnnw a phenderfyniad gwleidyddol. Nid esboniwyd y gair 'egwyddor'. Beth yw'r egwyddor sydd yn pennu a fyddai'r blaid lywodraethol yn cymeradwyo'r ceisiadau? Rhaid inni gael gwybod yr ateb i hynny. Fe'ch holwyd yn daer drwy gydol hynt Mesur Llywodraeth Cymru a fyddch yn cynnwys yn y Mesur rai o'r meinu prawf y gallai Ysgrifennydd Gwladol eu defnyddio fel sail i wrthod gosod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd. Ni wnaethoch hynny ac ni roesoch ddim esboniad. Byddwn yn falch iawn o gael esboniad o'r fath heddiw. Rhaid inni gael gwybod pa bwerau'n union sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, na chânt eu gwrthdroi, drwy amryfusedd o bosibl, gan benderfyniadau a wneir yn Llundain.

Yr ydym wedi sôn hefyd am y mandad.

quite clear from what you have said that you believe this mandate to be the one that is important in this matter—that is, the mandate that the National Assembly provides. In other words, a majority vote in the National Assembly asking for an Order in Council would have a lot of weight behind it. Therefore, we need to return to the issue of principle. What is the principle of whether it is right or not?

Your second test concerns the width of the Orders. You said that you would ask whether the scope of the power was too wide or too narrow. You could say that that was a technical test, but, in a sense, it is not, Secretary of State, because you have to understand what Measures might be put in place by a National Assembly with those powers before being able to say whether they are too wide or too narrow. What is the test? Given the fact that you can use the powers time and again, once you have them, you are therefore not looking at the narrowness or the width of the powers in terms of only the single set of Measures that might result from them, but also in terms of those that might result over many years to follow. Therefore, we are not clear as to whether that width and principle test of yours is satisfied.

3.40 p.m.

The full set of powers that we see is rather like parts of a jigsaw, and the most sectioned part of a jigsaw at that. We need to be able to complete that jigsaw, and we believe that we should be allowed to do so as rapidly as possible. Perhaps you could tell us how wide you think they should be.

Take for example an Order in Council relating to the suspension of the right to buy. If the Assembly framework now has designated areas in which the right to buy could be suspended, would that be broader than if it were framed simply in terms of an Order to have the right to buy council housing throughout Wales passed to us—in other words, a much broader power? Would the more wide-ranging proposal for an Order of Council be looked at more favourably than

Mae'n gwbl amlwg yn ôl yr hyn a ddywedasoch eich bod yn credu mai'r mandad hwn yw'r un pwysig yn hyn o beth—hynny yw, y mandad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi. Mewn geiriau eraill, byddai pleidlais drwy fwyafrif yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddylanwadol iawn. Felly, rhaid inni droi'n ôl at fater yr egwyddor. Beth yw'r egwyddor sydd yn pennu a yw'n iawn ai peidio?

Mae eich ail brawf yn ymwneud ag ehangder y Gorchmynion. Dywedasoch y byddech yn gofyn a oedd cwmpas y pŵer yn rhy eang neu'n rhy gyfyng. Gallech ddweud bod hynny'n brawf technegol, ond, ar ryw ystyr, nid ydyw, Ysgrifennydd Gwladol, gan fod rhaid ichi ddeall pa Fesurau y gallai Cynulliad Cenedlaethol eu creu gan ddefnyddio'r pwerau hynny cyn gallu dweud a ydynt yn rhy eang neu'n rhy gyfyng. Beth yw'r prawf? O gofio y gallwch ddefnyddio'r pwerau dro ar ôl tro, ar ôl eu cael, nid ydych felly'n ystyried natur gyfyng neu eang y pwerau yng nghyd-destun un set o Fesurau a allai ddeillio ohonynt, ond yng nghyd-destun y rhai a allai ddeillio ohonynt dros flynyddoedd lawer ar ôl hynny. Felly, nid ydym yn deall a yw'r prawf hwnnw sydd gennych ar yr ehangder a'r egwyddor yn cael ei fodloni.

Mae'r set lawn o bwerau a welwn yn debyg braidd i ddarnau jig-so, a'r rhan sydd â mwyaf o ddarnau at hynny. Rhaid inni allu cwblhau'r jig-so hwnnw, ac yr ydym yn credu y dylem gael gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Efallai y gallech ddweud wrthym pa mor eang y dylent fod, yn eich barn chi.

Cymerwch yn enghraifft Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ynghylch atal yr hawl i brynu. Os yw fframwaith y Cynulliad yn pennu ardaloedd lle y gellid atal yr hawl i brynu, a fyddai hynny'n ehangach na phe bai ond wedi'i eirio yng nghyd-destun Gorchymyn i drosglwyddo'r hawl i brynu tai cyngor ledled Cymru i ni—mewn geiriau eraill, pŵer ehangach o lawer? A fyddai cynnig mwy pellgyrhaeddol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ystyriaeth fwy ffafriol

the one that is narrower?

You have talked elsewhere about mandate and about conventions. There are three conventions by which a vote here, by a democratically elected body, could be overturned. The first is by Members of Parliament representing English constituencies, the second is by the unelected House of Lords, and the third is the Secretary of State—in this case, you. Not one of those is an appropriate way of overturning decisions without any rules. We need some form of convention. Is it not important that any convention—and the Salisbury convention is one—should have not only the support of the governing party or parties but also the widespread support of political parties throughout the National Assembly and Parliament? Do you agree that this is a matter for wider discussion than simply internally within the Labour Party?

On wider issues, we see in this Queen's Speech yet another raft of legislation proposed within the Home Office's area of responsibility. I know that that is more red meat for the *Daily Mail*, but it does little to aid crime and disorder. It may be what our colleague, Terry Grange, has dubbed the hairy-chest approach to Home Office matters. You have already passed four pieces of legislation on anti-social behaviour, and now you are proposing yet another. Do you think that this issue would be better served by having one comprehensive piece of legislation that has been fully thought out, rather than having to revise completely what you have done each time?

Finally, Secretary of State, I want to mention your Government's obsession with legislating more and more, trying to control people's lives. As a solution, we suggest a new piece of legislation, such as a freedom Act, which would repeal excessively draconian legislation as well as put in place a regular and effective system of repealing legislation that has served its purpose. I wonder, Secretary of State, whether you, as someone who at least in the past had a liberal instinct, would agree and support such a call.

nag un mwy cyfyng?

Yr ydych wedi sôn mewn man arall am y mandad ac am gonfensiynau. Mae tri chonfensiwn y gellid eu defnyddio i wrthdroi pleidlais a wnaed yma, gan gorff a etholwyd yn ddemocrataidd. Gan Aelodau Seneddol sydd yn cynrychioli etholaethau yn Lloegr yw'r cyntaf, yr ail yw gan Dŷ'r Arglwyddi, sydd heb ei ethol, a'r trydydd yw gan yr Ysgrifennydd Gwladol—sef chi, yn yr achos hwn. Nid oes yr un o'r rhain yn ddull priodol o wrthdroi penderfyniadau heb ddim rheolau. Rhaid inni gael rhyw fath o gonfensiwn. Onid yw'n bwysig bod pob confensiwn—ac mae confensiwn Salisbury yn un ohonynt—yn cael ei dderbyn gan y blaid neu'r pleidau llywodraethol a hefyd yn gyffredinol gan bleidiau gwleidyddol ym mhob rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd? A ydych yn cytuno y dylid cael trafodaeth ehangach ar y mater hwn yn hytrach na bod hynny'n digwydd o fewn y Blaid Lafur yn unig?

Ynghylch materion mwy cyffredinol, gwelwn gynnig llawer iawn o ddeddfwriaeth eto yn yr Araith hon gan y Frenhines ym maes cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref. Gwn fod hynny'n bodloni'r *Daily Mail*, ond ychydig a wnaiff i ddelio â throseddu ac anhreftn. Efallai mai hynny yw'r hyn a alwodd ein cyfaill, Terry Grange, yn ddull y frest flewog o drin materion y Swyddfa Gartref. Yr ydych eisoes wedi pasio pedair deddfwriaeth ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn awr yr ydych yn cynnig un arall eto. A ydych yn credu y gellid trafod y mater hwn yn well drwy gael un ddeddf gynhwysfawr sydd wedi'i hystyried yn drwyndl, yn hytrach na gorfol ailwampio'r hyn yr ydych wedi'i wneud bob tro?

Yn olaf, Ysgrifennydd Gwladol, dymunaf sôn am obsesiwn eich Llywodraeth ynglŷn â mwy o mwy o ddeddfu, gan geisio rheoli bywydau pobl. Fel ateb i hynny, yr ydym yn awgrymu cael deddf newydd, megis Deddf rhyddid, a fyddai'n diddymu deddfau rhy lym yn ogystal â sefydlu system reolaidd ac effeithiol o ddiddymu deddfwriaeth sydd wedi cyflawni ei diben. Tybed, Ysgrifennydd Gwladol, a fydddech chi, fel un a oedd â greddf ryddfrydol yn y gorffennol o leiaf, yn derbyn ac yn cefnogi galwad o'r fath?

I return to the issue of your facing in two directions. Today, before the National Assembly and the people of Wales, you could put behind you for one moment your partisan issue relating to the Labour Party, look to the future governance of Wales, and try to answer those questions, to see whether we can seek a proper and integrated solution to the problem of our powers without recourse to the internecine routes that we are threatened with, as well as give us clarity on the proposals before you regarding the principle and width of proposed Orders in Council.

**Peter Hain:** Presiding Officer, I also thank him for his remarks about Elizabeth. He tries to suggest that I am facing in a number of different ways; however, of all the Members of Welsh Labour, I have always faced exactly the same way, and have always been absolutely and uncompromisingly in support of devolution and of more powers for Wales. I hear a few sniggers from the nationalists—

**The Presiding Officer:** Order. This is a statement and is not to be interrupted; otherwise, you may not be called later.

**Peter Hain:** I hear some responses to my left, but the truth is that it was Labour that led the 1997 referendum, in which I played a leading role. It was Labour that introduced the Government of Wales Act 1998 and I helped to take that through Parliament, which set up the Assembly. It was Labour that introduced the Government of Wales Act 2006, and I negotiated the policy, took it through Parliament and delivered powers to the Assembly that many people—and many are the sceptics and the critics, including Mike and the Liberal Democrats—thought would never happen under Labour, namely primary powers on the statute book, waiting to be triggered in the event of popular support for a referendum, which I believe will happen at some point in future.

He asked about the three Bills that were put forward—the bids by the Welsh Assembly Government. I shall respond on each one. On the Tourism Accommodation (Wales) Bill, the Welsh Assembly Government, as I think

Dychwelaf at y cwestiwn sydd yn ymwneud â'r ffaith eich bod yn wynebu i ddau gyfeiriad. Heddiw, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru, gallech roi o'r neilltu am un eiliad y broblem bleidiol sydd gennych mewn cysylltiad â'r Blaid Lafur, ystyried y dull o lywodraethu Cymru yn y dyfodol, a cheisio ateb y cwestiynau hynny, i weld a allwn chwilio am ateb priodol ac integredig i broblem ein pwerau heb droi at y dulliau cyd-ddinistriol y mae bygythiad y byddwn yn eu cael, yn ogystal ag egluro i ni y cynigion sydd ger eich bron ynghylch egwyddor ac ehangder Gorchmynion a gynigir yn y Cyfrin Gyngor.

**Peter Hain:** Lywydd, yr wyf yn diolch iddo ef hefyd am ei sylwadau am Elizabeth. Mae'n ceisio awgrymu fy mod yn wynebu i sawl cyfeiriad; foddy bynnag, o blith holl Aelodau Llafur Cymru, yr wyf fi wedi wynebu'r un ffordd yn union erioed, ac wedi sefyll yn gadarn ac yn ddifyfaddawd erioed dros ddatganoli a rhagor o bwerau i Gymru. Clywaf ychydig o chwerthin dan eu dwylo gan y cenedlaetholwyr—

**Y Llywydd:** Trefn. Datganiad yw hwn ac ni cheir torri ar ei draws; fel arall, efallai na'ch gelwir yn ddiweddarach.

**Peter Hain:** Clywaf rai ymatebion o'r chwith i mi, ond y gwir yw mai Llafur a arweiniodd refferendwm 1997, y chwaraeais i ran arweiniol ynddo. Llafur a gyflwynodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a helpais i fynd â hi drwy'r Senedd, sef y Ddeddf a sefydlodd y Cynulliad. Llafur a gyflwynodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a negodais y polisi, mynd â hi drwy'r Senedd a sicrhau pwerau ar gyfer y Cynulliad y credai llawer o bobl—a'r amheuwyr a'r beirniaid yw llawer ohonynt, gan gynnwys Mike a'r Democratiaid Rhyddfrydol—na fyddai fyth yn digwydd dan Lafur, sef pwerau sylfaenol ar y llyfr statud, yn aros i gael eu sbarduno os ceir cefnogaeth y bobl i refferendwm; a chredaf y bydd hyn yn digwydd rywbryd i'r dyfodol.

Holodd am y tri Mesur a gyflwynwyd—y ceisiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ymatebaf ar bob un. O safbwyt y Mesur Llety Twristiaeth (Cymru), tynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y cais yn ôl,

he implied, to be fair, withdrew the bid, stating that a better route would be to take this forward through an Order in Council. On the Housing (Suspension of Right to Buy) (Wales) Bill, it was quite clear that there was no room in the Queen's Speech for that Bill. That compares with last year—an exceptional and unique situation—when there were three Wales-only Bills, including the Government of Wales Bill, which took a great deal of time on the floor of the House of Commons and the House of Lords, because it was a constitutional Bill.

We must be realistic about what is possible. It is precisely because Rhodri and I wanted a more streamlined process to break the Westminster log jam that the whole Order in Council procedure was introduced. It will give enormous new scope much more quickly, without the need to fight for space in the Queen's Speech in order to get the policies that the Welsh Assembly Government wants, and which the Assembly supports.

The Local Government (Town and Community Councils) (Wales) Bill was the third bid that the Welsh Assembly Government made to me. The framework powers in the Local Government Bill will cover this area, so it has been decided to take that route, rather than producing a Wales-only Bill. However, the end result will be exactly what was wanted.

You disputed whether this would be settled for a generation. In my view there will never be another Government of Wales Act, because this Act has provided an immediate streamlined process for providing extra powers to the Assembly, which can be used in the coming years, and it has provided for the prospect—when Wales is ready—of full primary law-making powers. Those are on the statute books, waiting to be picked up when there is a consensus to do so. I shall repeat a point that I have made before, including, I think, ahead of the Assembly. I remember with a great deal of personal anxiety the narrowness of the 'yes' vote in 1997. I would not want to see a narrow 'no' vote in future if a referendum were called.

fel y credaf iddo awgrymu, a bod yn deg, gan ddweud mai trywydd gwell fyddai bwrw ymlaen â hyn drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. O safbwyt y Mesur Tai (Atal yr Hawl i Brynu) (Cymru), yr oedd yn eithaf clir nad oedd dim lle yn Araith y Frenhines i'r Mesur hwnnw. Mae hynny'n cymharu â'r llynedd—sefyllfa eithriadol ac unigryw—pan gafwyd tri Mesur i Gymru yn unig, gan gynnwys Mesur Llywodraeth Cymru, mesur a gymerodd lawer iawn o amser ar lawr Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei fod yn Fesur cyfansoddiadol.

Rhaid inni fod yn realistig ynghylch yr hyn sy'n bosibl. Yr oedd ar Rhodri a minnau eisiau gweld proses symllach i chwalu'r rhwystr yn San Steffan a dyna'r union reswm dros gyflwyno holl weithdrefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Bydd yn rhoi posibiliadau newydd aruthrol yn llawer cyflymach, heb yr angen i frwydro am le yn Araith y Frenhines er mwyn cael y polisiau y mae ar Lywodraeth Cynulliad Cymru eu heisiau, a'r polisiau y mae'r Cynulliad yn eu cefnogi.

Y Mesur Llywodraeth Leol (Cyngorau Tref a Chymuned) (Cymru) oedd y trydydd cais a gyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru imi. Bydd y pwerau fframwaith ym Mesur Llywodraeth Cymru yn cwmpasu'r maes hwn, felly penderfynwyd dilyn y trywydd hwnnw, yn hytrach na llunio Mesur i Gymru yn unig. Fodd bynnag, bydd y canlyniad yn y pen draw yr un fath yn union â'r hyn yr oeddid yn dymuno'i weld.

Yr oeddech yn amau a fyddai hyn yn cael ei setlo am genhedlaeth. Yn fy marn i, ni cheir fyth Ddeddf Llywodraeth Cymru arall, oherwydd bod y Ddeddf hon wedi darparu proses symllach uniongyrchol i ddarparu pwerau ychwanegol i'r Cynulliad, pwerau y gellir eu defnyddio yn y blynnyddoedd nesaf, ac mae wedi darparu ar gyfer y posiblwydd—pan fydd Cymru'n barod—bydd pwerau deddfu sylfaenol. Mae'r rheini ar y llyfrau statud, yn aros i gael eu defnyddio pan geir consensws i wneud hynny. Ailadroddaf bwynt a wneuthum o'r blaen, gan gynnwys, fe gredaf, cyn sefydlu'r Cynulliad. Yr wyf yn cofio gyda chryn dipyn o bryder personol pa mor agos oedd y bleidlais 'ie' yn 1997. Ni fyddwn am weld

When Wales is ready for full primary law-making powers, we will go for it, but not before.

It is not a compromise. We have provided for the most radical option: full primary powers are on the statute book. Our critics, particularly in Plaid Cymru and the Liberal Democrats, never thought that Welsh Labour would deliver that. We have delivered that. In my statement I expressed very clearly—and I will repeat it for Mike—that I therefore expect a new constitutional convention to be established whereby there is a clear presumption that the Assembly's requests for new powers will be agreed. I am happy to repeat that.

I was asked in a press conference or perhaps some other type of conference whether I could conceive of circumstances in which Parliament would not agree an Assembly request. The example that I gave is improbable, although who knows with the Welsh Conservatives—you never know what is improbable with them. It was the example of privatising schools in Wales. I do not think that Westminster would agree with that. I am giving an example, but I have no doubt that if the Welsh Conservatives ever got control of the Assembly they would come up with such proposals. I think that Westminster would want to look again at such proposals, and I simply mentioned that to clarify the point.

On anti-social behaviour legislation, there have been a number of different pieces of legislation in order to cover a number of different instances of behaviour that have come up in local communities. It is important to place on record the fact that all of us—and certainly those of us on the Labour benches—know that, in our communities, anti-social behaviour is a curse and a blight on our neighbourhoods. It is important that there is a legislative opportunity to deal with that. The Liberal Democrats have opposed this legislation time and again in the House of Commons, and we will remind our local voters in the election campaign next year that that has been their consistent position.

pleidlais 'na' agos yn y dyfodol pe gelwid refferendwm. Pan fydd Cymru'n barod am bwerau deddfu sylfaenol llawn, awn amdani, ond nid cyn hynny.

Nid cyfaddawd ydyw. Yr ydym wedi darparu ar gyfer yr opsiwn mwyaf radical: mae pwerau sylfaenol llawn ar y llyfr statud. Ni chredai ein beirniaid, yn enwedig ym Mhlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, erioed y byddai Llafur Cymru yn cyflawni hynny. Yr ydym wedi cyflawni hynny. Yn fy natganiad, mynegais yn bendant iawn—ac ailadroddaf hynny ar gyfer Mike—fy mod felly yn disgwyl i gonfensiwn cyfansoddiadol newydd gael ei sefydlu ac y bydd, yn ei sgil, ragdybiaeth glir y cytunir ar geisiadau'r Cynulliad am bwerau newydd. Yr wyf yn fodlon ailadrodd hynny.

Gofynnwyd imi mewn cynhadledd i'r wasg neu mewn rhyw fath arall o gynhadledd o bosibl a allwn ragweld amgylchiadau pan na fyddai'r Senedd yn cydsynio â chais gan y Cynulliad. Mae'r esiampl a roddais yn annhebygol, er pwy a wyr gyda Cheidwadwyr Cymru—ni wyddoch fyth beth sy'n annhebygol gyda nhw. Yr esiampl o breifateiddio ysgolion yng Nghymru ydoedd. Ni chredaf y byddai San Steffan yn cytuno â hynny. Rhoi esiampl yr ydwyf, ond nid oes gennyl ddim amheuaeth, petai Ceidwadwyr Cymru ryw dro'n cael rheolaeth dros y Cynulliad, y byddent yn cyflwyno cynigion o'r fath. Credaf y byddai ar San Steffan eisiau edrych drachefn ar gynigion o'r fath, a dim ond sôn am hynny i egluro'r pwynt a wneuthum.

O safbwyt deddfwriaeth ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, cafwyd nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth i gwmpasu nifer o wahanol achosion o ymddygiad a welwyd mewn cymunedau lleol. Mae'n bwysig rhoi ar glawr y ffaith bod pob un ohonom—ac yn bendant y rhai ohonom sydd ar y meinciau Llafur—yn gwybod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau yn felltith ar ein cymdogaethau ac yn eu difetha. Mae'n bwysig cael cyfreith deddfwriaethol i ddelio â hynny. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth hon dro ar ôl tro yn Nhŷ'r Cyffredin, a byddwn yn atgoffa ein pleidleiswyr lleol yn yr ymgyrch

etholiadol y flwyddyn nesaf mai dyma eu safbwyt yn gyson.

3.50 p.m.

**Val Lloyd:** Thank you for allowing me to speak on this item, Presiding Officer.

Secretary of State, in your statement, you touched on the important issue of the need to reduce carbon dioxide emissions. In light of that, would you join me in condemning First Great Western's decision to axe the popular and well-used 5.18 p.m. service from Cardiff to Swansea? This is a huge blow for my constituents—[*Interruption.*] Do you not consider it important? It is also a blow for other commuters, who will now have to turn to a later and already overcrowded service, or use their cars, which will increase emissions and road congestion. I have been campaigning against this decision locally, and I am aware that you have also been in contact with First Great Western, Secretary of State. Could you give me an update on any progress that you have been able to make on this issue, so that I can reassure my constituents?

**Peter Hain:** I am grateful for the opportunity to respond. I agree with you about the policy introduced by First Great Western, in particular the cancellation of the 3.15 p.m. service from London Paddington, which leaves Cardiff at around 5.15 p.m. and which is chock-a-block with commuter passengers. It seems to me that First Great Western is treating Welsh passengers as second-class passengers, which is not acceptable. Welsh passengers are just as entitled to proper treatment as English passengers, and I hope that First Great Western will reverse its policy. I know that Andrew Davies has taken the same view on behalf of the Welsh Assembly Government. We are standing shoulder to shoulder on this, as we do with you. The people of Swansea and Neath demand no less. The people of south-west Wales are entitled to have First Great Western provide first-class services, including the maintaining of the 3.15 p.m. service all the way to Swansea.

**Val Lloyd:** Diolch i chi am adael imi siarad am yr eitem hon, Lywydd.

Ysgrifennydd Gwladol, yn eich datganiad, soniasoch am fater pwysig sef bod angen lleihau gollyngiadau carbon deuocsiad. Yng ngoleuni hynny, a fyddch yn ymuno â mi i gondemnio penderfyniad First Great Western i gael gwared â'r gwasanaeth 5.18 p.m. poblogaidd a phrysur o Gaerdydd i Abertawe? Mae hyn yn ergyd aruthrol i'm hetholaeth—[*Torri ar draws.*] Oni chredwch fod hyn yn bwysig? Mae hefyd yn ergyd i gymudwyr eraill, y bydd yn rhaid iddynt yn awr droi at wasanaeth diweddarach sydd eisoes yn orlawn, neu ddefnyddio eu ceir; bydd hynny'n cynyddu gollyngiadau a thagfeydd ar y ffyrdd. Bûm yn ymgyrchu yn erbyn y penderfyniad hwn yn lleol, ac yr wyf yn ymwybodol eich bod chithau hefyd wedi bod mewn cysylltiad â First Great Western, Ysgrifennydd Gwladol. A allech roi imi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd yr ydych wedi llwyddo i'w sicrhau o ran y mater hwn, fel y gallaf dawelu meddyliau fy etholwyr?

**Peter Hain:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb. Cytunaf â chi ynghylch y polisi a gyflwynodd First Great Western, yn enwedig canslo'r gwasanaeth 3.15 p.m. o orsaif Paddington Llundain, gwasanaeth sy'n gadael Caerdydd am tua 5.15 p.m. ac sydd dan ei sang o gymudwyr. Mae'n ymddangos i mi fel petai First Great Western yn trin teithwyr Cymru fel teithwyr ail ddosbarth, ac nid yw hyn yn dderbyniol. Mae gan deithwyr Cymru gystal hawl i gael triniaeth briodol â theithwyr Lloegr, a gobeithiaf y bydd First Great Western yn gwrthdroi ei bolisi. Gwn fod Andrew Davies wedi cymryd yr un safbwyt ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydym yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd ynghylch hyn, fel yr ydym yn gwneud gyda chi. Nid yw pobl Abertawe a Chastell-nedd yn galw am ddim llai. Mae gan bobl y de-orllewin hawl i gael gwasanaethau o'r radd flaenaf gan First Great Western, gan gynnwys cynnal y gwasanaeth 3.15 p.m. yr holl ffordd i Abertawe.

## Araith y Frenhines The Queen's Speech

Motion (NDM3342): to propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. notes the content of the UK Government's legislative programme for the period November 2006 to November 2007;*

*2. notes that the following proposed Bills are of particular relevance to the Assembly's responsibilities:*

*a) the Local Government Bill (Local Government and Public Services Committee);*

*b) the Further Education and Training Bill (Education and Lifelong Learning Committee);*

*c) the Climate Change Bill (Environment, Planning and Countryside Committee);*

*d) the Mental Health Bill (Health and Social Services Committee);*

*e) the Road Transport Bill (Enterprise, Innovation and Networks Committee);*

*f) the Digital Switchover Bill (Culture, Sport and Welsh Language Committee); and*

*3. remits the above Bills to the relevant committees for such consideration as they consider appropriate, and requests each committee to report to the Assembly as soon as may be.*

Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.  
In point 1 insert the word 'unsatisfactory' before the word 'content'.

Amendment 2 in the name of Lisa Francis.  
Add a new point at the end of the motion:

*regrets the absence of a Bill to provide for a St David's Day public holiday.*

Cynnig (NDM3342): cynnig bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Tachwedd 2007;*

*2. yn nodi bod y Mesurau arfaethedig a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad:*

*a) y Mesur Llywodraeth Leol (y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus);*

*b) y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant (y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes);*

*c) y Mesur Newid Hinsawdd (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad);*

*d) y Mesur Iechyd Meddwl (y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol);*

*e) y Mesur Trafnidiaeth Ffyrdd (y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau);*

*f) y Mesur Newid i Ddigidol (y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon);*

*3. yn cyfeirio'r Mesurau uchod at y pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt eu hystyried fel sy'n briodol yn eu barn hwy, ac yn gofyn i bob pwyllgor roi adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted ag sy'n bosibl.*

Gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 1, cynnwys y gair 'anfoddhaol' ar ôl y gair 'cynnwys'.

Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwyt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith na cheir Mesur i ddarparu ar gyfer gwyl gyhoeddus ar Ddydd Gwyl Dewi.*

Amendment 3 in the name of Lisa Francis.  
Add a new point at the end of the motion:

*regrets the indications made by the Secretary of State for Wales regarding his likely exercise of a veto on requests for Orders in Council under the Government of Wales Act 2006, which may be among the other measures laid before Parliament.*

Amendment 4 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press the UK Government to take action to reform the Barnett formula.*

Amendment 5 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*regrets the continued failure to introduce a Bill analogous to the Scotland Act 1998 to finally give the Assembly the same law-making powers as Scotland, instead of the halfway house of the Government of Wales Act 2006.*

Amendment 6 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*calls for the Assembly Government to press for an Energy (Wales) Bill to devolve decisions on building regulations and energy consents to the National Assembly so that the Welsh Assembly Government could set accurate annual carbon emissions reductions targets, ambitious targets for renewable energy generation, boost the green economy and set out a meaningful green jobs strategy.*

Amendment 7 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press for the devolution to the Assembly of responsibility for energy consents for proposed generating stations which are in excess of 50 MW.*

Gwelliant 3 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at awgrym Ysgrifennyd Gwladol Cymru ei fod yn debygol o ddefnyddio feto ar geisiadau am Orchmyntion yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a allai fod ymhlið y mesurau eraill a gyflwynir gerbron Senedd y DU.*

Gwelliant 4 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwyso ar Lywodraeth y DU i weithredu i ddiwygio fformiwlau Barnett.*

Gwelliant 5 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y methiant parhaus i gyflwyno Mesur sy'n cyfateb i Ddeddf yr Alban 1998 i roi, o'r diwedd, i'r Cynulliad yr un pwerau deddfu ag sydd gan yr Alban, yn hytrach na'r cyfaddawd a geir yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006.*

Gwelliant 6 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwyso am Fesur Ynni (Cymru) i ddatganoli penderfyniadau yngylch rheoliadau adeiladu a chaniatáu datblygiadau ynni i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru allu gosod targedau blynnyddol cywir ar gyfer gostwng gollyngiadau carbon, gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, rhoi hwb i'r economi werdd a phennu strategaeth swyddi gwyrdd ystyrlon.*

Gwelliant 7 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwyso am ddatganoli i'r Cynulliad gyfrifoldeb dros roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ynni arfaethedig sy'n cynhyrchu dros 50 MW.*

Amendment 8 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the Queen's Speech does not include a Freedom Bill to safeguard civil rights from overweening Government interference.*

Amendment 9 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press for the devolution to the Assembly of responsibility for police services in Wales.*

Amendment 10 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*believes that consideration should be given to extending TV coverage post digital switchover to those who currently do not have access.*

Amendment 11 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:

*regrets the focus on compulsion and containment in the Mental Health Bill, which could lead to people with mental health problems being detained for reasons other than treatment; and believes that any new laws must be focused on patient autonomy and access to care, with compulsory treatment used only as a last resort.*

Amendment 12 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

*notes that Orders in Council under the Government of Wales Act 2006 are likely to be among the other legislation introduced and regrets the recent, unhelpful comments made by the Secretary of State for Wales on the operation of the Orders in Council procedure contained in the Government of Wales Act 2006.*

Gwelliant 8 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith nad yw Araith y Frenhines yn cynnwys Mesur Rhyddid i ddiogelu hawliau sifil rhag ymyrraeth drahaus gan Lywodraeth.*

Gwelliant 9 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwyso am ddatganoli i'r Cynulliad gyfrifoldeb dros wasanaethau'r heddlu yng Nghymru.*

Gwelliant 10 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn credu y dylid ystyried estyn darpariaeth teledu ar ôl y newid i ddigidol i'r rhai nad ydynt yn cael darpariaeth ar hyn o bryd.*

Gwelliant 11 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith bod y Mesur Iechyd Meddwl yn canolbwytio ar orfodaeth a chaethiwo, a allai arwain at gadw pobl â phroblemau iechyd meddwl yn gaeth am resymau heblaw triniaeth; ac yn credu bod yn rhaid i unrhyw gyfreithiau newydd ganolbwytio ar ymreolaeth y claf a mynediad at ofal, gyda thriniaeth orfodol ond yn cael ei defnyddio fel opsiwn olaf possibl.*

Gwelliant 12 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi bod Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn debygol o fod ymhlið y ddeddfwriaeth arall a gyflwynir gerbron Senedd y DU, ac yn gresynu at sylwadau difudd diweddar Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar weithredu'r drefn Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a geir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.*

Amendment 13 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the First Minister to seek the support of the UK Government in setting up an agreed protocol on how the Secretary of State for Wales will consider each application from the Assembly Government for an Order in Council under the Government of Wales Act 2006.*

Amendment 14 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the speech outlining the UK Government's legislative programme made no reference to the need to replace the current Barnett formula with a formula based on need.*

Amendment 15 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the UK Government's legislative programme failed to include legislation that would require the Prime Minister to consult the Assembly before committing Welsh troops to hostilities abroad.*

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 12, 13, 14 a 15 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2 a 3 yn enw Lisa Francis a gwelliannau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 a 11 yn enw Kirsty Williams.

**The First Minister:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. notes the content of the UK Government's legislative programme for the period November 2006 to November 2007;*

*2. notes that the following proposed Bills are of particular relevance to the Assembly's responsibilities:*

*a) the Local Government Bill (Local Government and Public Services Committee);*

Gwelliant 13 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar y Prif Weinidog i geisio cefnogaeth Llywodraeth y DU i sefydlu protocol y cytunir arno sy'n nodi sut y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ystyried pob cais gan Lywodraeth y Cynulliad am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

Gwelliant 14 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith nad oedd yr arraith a oedd yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cyfeirio at yr angen i gyflwyno fformiwl a sy'n seiliedig ar angen yn lle fformiwl a gyfredol Barnett.*

Gwelliant 15 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith nad yw rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cynnwys deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU ymgynghori â'r Cynulliad cyn anfon milwyr Cymru i ymladd dramor.*

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 12, 13, 14 and 15 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2 and 3 in the name of Lisa Francis and amendments 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 in the name of Kirsty Williams.

**Y Prif Weinidog:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Tachwedd 2007;*

*2. yn nodi bod y Mesurau arfaethedig a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad:*

*a) y Mesur Llywodraeth Leol (y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus);*

- b) the Further Education and Training Bill (Education and Lifelong Learning Committee);
  - c) the Climate Change Bill (Environment, Planning and Countryside Committee);
  - d) the Mental Health Bill (Health and Social Services Committee);
  - e) the Road Transport Bill (Enterprise, Innovation and Networks Committee);
  - f) the Digital Switchover Bill (Culture, Sport and Welsh Language Committee); and
3. remits the above Bills to the relevant committees for such consideration as they consider appropriate, and requests each committee to report to the Assembly as soon as may be. (NDM3342)

I also wish Elizabeth a speedy recovery, on behalf of the Labour group.

Ers ein dadl ddiwethaf ar Araith y Frenhines, bron 18 mis yn ôl, ym mis Mehefin 2005, mae ein system newydd, ddatganoledig o lywodraethu ar yr agenda ddomestig yn y Cynulliad wedi cymryd cam cawr ymlaen, oherwydd ein bod wedi taro bargin newydd rhwng San Steffan a'r Cynulliad. Mae pasio Mesur Llywodraeth Cymru, a'i droi'n Ddeddf yn ystod yr haf, wedi estyn y pwerau sydd ar gael inni yn sylweddol, ac wedi galluogi'r Cynulliad i deilwra polisiau newydd sy'n addas ar gyfer ein hamgylchiadau arbennig ni yng Nghymru.

Bydd y trydydd Cynulliad, a gaiff ei ethol fis Mai nesaf, yn lle llawer mwy cyffrous i wasanaethu ynddo. Bydd dadleuon sylfaenol ynglŷn â chefnogi neu wrthod yr egwyddor o ddeddfu ar bynciau llosg ein cymdeithas. Mae'r Ddeddf hefyd yn esmwytho effeithlonrwydd, ac yn cyflymu'r broses o ddeddfu dros Gymru. Mae hefyd yn ein galluogi i ystyried cynigion llawer mwy sylweddol a dyfeisgar, ar bynciau llawer helaethach, i ddarparu gwasanaethau cryfach a mwy modern dros bobl Cymru.

Before going on to mention the detail of the

- b) y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant (y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes);
  - c) y Mesur Newid Hinsawdd (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad);
  - d) y Mesur Iechyd Meddwl (y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol);
  - e) y Mesur Trafnidiaeth Ffyrdd (y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau);
  - f) y Mesur Newid i Ddigidol (y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon);
3. yn cyfeirio'r Mesurau uchod at y pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt eu hystyried fel sy'n briodol yn eu barn hwy, ac yn gofyn i bob pwyllgor roi adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted ag sy'n bosibl. (NDM3342)

Dymunaf finnau hefyd wellhad buan i Elizabeth, ar ran y grŵp Llafur.

Since our last debate on the Queen's Speech, almost 18 months ago, in June 2005, our new, devolved system of governance on the domestic agenda in the Assembly has taken a giant step forward, because we have struck a new deal between Westminster and the Assembly. Passing the Government of Wales Bill, and making it an Act during the summer, has extended considerably the powers available to us, and has enabled the Assembly to tailor new policies that are appropriate to our own particular circumstances in Wales.

The third Assembly, which will be elected next May, will be a far more exciting place to serve in. There will be fundamental debates regarding supporting or rejecting the principle of legislating on the hottest topics in our society. The Act also eases efficiency, and speeds up the process of legislating for Wales. It also enables us to consider far more substantial and innovative proposals, on far broader issues, in order to provide improved and more modern services for the people of Wales.

Cyn bwrw ymlaen i grybwyll manylion

Queen's Speech, it is perhaps important that we reflect on what has happened to the legislative proposals outlined in previous legislative programmes. As well as the Government of Wales Bill, which gives us the giant step forward to which I just referred, two other Wales-only Bills became Acts of Parliament in the summer. The first, the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006, represents a unique opportunity for Wales, because we are the first country—possibly in Europe, and probably in the world—to have passed such a measure; it is certainly the first of its kind in the UK. We will therefore be pioneering for the whole of the UK, and possibly for Europe and the world, in providing a new kind of advocacy model for the interests of older people, in line with the demographic trends of all societies in the western world. The second, the Transport (Wales) Act 2006, also provides a significant step forward in giving the Welsh Assembly Government the powers to plan a more co-ordinated transport system for Wales, although they do not cover the inter-city services that we were just discussing a second or two ago.

Two further Acts, the Education and Inspections Act 2006 and the NHS Redress Act 2006, which both recently received Royal Assent at the end of the last legislative year, also provide Wales with new and significant opportunities. Both contain new powers for Wales to take forward legislation in these areas, because they follow the framework-powers model enunciated by the Secretary of State when he was also Leader of the House some time ago.

The legislation announced in the new Queen's Speech will continue to offer major opportunities for Wales. For example, the Further Education and Training Bill will contain measure-making powers that will enable the Welsh Assembly Government to own and shape the future of the all-important further education sector in Wales. Many of the other Bills outlined in the legislative programme are also relevant to our devolved responsibilities: they include the Local Government Bill and the Mental Health Bill,

Araith y Frenhines, mae o bosibl yn bwysig inni fyfyrion ar yr hyn a ddigwyddodd i'r cynigion deddfwriaethol a amlinellwyd mewn rhagleni deddfwriaethol blaenorol. Yn ychwanegol at Fesur Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi inni'r cam cawr ymlaen yr wyf newydd gyfeirio ato, daeth dau Fesur Cymru yn unig arall yn Ddeddfau Seneddol yn yr haf. Mae'r gyntaf, Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn golygu bod cyfle unigryw i Gymru, gan mai nyni yw'r wlad gyntaf—o bosibl yn Ewrop, ac o bosibl yn y byd—i fod wedi pasio mesur o'r fath; hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU yn bendant. Byddwn felly yn arloesi ar ran y DU gyfan, ac o bosibl ar ran Ewrop a'r byd, gan ddarparu math newydd o fodel eirioli dros fuddiannau pobl hŷn, yn unol â thueddiadau demograffig holl gymdeithasau'r byd gorllewinol. Mae'r ail, Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, hefyd yn darparu cam sylweddol ymlaen wrth roi i Lywodraeth Cynulliad Cymru y pwerau i gynllunio system drafnidiaeth fwy cydlynol i Gymru, er nad ydynt yn cwmpasu'r gwasanaethau rhwng dinasoedd yr oeddem yn eu trafod eiliad neu ddwy yn ôl.

Mae dwy Ddeddf arall, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Unioni Camweddau yn y GIG 2006—ill dwy wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddar ar ddiwedd y flwyddyn ddeddfwriaethol ddiwethaf—hefyd yn rhoi i Gymru gyfleoedd newydd a phwysig. Mae'r ddwy'n cynnwys pwerau newydd i Gymru i gyflwyno deddfwriaeth yn y meysydd hyn, oherwydd eu bod yn dilyn y model pwerau fframwaith a ddatganwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol pan oedd hefyd yn Arweinydd y Tŷ beth amser yn ôl.

Bydd y ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd yn Araith newydd y Frenhines yn parhau i gynnig cyfleoedd pwysig i Gymru. Er enghraift, bydd y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant yn cynnwys pwerau deddfu a fydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i berchenogi a llunio dyfodol y sector addysg bellach hollbwysig yng Nghymru. Mae llawer o'r Mesurau eraill a amlinellir yn y rhaglen ddeddfwriaethol yn berthnasol i'n cyfrifoldebau datganoledig hefyd: yn eu plith mae'r Mesur Llywodraeth Leol a'r Mesur

which have already been mentioned, the Digital Switchover Bill and the anticipated Bills on climate change and road transport. One can hardly have a less important Bill than the Climate Change Bill, but its publication, which is soon, I think, will reveal just how path-breaking it is. I hope, as is mentioned in the motion, that the relevant committees will be able to consider these Bills and have a strong input into their scrutiny process.

Looking across the border, I am also delighted that the UK Government has now brought forward legislation to develop the free travel scheme in England, which demonstrates the benefits of devolution, in that we were able to go first, England was able to observe what we were doing and see the fantastic success that we have had, and now it has been decided to do it in England as well, five years later. Our scheme guaranteeing free travel by elderly and disabled people on local bus services has been a huge path-breaking success in reducing the isolation of elderly people. Local authorities have issued more than half a million free bus passes for free bus travel. It has helped turn around what had been a long-term decline in bus passenger journeys in Wales. It shows what devolution can achieve, when we work in partnership with local authorities and bus operators, by making bus travel easier and cheaper to use, thereby providing the backbone for the services, from which the people who do not access free bus passes can also benefit.

To close, the Business Minister will address the Government's response to the many amendments in her closing remarks in this debate. I commend the Queen's Speech to the Assembly. I commend it because it represents the interests of Wales, and of devolved Wales as a part of the wider United Kingdom. It provides no shortage, but rather a full set, of practical measures that will make a real difference to the lives of ordinary people the length and breadth of Wales. It demonstrates clearly that the Labour Government that won its mandate 18 months ago did so because it was—and it remains—in touch with the

Iechyd Meddwl, mesurau sydd wedi'u crybwyl eisoes, y Mesur Newid i Ddigidol a'r Mesurau disgwyliedig ar newid hinsawdd a thrafnidiaeth ffyrdd. Prin y gallem gael Mesur llai pwysig na'r Mesur Newid Hinsawdd, ond bydd ei gyhoeddi, yn fuan, yr wyf yn credu, yn datgeli pa mor arloesol ydyw. Gobeithiaf, fel y crybwyllir yn y cynnig, y gall y pwylgorau perthnasol ystyried y Mesurau hyn a gwneud cyfraniad cadarn i'r prosesau o graffu arnynt.

Gan edrych dros y ffin, yr wyf hefyd yn falch dros ben bod Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddatblygu'r cynllun teithio am ddim yn Lloegr; dengys hyn fanteision datganoli, o ran ein bod ni'n gallu gweithredu yn gyntaf, yr oedd Lloegr yn gallu sylwi ar yr hyn yr oeddym yn ei wneud a gweld y llwyddiant ysgubol a gawsom, ac yn awr penderfynwyd gwneud hyn yn Lloegr yn ogystal, bum mlynedd yn ddiweddarach. Bu ein cynllun sy'n sicrhau bod yr henoed a phobl anabl yn cael teithio am ddim ar wasanaethau bysiau lleol yn llwyddiant arloesol aruthrol o ran gwneud pobl hŷn yn llai ynysig. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi dros hanner miliwn o docynnau bws am ddim i deithio am ddim ar fysiau. Mae wedi helpu i wyrdroi'r hyn a oedd wedi bod yn ddirywiad hirdymor mewn siwrneiau teithwyr bysiau yng Nghymru. Mae'n dangos beth y gall datganoli ei gyflawni, wrth weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, drwy wneud y bysiau'n haws ac yn rhatach eu defnyddio a, thrwy hynny, darparu'r asgwrn cefn ar gyfer y gwasanaethau, gwasanaethau y gall y bobl hynny na chânt docynnau bws am ddim elwa ohonynt hefyd.

I gloi, bydd y Trefnydd yn rhoi sylw i ymateb y Llywodraeth i'r gwelliannau niferus yn ei sylwadau wrth gloi'r ddadl hon. Cymeradwyaf Araith y Frenhines i'r Cynulliad. Fe'i cymeradwyaf oherwydd ei bod yn cynrychioli buddiannau Cymru, a buddiannau'r Gymru ddatganoledig fel rhan o'r Deyrnas Unedig ehangach. Nid yw'n brin o fesurau ymarferol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl gyffredin ym mhob cwr o Gymru, yn hytrach mae'n darparu set gyflawn ohonynt. Mae'n dangos yn glir bod y Llywodraeth Lafur a enillodd ei mandad 18 mis yn ôl wedi

needs and hopes of Wales.

gwneud hynny oherwydd ei bod—a'i bod yn dal i fod—mewn cysylltiad ag anghenion a gobeithion Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies.

**Rhodri Glyn Thomas:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies.

Gwelliant 1: ym mhwynt 1, cynnwys y gair ‘anfoddhaol’ ar ôl y gair ‘cynnwys’.

Amendment 1: in point 1 insert the word ‘unsatisfactory’ before the word ‘content’.

Cynigiaf welliant 12. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 12: Add a new point at the end of the motion:

*yn nodi bod Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn debygol o fod ymhlied y ddeddfwriaeth arall a gyflwynir gerbron Senedd y DU, ac yn gresynu at sylwadau difudd diweddar Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar weithredu'r drefn Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a geir yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006.*

*notes that Orders in Council under the Government of Wales Act 2006 are likely to be among the other legislation introduced and regrets the recent, unhelpful comments made by the Secretary of State for Wales on the operation of the Orders in Council procedure contained in the Government of Wales Act 2006.*

Cynigiaf welliant 13. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 13: Add a new point at the end of the motion:

*yn galw ar y Prif Weinidog i geisio cefnogaeth Llywodraeth y DU i sefydlu protocol y cytunir arno sy'n nodi sut y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ystyried pob cais gan Lywodraeth y Cynulliad am Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

*calls on the First Minister to seek the support of the UK Government in setting up an agreed protocol on how the Secretary of State for Wales will consider each application from the Assembly Government for an Order in Council under the Government of Wales Act 2006.*

Cynigiaf welliant 14. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 14: Add a new point at the end of the motion:

*yn gresynu at y ffaith nad oedd yr arraith a oedd yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cyfeirio at yr angen i gyflwyno fformiwla sy'n seiliedig ar angen yn lle fformiwla gyfredol Barnett.*

*regrets that the speech outlining the UK Government's legislative programme made no reference to the need to replace the current Barnett formula with a formula based on need.*

Cynigiaf welliant 15. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 15: Add a new point at the end of the motion:

*yn gresynu at y ffaith nad yw rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cynnwys deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU ymgynghori â'r Cynulliad cyn anfon milwyr Cymru i ymladd dramor.*

*regrets that the UK Government's legislative programme failed to include legislation that would require the Prime Minister to consult the Assembly before committing Welsh troops to hostilities abroad.*

Byddaf yn cyfeirio'n benodol at y I will refer specifically to the amendments

gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno yn enw Jocelyn Davies ar ran grŵp Plaid Cymru, a chyfeiriaf yn gyntaf at welliant 1, sy'n nodi cynnwys anfoddaol Araith y Frenhines. Yr ydym yn defnyddio'r gair 'anfoddaol' yn gwbl fwriadol. Mae'n anfoddaol yn y ffordd y mae'n ymdrin â datganoli a'r pwerau ychwanegol newydd fydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl mis Mai 2007. Wrth gwrs, yr ydym yn croesawu unrhyw fath o gynnydd a phwerau ychwanegol. Yr wyf yn hapus i wneud hynny, Brif Weinidog, ond yr oeddech yn sôn am gam cawr. Credaf ei fod yn gam corrach yn hytrach na cham cawr, gan mai cam bach iawn yw.

Yr oeddech yn sôn am daro bargin—pam na fedrwch fod yn onest, Brif Weinidog, a chyd nabod mai taro bargin o fewn y Blaid Lafur a wnaethoch unwaith yn rhagor? Yr ydych wedi taro bargin o fewn y Blaid Lafur yng Nghymru fel y gwnaethpwyd yn 1997, ac yr oedd fargen honno yn un anfoddaol—yr ydych yn cydnabod hynny erbyn hyn—ac yr ydych yn awr wedi taro bargin anfoddaol arall, a fydd yn rhoi setliad cyfansoddiadol—

that have been tabled in the name of Jocelyn Davies on behalf of the Plaid Cymru group, and I will refer first of all to amendment 1, which notes the unsatisfactory content of the Queen's Speech. We have used the word 'unsatisfactory' intentionally. It is unsatisfactory in terms of how it deals with devolution and the new additional powers that the National Assembly for Wales will have post May 2007. Of course, we welcome any progress and additional powers. I am pleased to do so, First Minister, but you were talking about a giant step. I think that it is a dwarf step rather than a giant step, because it is only a small step.

You spoke of striking a deal—why can you not be honest, First Minister, and acknowledge that you have struck a deal within the Labour Party once again? You have struck a deal within Welsh Labour, as you did in 1997, and that deal was also unsatisfactory—you acknowledge that now—and you have now struck another unsatisfactory deal, which will bring about a constitutional settlement—

4.00 p.m.

### **Y Prif Weinidog a gododd—**

**Rhodri Glyn Thomas:** Gadewch i mi orffen y pwyt hwn, Brif Weinidog, ac yna cewch myrryd.

Dyma fargen anfoddaol arall. Mae'n golygu y bydd yn dal yn rhaid inni ofyn am hawl San Steffan i dynnu'r pwerau hynny i lawr a byddwn yn wynebu'r posibl rwydd o feti gan San Steffan hyd yn oed wedi inni eu tynnu i lawr.

**Y Prif Weinidog:** Yr hyn yr ydych yn ei adael allan o'r disgrifiad hwnnw, Rhodri Glyn, yw'r ffordd yr ydych yn ennill mandat democraidd i wneud pethau. Trewir bargin rhwng San Steffan a'r Cynulliad hwn ar gymal wedi inni ei osod mewn manifesto, ennill mwyafrif ar y manifesto sy'n cynnwys y cymal hwnnw, a phasio Deddf yn San Steffan. Dyna'r broses ddemocraidd a dyna sut y mae pob darn o ddeddfwriaeth yn dod i rym. Ni allwch gael trefn fwy democraidd na hynny, a dyna yr ydym wedi ei wneud—

### **The First Minister rose—**

**Rhodri Glyn Thomas:** Let me finish this point, First Minister, and then you can come in.

This is another unsatisfactory deal. We will still have to ask for Westminster's permission to draw down those powers and we will face the possibility of a Westminster veto even after we draw them down.

**The First Minister:** What you are leaving out of that description, Rhodri Glyn, is the way in which you win a democratic mandate to do things. A deal is struck between Westminster and the Assembly on a clause after we have included it in a manifesto, won a majority on the manifesto that includes that clause, and passed an Act in Westminster. That is the democratic process and that is how all pieces of legislation come into force. You cannot have a more democratic process than that, and that is what we have done—it

nid proses fewnol yw hynny, ond proses sy'n mynd gerbron y bobl.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n broses gwbl fewnol, fel y gwyddoch yn iawn, Brif Weinidog. Bu ichi sefydlu comisiwn o dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Richard i edrych ar y sefyllfa gyfansoddiadol, a chyflwynodd yr Arglwydd Richard a'r comisiynwyr argymhellion cwbl benodol ger eich bron. Cofiaf fod yn yr hen adeilad a'ch clywed yn croesawu adroddiad Richard a'r cam hwnnw ymlaen. Ond, wedi hynny, yr ydych wedi anwybyddu'r argymhellion yn gyfan gwbl ac wedi dychwelyd at rywbeith y credwch y bydd y Blaid Lafur yng Nghymru yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nid oes neb arall yng Nghymru yn croesawu'r drefn newydd hon gan fod pawb arall yn sylweddoli pa mor aneffeithiol y bydd.

O sôn am Araith y Frenhines, mae angen dweud hefyd fod yr arraith yn anfoddhaol o ran bod yn gynhwysfawr. Clywsom sôn am gyfraith a threfn a therfysgaeth, a gwyddom beth yw cost hynny yng Nghymru. Yr ydym wedi gweld y costau y mae'r heddluoedd yng Nghymru wedi gorfol eu hwynebu oherwydd argymhellion y Swyddfa Gartref ar uno. Nid oedd yr argymhellion hynny yn addas ar gyfer Cymru, nac yn angenrheidiol, ond maent wedi costio'n ddrud i'r heddluoedd. Cafodd hynny effaith ar wasanaethau'r heddluoedd yng Nghymru.

Amendments 12 and 13 refer to the constitutional situation and to securing a protocol that is robust and transparent, allowing us to know exactly how we can prepare Bills in Wales. First Minister, I hope that you will support amendment 13, establishing that protocol; I know that the Secretary of State will take great pleasure in signing off that protocol to allow us to have that robust and transparent system in place.

Turning to amendment 14, we are talking about a fair, needs-based funding system for the National Assembly for Wales. Every time that we raise this matter with you, First Minister, you say, 'This will never be agreed while Gordon Brown is in charge of the Treasury, because he is a Scottish MP and he will defend the interests of Scotland; the

is not an internal process, but a process that is put before the people.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is a wholly internal process, as you well know, First Minister. You set up a commission under Lord Richard to consider the constitutional situation, and Lord Richard and the commissioners presented specific recommendations to you. I remember hearing you, in the old Assembly building, welcoming the Richard report and that step forward. Subsequently, however, you completely ignored those recommendations and returned to something that you think will be accepted by the Welsh Labour Party. However, no-one else in Wales welcomes this new order, as everybody else can see how ineffective it will be.

Turning to the Queen's Speech, it needs to be said that the speech is unsatisfactory in terms of its comprehensiveness. We heard about law and order and terrorism, and we know what the cost of that will be in Wales. We have seen the costs faced by Welsh police forces as a result of Home Office merger recommendations. Those recommendations were not suitable for Wales, and they were not necessary, but they have been expensive for our police forces. That had an impact on police services in Wales.

Mae gwelliannau 12 a 13 yn cyfeirio at y sefyllfa gyfansoddiadol ac at sicrhau protocol sy'n gadarn a thyloyw, gan ganiatâu inni wybod sut yn union y gallwn baratoi Mesurau yng Nghymru. Brif Weinidog, gobeithiaf y byddwch yn cefnogi gwelliant 13, sy'n sefydlu'r protocol hwnnw; gwn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael pleser mawr wrth gymeradwyo'r protocol hwnnw i ganiatâu inni gael y system gadarn a thyloyw honno ar waith.

Gan droi at welliant 14, yr ydym yn sôn am system ariannu deg, yn seiliedig ar angen ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bob tro y byddwn yn codi'r mater hwn gyda chi, Brif Weinidog, byddwch yn dweud, 'Ni chaiff hyn ei dderbyn byth tra bo'r Trysorlys dan ofal Gordon Brown, oherwydd ei fod yn Aelod Seneddol o'r Alban ac y bydd yn

Barnett formula happens to suit Scotland and does not happen to suit Wales. It will never happen, so there is no point in arguing the case'. Whenever you think that there is no point in arguing the case, you do not even bother to try to argue it; you do not even put the case on behalf of Wales. Are you the First Minister of Wales, who is there to defend the interests of Wales and to fight battles on behalf of the people of Wales, or are you the First Minister who always gives in to the Treasury and to Gordon Brown, just in case he might be the next Prime Minister and leader of the Labour Party?

Amendment 15 refers to the need for consultation, if the Prime Minister, or a future Prime Minister, intended to lead the United Kingdom into a war that we would argue was immoral and unjustifiable. The method of consultation would obviously be for Westminster and the Prime Minister to decide, but we need that consultation. Let us not forget that soldiers from Wales have died in Iraq—Llywelyn Evans from Llandudno was the first soldier to die in Iraq. If the Liberal Democrats in Westminster had not tried to undermine Adam Price's attempt to hold the Prime Minister to account—*[Interruption.]*

That just shows the Liberal Democrats for what they are—a bunch of political opportunists who are not interested in principles, who voted for the war, and then led a campaign against it. If they had not undermined that attempt, the Prime Minister would have been accountable. However, First Minister, let us at least ensure that the Prime Minister, in the future, consults us before taking us to war. *[Interruption.]*

Do not do that with me; do it with your Westminster colleagues.

**The Presiding Officer:** Order. You have finished your speech.

**Nick Bourne:** I propose the following amendments in the name of Lisa Francis:

amddiffyn buddiannau'r Alban; fel y mae'n digwydd bod, mae fformiwla Barnett yn addas i'r Alban ac nid yw'n addas i Gymru. Ni wnaiff hynny byth ddigwydd, felly nid oes pwrrpas mewn dadlau dros yr achos'. Bob tro y byddwch yn credu nad oes pwrrpas mewn dadlau dros rywbeth, ni fyddwch yn trafferthu ceisio dadlau drosto hyd yn oed; ni wnewch hyd yn oed ddadlau'r achos ar ran Cymru. Ai chi yw Prif Weinidog Cymru, sydd yno i amddiffyn buddiannau Cymru, ac i ymladd brwydrau ar ran pobl Cymru, ynteu ai chi yw'r Prif Weinidog sydd yn ildio i'r Trysorlys a Gordon Brown bob tro, rhag ofn mai ef fydd y Prif Weinidog nesaf ac arweinydd nesaf y Blaid Lafur?

Mae gwelliant 15 yn cyfeirio at yr angen i ymgynghori, pe bai'r Prif Weinidog, neu Brif Weinidog yn y dyfodol, yn bwriadu arwain y Deyrnas Unedig i ryfel y byddem yn dadlau ei fod yn anfoesol ac na ellir ei gyflawnhau. Mae'n amlwg mai'r dull o ymgynghori fyddai i San Steffan a'r Prif Weinidog benderfynu, ond mae angen yr ymgynghoriad hwnnw arnom. Gadewch inni beidio ag anghofio bod milwyr o Gymru wedi marw yn Irac—Llywelyn Evans o Landudno oedd y milwr cyntaf i farw yn Irac. Pe na bai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi ceisio tanseilio ymdrech Adam Price i wneud y Prif Weinidog yn atebol—*[Torri ar draws.]*

Mae hynny'n dangos inni beth yn union yw'r Democratiaid Rhyddfrydol—criw o fanteiswyr gwleidyddol heb ddim diddordeb mewn egwyddorion, a bleidleisiodd dros y rhyfel, ac a arweiniodd ymgyrch yn ei erbyn yn ddiweddarach. Pe na baent wedi tanseilio'r ymdrech honno, byddai'r Prif Weinidog wedi bod yn atebol. Fodd bynnag, Brif Weinidog, gadewch inni o leiaf sicrhau y bydd y Prif Weinidog, yn y dyfodol, yn ymgynghori â ni cyn mynd â ni i ryfel. *[Torri ar draws.]*

Peidiwch â gwneud hynny gyda mi; gwnewch hynny gyda'ch cyd-aelodau yn San Steffan.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydych wedi cwblhau eich arraith.

**Nick Bourne:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 2:

Amendment 2: Add a new point at the end of the motion:

*regrets the absence of a Bill to provide for a St David's Day public holiday.*

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

*regrets the indications made by the Secretary of State for Wales regarding his likely exercise of a veto on requests for Orders in Council under the Government of Wales Act 2006, which may be among the other measures laid before Parliament.*

I thank the First Minister for his introduction. He seemed to be less glowing, less fulsome and less ardent about the new system of draft Orders in Council than the Secretary of State was. Although the Secretary of State painted a picture of them joined at the hip and marching together towards the sound of gunfire, it did not seem that the First Minister was entirely happy with that position. I am not surprised, because I well remember him saying how proud he was of the Richard commission's report, how proud he was of his nation, and how it represented the way forward. This lunchtime, I was reading an article by the Secretary of State in the *Bevan Foundation Review* in which he says that that report is flawed in fundamental respects—so, it seems that they do not agree. Indeed, Lord Richard has been critical of the unstable nature of the settlement in this Bill, and he is not wrong; it is a fragile settlement, which we know from the Secretary of State's indication that he would exercise his powers of veto with regard to certain draft Orders in Council. I can, therefore, understand why the First Minister was less glowing, less fulsome and less ardent about this procedure—perhaps he will enlarge on why he was once in favour of Lord Richard's report, hook, line and sinker, but is now seemingly not.

**The First Minister:** I have made clear on many occasions that everything that is in Lord Richard's recommendations is

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith na cheir Mesur i ddarparu ar gyfer gwyl gyhoeddus ar Ddydd Gwyl Dewi.*

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at awgrym Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei fod yn debygol o ddefnyddio feto ar geisiadau am Orchmyntion yn y Cyfrin Gyngor dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a allai fod ymhlið y mesurau eraill a gyflwynir gerbron Senedd y DU.*

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei gyflwyniad. Yr oedd yn ymddangos yn llai gwresog, llai gwenieithus a llai brwd ynglŷn â'r system newydd o Orchmyntion drafft yn y Cyfrin Gyngor nag a oedd yr Ysgrifennydd Gwladol. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn creu delwedd ohonynt yn gwbl gytûn ac yn gorymdeithio gyda'i gilydd i gyfeiriad sŵn y drylliau, nid yw'n ymddangos bod y Prif Weinidog yn gwbl hapus gyda'r sefyllfa honno. Nid wyf yn synnu, oherwydd y mae gennyl gof da amdano'n dweud pa mor falch ydoedd o adroddiad comisiwn Richard, pa mor falch ydoedd o'i genedl, ac mai dyma oedd y ffordd ymlaen. Amser cinio heddiw, yr oeddwn yn darllen erthygl gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y *Bevan Foundation Review* lle y dywed fod agweddau sylfaenol ar yr adroddiad hwnnw'n ddifygiol—felly, fe ymddengys, nid ydynt yn gytûn. Yn wir, mae'r Arglwydd Richard wedi bod yn feirniadol o natur ansefydlog y setliad yn y Mesur hwn, ac nid yw'n anghywir; mae'n setliad bregus, a gwyddom hynny oddi wrth awgrym yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'n defnyddio ei bwerau i roi feto yn achos rhai Gorchmyntion drafft yn y Cyfrin Gyngor. Gallaf, felly, ddeall pam yr oedd y Prif Weinidog yn llai gwresog, llai gwenieithus a llai brwd ynglŷn â'r weithdrefn hon—efallai y bydd yn barod i ymhelaethu pam yr oedd o blaidd adroddiad yr Arglwydd Richard ar un adeg, pob gair a chymal ohono, ond ymddengys nad yw hynny'n wir bellach.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi ei gwneud yn glir ar sawl achlysur fod popeth sydd yn argymhellion yr Arglwydd Richard wedi ei

contained in the Government of Wales Act 2006—it merely has an additional, intermediate step in the form of the Orders in Council procedure, which acts as a halfway house. That was not in the Lord Richard report, but Lord Richard welcomed it, I believe, when he supported it during the Bill's passage through the House of Lords. Nothing has been left out, but an extra element has been put in.

gynnwys yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006—dim ond bod ynddi un cam ychwanegol, canolraddol ar ffurf gweithdrefn y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, sy'n gweithredu fel man hanner ffordd. Nid oedd hynny yn adroddiad yr Arglwydd Richard, ond fe'i croesawyd gan yr Arglwydd Richard, fe gredaf, wrth iddo ei gefnogi yn ystod taith y Mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi. Nid oes dim wedi ei hepgor, ond mae elfen ychwanegol wedi ei hychwanegu.

**Nick Bourne:** Let me correct you, because things have been left out. First, in his article in the *Bevan Foundation Review*, the Secretary of State talks about moving to legislative powers without a referendum—that is left out. He also talks about the electoral proposals, and they are certainly not the electoral proposals in the legislation. I hate to contradict you, but you are clearly wrong. I remember well what you said, and I notice that you did not distance yourself from your remarks. However, you now indicate that you have moved, and that you said something quite different when the report was published. Lord Richard clearly feels that that report is the way forward—and bear in mind that, as a Labour peer, he was Labour leader in the Lords, so it took some courage to criticise what his own party has done.

**Nick Bourne:** Gadewch imi eich cywiro, oherwydd y mae pethau wedi eu hepgor. Yn gyntaf, yn ei erthygl yn y *Bevan Foundation Review*, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn sôn am symud at bwerau deddfu heb gynnal refferendwm—mae hynny wedi ei hepgor. Mae'n sôn hefyd am y cynigion etholiadol, ac yn sicr nid dyna'r cynigion etholiadol a geir yn y ddeddfwriaeth. Mae'n gas gennyf eich croes-ddweud, ond mae'n amlwg eich bod yn anghywir. Cofiaf yn dda yr hyn a ddywedasoch, a sylwaf nad ydych wedi gwadu eich sylwadau. Fodd bynnag, yr ydych yn awgrymu yn awr fod eich safbwyt wedi newid, a'ch bod wedi dweud rhywbeth tra gwahanol pan gyhoeddwyd yr adroddiad. Mae'r Arglwydd Richard yn amlwg yn teimlo mai'r adroddiad hwnnw yw'r ffordd ymlaen—a chofiwch ei fod, fel arglwydd Llafur, yn arweinydd y Blaid Lafur yn Nhŷ'r Arglwyddi, felly yr oedd angen cryn ddewrder i feirniadu'r hyn y mae ei blaid ei hun wedi ei wneud.

Turning to the Queen's Speech itself, I will deal with some of the omissions from it. First, with regard to making St David's Day a public holiday, all Members are committed to that, either exchanging it for an existing public holiday or as a new one should there be new holidays throughout the United Kingdom. This matter has dropped off the radar entirely, and it is not, of course, something that can be dealt with in draft Orders in Council, because it is without the devolution settlement. That is a sad omission.

Gan droi at Araith y Frenhines ei hun, yr wyf am ymdrin â rhai o'r pethau nad oeddent ynddi. Yn gyntaf, o ran gwneud Dydd Gŵyl Dewi'n wyl gyhoeddus, mae pob Aelod wedi ymrwymo i hynny, un ai drwy ei chyfniewid am un o'r gwyliau cyhoeddus cyfredol neu fel un newydd pe ceid gwyliau newydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r mater hwn wedi colli ei le'n llwyr, ac nid yw, wrth gwrs, yn rhywbeth y gellir ymdrin ag ef mewn Gorchmynion drafat yn y Cyfrin Gyngor, oherwydd ei fod y tu allan i'r setliad datganoli. Mae'n drueni bod hynny wedi ei hepgor.

Turning to two of the more important Bills that I have mentioned previously, the First Minister, perhaps making a Freudian slip, said he could not think of anything less

Gan droi at ddu o'r Mesurau pwysicaf yr wyf wedi eu crybwyl eisoes, dywedodd y Prif Weinidog, gan wneud llithriad Freudaidd o bosibl, na allai feddwl am ddim byd llai

important than the Climate Change Bill—I think that he meant ‘more important’. Having said that, I have drawn the First Minister’s attention to the deficiencies in the Bill in questions, but he appears not to see the need for an independent body to monitor climate change. There is a need for such a body to do that monitoring. He does not recognise the need for clear annual targets either, but there is such a need. Our record is not convincing and, indeed, he did not know what our record is; we have gone backwards since 1997. We need annual targets and we need an independent body to monitor them.

On mental health, we on this side of the Chamber are keen on that, and we look forward to a Welsh mental health Bill—at least, I certainly do—to shift the emphasis away from criminal law towards therapy, but that is not what the measure in this Queen’s Speech does.

Above all, this Queen’s Speech represents the fag-end of Tony Blair’s time as Prime Minister. There is no doubt that this is his last Queen’s Speech—I see Members on the Government benches shaking their heads; perhaps they want him to carry on, but he has indicated that this is his last Queen’s Speech. It represents a massive diet of more law and order measures when we have already had as many as 60 in his time as Prime Minister, which have not answered the challenges on the law-and-order front, and he has not measured up to some of the things that he promised in opposition. The Governments at Westminster and Cardiff are running out of steam, running out of ideas and, as I said, running out of time.

4.10 p.m.

**Jenny Randerson:** I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams: amendment 4: add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press the UK Government to take action to reform*

pwysig na’r Mesur Newid Hinsawdd—credaf mai ‘mwy pwysig’ yr oedd yn ei olygu. Wedi dweud hynny, yr wyf wedi tynnu sylw’r Prif Weinidog at y diffygion yn y Mesur yn ystod cwestiynau’r Prif Weinidog, ond ymddengys nad yw’n gweld yr angen am gorff annibynnol i fonitro newid yn yr hinsawdd. Mae angen corff o’r fath i wneud y gwaith monitro hwnnw. Nid yw’n cydnabod yr angen am dargedau blynnyddol pendant ychwaith, ond mae angen amdanynt. Nid yw ein record yn un sy’n argyhoeddi ac, yn wir, ni wyddai beth oedd ein record; yr ydym wedi mynd yn ôl ers 1997. Mae angen inni gael targedau blynnyddol ac mae angen inni gael corff annibynnol i’w monitro.

O ran iechyd meddwl, yr ydym ni ar yr ochr hon i’r Siambra yn frwd ynglŷn â hynny, ac edrychwn ymlaen at Fesur iechyd meddwl i Gymru—o leiaf, yr wyf fi yn sicr yn edrych ymlaen—er mwyn symud y pwyslais oddi ar gyfraith droseddol a thuag at therapi, ond nid dyna’r hyn y mae’r mesur yn Araith y Frenhines yn ei wneud.

Yn fwy na dim, mae’r Araith hon gan y Frenhines yn nodi diwedd cyfnod Tony Blair fel Prif Weinidog. Nid oes amheuaeth nad hon yw ei arraith olaf—gwelaf Aelodau ar feinciau’r Llywodraeth yn ysgwyd eu pennau; efallai eu bod am ei weld yn dal ati, ond mae wedi dweud mai hon fydd yr Araith olaf gan y Frenhines iddo fel Prif Weinidog. Mae’n golygu ychwaneg eto o fesurau cyfraith a threfn a ninnau eisoes wedi cael cynifer â 60 yn ystod ei gyfnod fel Prif Weinidog, 60 o fesurau nad ydynt wedi llwyddo i fynd i’r afael â phroblemau cyfraith a threfn, ac nid yw ychwaith wedi cyflawni rhai o’r pethau a addawodd pan oedd yn yr wrthblaid. Mae Llywodraethau San Steffan a Chaerdydd yn colli stêm, yn mynd yn brin o syniadau ac, fel y dywedais, mae eu hamser yn dod i ben.

**Jenny Randerson:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams: gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwysio ar Lywodraeth y DU i weithredu i ddiwygio*

*the Barnett Formula.*

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

*regrets the continued failure to introduce a Bill analogous to the Scotland Act 1998 to finally give the Assembly the same law-making powers as Scotland, instead of the halfway house of the Government of Wales Act 2006.*

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

*calls for the Assembly Government to press for an Energy (Wales) Bill to devolve decisions on building regulations and energy consents to the National Assembly so that the Welsh Assembly Government could set accurate annual carbon emissions reductions targets, ambitious targets for renewable energy generation, boost the green economy and set out a meaningful green jobs strategy.*

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press for the devolution to the Assembly of responsibility for energy consents for proposed generating stations which are in excess of 50 MW.*

I propose amendment 8. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the Queen's Speech does not include a Freedom Bill to safeguard civil rights from overweening Government interference.*

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to press for the devolution to the Assembly of responsibility for police services in Wales.*

I propose amendment 10. Add a new point at the end of the motion:

*Fformiwlw Barnett.*

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y methiant parhaus i gyflwyno Mesur sy'n cyfateb i Ddeddf yr Alban 1998 i roi, o'r diwedd, i'r Cynulliad yr un pwerau deddfu ag sydd gan yr Alban, yn hytrach na'r cyfaddawd a geir yn Nedd Llywodraeth Cymru 2006.*

Cynigiaf welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwysom am Fesur Ynni (Cymru) i ddatganoli penderfyniadau ynghylch rheoliadau adeiladu a chaniatáu datblygiadau ynni i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru allu gosod targedau blynnyddol cywir ar gyfer gostwng gollyngiadau carbon, gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, rhoi hwb i'r economi werdd a phennu strategaeth swyddi gwyrdd ystyrlon.*

Cynigiaf welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwysom am ddatganoli i'r Cynulliad gyfrifoldeb dros roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ynni arfaethedig sy'n cynhyrchu dros 50 MW.*

Cynigiaf welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith nad yw Araith y Frenhines yn cynnwys Mesur Rhyddid i ddiogelu hawliau sifil rhag ymyrraeth drahaus gan Lywodraeth.*

Cynigiaf welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i bwysom am ddatganoli i'r Cynulliad gyfrifoldeb dros wasanaethau'r heddlu yng Nghymru.*

Cynigiaf welliant 10. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*believes that consideration should be given to extending TV coverage post digital switchover to those who currently do not have access.*

I propose amendment 11. Add a new point at the end of the motion:

*regrets the focus on compulsion and containment in the Mental Health Bill, which could lead to people with mental health problems being detained for reasons other than treatment; and believes that any new laws must be focused on patient autonomy and access to care, with compulsory treatment used only as a last resort.*

The Welsh Liberal Democrats wish to concentrate on what could have been if we had had a more imaginative Government. I shared some of the optimism on that May morning in 1997, and for the first year the Labour Government lived up to that optimism—we had a devolution referendum and proportional representation for the European Parliament, and so on. However, we now have a Government that will be remembered for the invasion of Iraq, the *Daily-Mail*-approach to law and order and mental health problems, and the half-baked concessions on devolution issues.

**David Davies** rose—

**The Presiding Officer:** Order. She has only just stood up.

**Jenny Randerson:** I will give way.

**David Davies:** I am grateful to the Member for giving way, but is she not paying the Labour Government a compliment by talking about a *Daily-Mail*-approach to law and order? That is exactly what we want and is exactly what is lacking from this Government. [Laughter.]

**Jenny Randerson:** I am pleased that you have showed your true Tory colours, David; it is refreshing to hear you reveal what you are really about.

*yn credu y dylid ystyried estyn darpariaeth teledu ar ôl y newid i ddigidol i'r rhai nad ydynt yn cael darpariaeth ar hyn o bryd.*

Cynigiaf welliant 11. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y ffaith bod y Mesur Iechyd Meddwl yn canolbwytio ar orfodaeth a chaethiwo, a allai arwain at gadw pobl â phroblemau iechyd meddwl yn gaeth am resymau heblaw triniaeth; ac yn credu bod yn rhaid i unrhyw gyfreithiau newydd ganolbwytio ar ymreolaeth y claf a mynediad at ofal, gyda thriniaeth orfodol ond yn cael ei defnyddio fel opsiwn olaf posibl.*

Mae Democraidaid Rhyddfrydol Cymru am ganolbwytio ar yr hyn y gellid bod wedi ei gyflawni pe bai gennym Lywodraeth gydag ychydig mwy o ddychymyg. Yr oeddwn yn rhannu peth o'r gobaith y bore hwnnw o Fai yn 1997, ac yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oedd y Llywodraeth Lafur yn cyflawnhau'r optimistiaeth honno—cawson refferendwm ar ddatganoli a chynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer y Senedd Ewropeaidd, ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae gennym bellach Lywodraeth a fydd yn cael ei chofio am ymosod ar Irac, polisiau cyfraith a threfn ac iechyd meddwl sy'n seiliedig ar agwedd y *Daily Mail*, a'r consesiynau gwan ar faterion datganoli.

**David Davies** a gododd—

**Y Llywydd:** Trefn. Newydd godi y mae hi.

**Jenny Randerson:** Ildiaf.

**David Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ildio, ond onid yw hi'n talu teyrnged i'r Llywodraeth Lafur drwy sôn am bolisiau cyfraith a threfn sy'n seiliedig ar agwedd y *Daily Mail*? Dyna'n union yr ydym am ei weld a dyna lle y mae'r Llywodraeth hon yn methu. [Chwerthin.]

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch eich bod wedi dangos eich gwir liwiau Torïaidd, David; mae'n braff eich clywed yn datgelu cymaint amdanoch eich hun.

We call in amendment 4 for a reform of the Barnett formula, because it is high time that Wales had its fair and rightful slice of the cake. We have a higher than average number of elderly people who, generally, have greater health needs, which means greater costs. I predict that even Labour Members in the next Assembly will suddenly find themselves converted to the need for reform of the Barnett formula. During the past few years we have lived in a period of expanding public spending, but that will not continue. I am sure that Labour Members will see the light in the coming years. In the meantime, the Liberal Democrats will keep reminding them of what we are missing out on. If you look at the record in Scotland, it gives you a clear idea of the improvements that are possible in services when you get fair and reasonable funding.

We also call for a different approach to mental health. The UK Government has faffed around for years on the issue of mental health. Meanwhile, once again Scotland has taken a lead with an Act that has been widely recommended. The UK Government's proposals on mental health in the Queen's Speech should not be welcomed in Wales. People with mental illness—one in four adults at some time or other during their lives—have the same rights as any other patient to have control over their healthcare and to be treated with dignity. They have the right to be approached and treated in the spirit of tolerance, understanding, respect and equality. Instead, we have a Government that responds with compulsory treatment when there is still no useful treatment for people with particular disorders, without the right to prompt treatment for the majority of people where it would make a difference to their quality of life.

We continue to regret that Wales is treated as a second-class nation, not yet worthy of having the same powers over its affairs as Scotland has. I heard the Secretary of State's comments, but there are still massive questions to be answered. What is the purpose of full parliamentary scrutiny of Orders in Council proposals if we are going

Yr ydym yn galw yng ngwelliant 4 am ddiwygio fformiwla Barnett, oherwydd y mae'n hen bryd i Gymru gael ei chyfran deg a haeddiannol o'r gacen. Mae gennym nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn sydd, ar y cyfan, â mwy o anghenion iechyd, sy'n golygu costau uwch. Yr wyf yn rhagweld y bydd hyd yn oed yr Aelodau Llafur yn y Cynulliad nesaf yn sydyn ddigon yn gweld yr angen i ddiwygio fformiwla Barnett. Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yr ydym wedi byw drwy gyfnod o gynnydd mewn gwariant cyhoeddus, ond ni fydd hyn yn parhau. Yr wyf yn siŵr y bydd Aelodau Llafur yn gweld y goleuni yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Yn y cyfamser, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dal ati i'w hatgoffa o'r hyn yr ydym yn ei golli. Os edrychwr ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, cewch syniad da o'r gwelliannau sy'n bosibl i wasanaethau os oes modd cael arian teg a rhesymol.

Yr ydym yn galw hefyd am ddull gwahanol o ymdrin ag iechyd meddwl. Mae Llywodraeth y DU wedi chwarae o gwmpas ers blynnyddoedd â mater iechyd meddwl. Yn y cyfamser, mae'r Alban unwaith eto wedi rhoi arweiniad gyda Deddf sydd wedi ei chymeradwyo'n eang. Ni ddylid rhoi croeso yng Nghymru i gynigion Llywodraeth y DU ar iechyd meddwl a geir yn Araith y Frenhines. Mae gan bobl sydd â salwch meddwl—un o bob pedwar oedolyn ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod eu hoes—yr un hawliau ag unrhyw glaf arall i fod â rheolaeth dros eu gofal iechyd eu hunain ac i gael eu trin gydag urddas. Mae ganddynt hawl i gael eu trin mewn ysbryd o oddefgarwch, dealltwriaeth, parch a chydraddoldeb. Yn lle hynny, mae gennym Lywodraeth sy'n ymateb gyda thriniaeth orfodol er nad oes triniaeth ddefnyddiol ar gael o hyd i bobl sydd â rhai anhwylderau, a hynny heb yr hawl i gael triniaeth brydlon i'r rhan fwyaf o bobl pryd y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd eu bywyd.

Yr ydym yn dal i resynu bod Cymru'n cael ei thrin fel gwlaid eilradd, nad yw'n deilwng eto o gael yr un pwerau â'r Alban i drafod ei materion ei hun. Clywais sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol, ond mae cwestiynau mawr yn aros i'w hateb o hyd. Beth yw pwrrpas craffu seneddol llawn ar gynigion ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor os

to develop a convention of allowing Assembly Orders in Councils to go through once we have voted for them? I accept what the Secretary of State says that we will develop this convention, if it is in his power, but why is Parliament trying to second guess what the Assembly has already fully scrutinised? I can assure you that we are building in full and thorough scrutiny and consultation processes into the Assembly's legislative procedures. As Chair of the Committee on Standing Orders, I also assure you that we are optimistic that you will not need to interfere in our business and rewrite our Standing Orders.

However, as someone that knows a fair amount—probably too much—about the Government of Wales Act 2006, it is not a good Act. It is a fudge and, at the same time, it is overly prescriptive in trying to tell us exactly how we should run our affairs. As a result, it has a lot of unintended consequences and conundrums, and we are spending a lot of time trying to work out what the legislators wanted to happen.

I was listening to the Queen's Speech, and it felt like a scene from *Groundhog Day*; yet another Queen's Speech and yet another Criminal Justice Bill. We have a Westminster Government that is addicted to legislation. It is bringing in new legislation even before it has had the time to roll out the last lot. As Welsh Liberal Democrats, we wish that the UK Government had not proposed yet another Criminal Justice Bill, but had used the opportunity to introduce a freedom Bill to protect citizens from overactive Government and, above all, to introduce a Bill to allow the Assembly to have control over its police force in Wales, following the fiasco that we suffered in the last year through the Government's attempts to control our police force.

**Lynne Neagle:** I welcome the Secretary of State to the National Assembly and join colleagues in wishing his wife a speedy recovery.

ydym yn mynd i ddatblygu confensiwn sy'n caniatáu i Orchmyntion yn y Cyfrin Gyngor gan y Cynulliad fynd drwodd wedi i ni bleidleisio drostynt? Yr wyf yn derbyn yr hyn a ddywed yr Ysgrifennydd Gwladol y byddwn yn datblygu'r confensiwn hwn, os yw'n dod o fewn ei bŵer, ond pam mae'r Senedd yn ceisio rhagweld yr hyn y mae'r Cynulliad wedi craffu arno'n llawn eisoes? Gallaf eich sicrhau ein bod yn ymgorffori prosesau craffu ac ymgynghori llawn a thrylwyr yng ngweithdrefnau deddfu'r Cynulliad. Fel Cadeirydd y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog, gallaf eich sicrhau hefyd ein bod yn obeithiol na fydd angen ichi ymyrryd yn ein busnes ac ailsgrifennu ein Rheolau Sefydlog.

Fodd bynnag, fel rhywun sy'n gwybod cryn dipyn—gormod o bosibl—am Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'n Ddeddf dda. Mae'n garbwl ac, yr un pryd, mae'n cyfarwyddo gormod o ran y ffordd y mae'n ceisio dweud wrthym sut yn union y dylem wneud ein gwaith. O ganlyniad, mae'n cynnwys llawer o ganlyniadau a phroblemau anfwriadol, ac yr ydym yn treulio llawer o amser yn ceisio penderfynu beth yr oedd ar y deddfwyr eisiau ei weld yn digwydd.

Yr oeddwn yn gwrando ar Araith y Frenhines, ac yr oedd yn teimlo fel golygfa o *Groundhog Day*; Araith arall eto gan y Frenhines a Mesur Cyflawnder Troseddol arall eto. Mae gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n gaeth i ddeddfwriaeth. Mae'n cyflwyno deddfwriaeth newydd cyn iddi hyd yn oed gael amser i weithredu'r rhai blaenorol. Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, byddai'n dda gennym pe na bai Llywodraeth y DU wedi cynnig Mesur Cyflawnder Troseddol arall eto, a phe bai wedi defnyddio'r cyfle, yn hytrach, i gyflwyno Mesur rhyddid i amddiffyn dinasyddion rhag Llywodraeth orbrysur ac, yn anad dim, i gyflwyno Mesur i ganiatáu i'r Cynulliad gael rheolaeth dros ei heddlu yng Nghymru, wedi'r ffiasgo a welsom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gydag ymdrechion y Llywodraeth i reoli'n heddlu.

**Lynne Neagle:** Yr wyf yn croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac fel fy nghyd-Aelodau yn dymuno gwellhad buan i'w wraig.

Time is short in this debate as we are duty-bound to discuss the barmy raft of amendments tabled by this intriguing coalition of libertarians, reactionaries, Thatcherites and Cameron clones. I will, therefore, restrict my contribution to the issue of security for individuals in their homes and communities. That issue underpins this year's Queen's Speech, but it also dominates the postbags and surgeries of most constituency AMs. We can all point to anecdotal evidence of small numbers of criminals blighting the lives of a whole community, despite the progress made over recent years. Labour's approach to this has brought huge dividends: record police numbers and £20 million more in the Welsh crime fighting fund than our manifesto commitment of £100 million. The chances of being a victim of crime are at their lowest since 1981, and the public recognises that, by putting security at the heart of what we do as a Government, we are the only party to be trusted on this issue.

However, we recognise that we can do much more and that much petty crime and anti-social behaviour goes unreported. We also recognise that the loutish behaviour of a small minority is being allowed to destroy the quality of life for the majority of people in some local communities, who work hard and play by the rules. That is why I welcome in this Queen's Speech the Government's commitment to alter the balance of the criminal justice system in favour of the victim. That direction of travel is the polar opposite to that of the opposition parties. The opposition continually fails to grasp the nettle on anti-social behaviour; it all too often places the apparent rights of the perpetrators above those of the victim. Those views are today represented by the Liberal Democrats' cry for more freedom, and, nationally, by the Tories' rush to hug hoodies. The approach of the Plaid Cymru spokesperson on social justice issues has led most onlookers to wonder whether she has ever wondered what it is like to be a victim of crime.

Nid oes llawer o amser ar gyfer y ddadl hon gan ein bod yn gorfol trafod y rhestr hurt o welliannau a gyflwynwyd gan y glymblaid ddiddorol hon o ryddfrydolwyr, adweithwyr, Thatcherwyr a chlonau Cameron. Yr wyf, felly, am gyfyngu fy nghyfraniad i fater diogelwch unigolion yn eu cartrefi a'u cymunedau. Y mater hwn yw sail Araith y Frenhines eleni, ond mae hefyd yn fater sy'n codi'n aml iawn yn llythyrau ac yng nghyngorfeidd y rhan fwyaf o'r Aelodau Cynulliad etholaethol. Gall pob un ohonom gyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd o niferoedd bach o droseddwyr yn amharu ar fywydau cymuned gyfan, er gwaetha'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae dull Llafur o ddelio â hyn wedi talu ar ei ganfed: mwy o heddwreision nag erioed o'r blaen ac £20 miliwn yn fwy yng nghronfa ymladd troseddau Cymru na'r addewid o £100 miliwn yn ein maniffesto. Mae'r siawns o ddioddef trosedd yn llai nag y mae wedi bod ers 1981, ac mae'r cyhoedd yn cydnabod, wrth inni wneud diogelwch yn rhan ganolog o'n gwaith fel Llywodraeth, mai ni yw'r unig blaid y gellir ymddiried ynndi ar y mater hwn.

Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod bod llawer mwy y gallwn ei wneud a bod llawer o fân droseddau ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt yn cael eu dwyn i sylw'r heddlu. Yr ydym hefyd yn cydnabod bod ymddygiad llabystaidd lleiafrif bach yn gallu difetha ansawdd bywyd mwyafri y bobl mewn rhai cymunedau, sy'n gweithio'n galed ac yn cadw at y rheolau. Dyna pam yr wyf yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth yn yr Araith hon gan y Frenhines i newid cydbwysedd y system cyfiawnder troseddol o blaid y dioddefwr. Mae hyn yn gwbl groes i safbwyt y gwrthbleidiau. Mae'r gwrthbleidiau'n methu'n glir â mynd i'r afael â'r broblem yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn rhy aml o'r hanner maent yn rhoi hawliau ymddangosiadol y troseddwyr o flaen rhai'r dioddefwr. Gwelir y safbwytiau hynny heddiw yng nghri'r Democratiaid Rhyddfrydol am fwy o ryddid, ac, yn genedlaethol, wrth i'r Torïaid fynd ati i gofleidio'r 'hwdis'. Mae agwedd lladmerydd Plaid Cymru tuag at faterion cyfiawnder

cymdeithasol wedi gwneud i'r rhan fwyaf o'r bobl o'r tu allan amau a yw hi erioed wedi ystyried sut beth yw dioddef trosedd.

**Leanne Wood:** Tony Blair has created over 1,000 new offences since 1997 and our prison system is now full. Do you really think that that is the way forward on this?

**David Davies:** Yes.

**Leanne Wood:** I know that you do; they agree with you. [Laughter.]

**Lynne Neagle:** Crime is dropping under Labour and I am proud to be a representative of a party that is taking crime and the impact on local communities seriously, unlike Plaid Cymru, which would always be soft on crime. Labour, however, has kept true to the mantra of 'Tough on crime, tough on the causes of crime'. The new proposals on parenting programmes and one-to-one support for disadvantaged families are welcome advances, and I look forward to similar programmes being unveiled in Wales. Along with the recent announcement on extending the community courts pilot scheme, new sentencing and parole arrangements will increase community involvement and confidence in making our streets safer. The partnerships and communities together initiative has brought genuine community involvement in local policing. Allowing a community to set its own policing priorities is devolution at its best.

**Eleanor Burnham:** It is interesting to hear you discuss all this but, recently, the Home Secretary was apparently trying to agree with Ian Lucas on some strange point to do with community beat officers in Wrexham, who are far more effective and far better value, and yet the Home Secretary was contradicting his own policy.

4.20 p.m.

**Lynne Neagle:** That was so unclear, Eleanor; I have no idea how you expect me to respond.

**Leanne Wood:** Mae Tony Blair wedi creu dros 1,000 o droseddau newydd ers 1997 ac mae ein carchardai bellach yn llawn. A ydych yn meddwl mewn gwirionedd mai dyna'r ffordd ymlaen ar y mater hwn?

**David Davies:** Ydwyt.

**Leanne Wood:** Gwn eich bod; maent yn cytuno â chi. [Chwerthin.]

**Lynne Neagle:** Mae nifer y troseddau'n gostwng dan Lafur ac yr wyf yn falch o fod yn gynrychiolydd plaid sy'n cymryd troseddau a'r effaith ar gymunedau lleol o ddifrif, yn wahanol i Blaid Cymru, a fyddai bob amser yn rhy gymodlon tuag at droseddu. Mae Llafur, fodd bynnag, wedi cadw at y mantra 'Yn llym ar droseddu, yn llym ar achosion troseddu'. Mae'r cynigion newydd ar gyfer rhagleni magu plant a chymorth fesul un i deuluoedd sydd dan anfantais yn ddatblygiadau sydd i'w croesawu, ac edrychaf ymlaen at weld rhagleni tebyg yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru. Ynghyd â'r cyhoeddiad diweddar ar ymestyn cynllun peilot y llysoedd cymunedol, bydd trefniadau dedfrydu a pharol newydd yn rhoi mwy o ran i'r gymuned ac yn rhoi mwy o hyder iddi yn y gwaith o wneud ein strydoedd yn fwy diogel. Mae'r fenter partneriaethau a chymunedau gyda'i gilydd wedi peri bod y gymuned yn cael ei chynnwys o ddifrif mewn plismona lleol. Datganoli ar ei orau yw caniatáu i gymuned bennu ei blaenoriaethau plismona ei hun.

**Eleanor Burnham:** Mae'n ddiddorol eich clywed yn trafod hyn oll ond, yn ddiweddar, yr oedd yr Ysgrifennydd Cartref yn ôl pob golwg yn ceisio cytuno ag Ian Lucas ar ryw bwynt rhyfedd yn ymwnaed â swyddogion rhawd y gymuned yn Wrecsam, sy'n llawer mwy effeithiol ac yn cynnig llawer gwell gwerth, ac eto yr oedd yr Ysgrifennydd Cartref yn dadlau'n groes i'w bolisi ei hun.

**Lynne Neagle:** Yr oedd hynny mor aneglur, Eleanor; nid oes gennyl ddim syniad sut yr

I could not deduce at all what your point was in that intervention. Therefore, I will have to pass on that, but I will say that I am not about to take any lectures on tackling crime from the Liberals.

The newly announced extension of powers to deal with anti-social behaviour will also be welcomed by people in blighted town centres, if not by the Tories and Liberals. Anti-social behaviour orders are not the only answer to gang violence and vandalism, but they form a vital part of our armoury and any rejection of these measures is a rejection of our poorer communities, which too often bear the brunt of this kind of behaviour.

We are the only party that will effectively take on crime in Wales because we are the only party that knows that this is a social justice and equal opportunities issue. We recognise that the weak and the vulnerable suffer most in the insecure community, and that our goal to end child poverty will only succeed if we stamp out the influence and temptations of gangs, drugs and crimes on all of our streets. I, therefore, welcome the vision presented by the Secretary of State here today and I look forward to working towards this ambition to secure communities, as expressed in the Queen's Speech.

**Michael German:** Point of order. It has been part of the order in the Chamber that Members of the Assembly should refer to political parties by their proper names. Could you tell me whether that is still the case?

**The Presiding Officer:** Yes, that has always been the case. It was remiss of me not to call Lynne Neagle to task for not referring to the Welsh Liberal Democrats as the Welsh Liberal Democrats. I am sure that she will do so in future.

**David Davies:** Further to that point order, I therefore ask to be referred to as a Conservative and Unionist.

ydych yn disgwyl imi ymateb. Ni allwn ddeall o gwbl beth oedd pwrrpas yr ymyriad hwnnw. Felly, bydd rhaid imi adael iddo, ond yr wyf yn dweud wrthych nad wyf am wrando ar ddarllith ar atal troseddau gan y Rhyddfrydwyr.

Bydd y cyhoeddiad diweddar ynglŷn â chynyddu'r pwerau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei groesawu hefyd gan bobl sy'n dioddef ymddygiad o'r fath yng nghanol trefi, os nad gan y Torïaid a'r Rhyddfrydwyr. Nid gorchmynion gwrthgymdeithasol yw'r unig ateb i fandaliaeth a thrais gangiau, ond maent yn rhan hanfodol o'n harfogaeth a thrwy wrthod y mesurau hyn yr ydych yn ymrthod â'n cymunedau tlawd, sy'n rhy aml o'r hanner yn dioddef y math hwn o ymddygiad.

Ni yw'r unig blaid a fydd yn mynd i'r afael o ddifrif â throsedu yng Nghymru gan mai ni yw'r unig blaid sy'n gwybod bod hwn yn fater sy'n ymwneud â chyflawnder cymdeithasol a chyflawnder cyfartal. Yr ydym yn cydnabod mai'r gwan a'r diymgeledd sy'n dioddef fwyaf yn y gymuned annio gel, ac na fydd ein nod o roi terfyn ar dloidi plant yn llwyddo oni bai ein bod yn cael gwared ar ddylanwad a themtasiynau gangiau, cyffuriau a throseddau ar bob un o'n strydoedd. Yr wyf, felly, yn croesawu'r weledigaeth a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yma heddiw ac edrychaf ymlaen at weithio tuag at yr uchelgais hwn o wneud cymunedau'n ddiogel, fel y nodwyd yn Araith y Frenhines.

**Michael German:** Pwynt o drefn. Mae wedi bod yn rhan o'r drefn yn y Siambra y dylai Aelodau'r Cynulliad gyfeirio at bleidiau gwleidyddol wrth eu henwau priodol. A allwch ddweud wrthyf a yw hynny'n dal i fod yn wir?

**Y Llywydd:** Ie, dyna'r drefn o hyd. Dylwn fod wedi ceryddu Lynne Neagle am beidio â chyfeirio at Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Yr wyf yn siŵr y bydd yn gwneud hynny yn y dyfodol.

**David Davies:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, gofynnaf felly ichi gyfeirio ataf fel Ceidwadwr ac Unoliaethwr.

**The Presiding Officer:** Order. I do not want a public debate on this. Members will remember why we have these rules. Would you care to be called ‘a Welsh Conservative and Unionist’?

**David Davies:** That would suit me fine.

**The Presiding Officer:** In which case, I shall endeavour to do so at all times.

**Carl Sargeant:** Further to that point of order, it is clear that Mike German did not understand Lynne Neagle’s contribution and her reference to the Liberal Democrats, but everyone else in the Chamber knew what she meant.

**The Presiding Officer:** Order. I do not want a disagreement with any Members today because we all seem to be in quite good humour and I do not want to spoil that. However, I will always endeavour to ensure that Members and political groups, as always, are addressed by their description of choice and usually by the description that is registered by the Electoral Commission. I hope that that is helpful, before I dig myself further into any holes.

**Helen Mary Jones:** This is a very disappointing Queen’s Speech for Wales and I want to address one particular measure, but, before I do so, I feel that I must respond to some of Lynne Neagle’s points. It is true that, in some communities, thank goodness, crime is falling, although there are issues about the reporting of crime. However, it is dangerous to use the kind of rhetoric that leads to an increased fear of crime. One of the biggest problems that I face in the communities that I represent is that of older people in particular being terrified of their younger neighbours when they have absolutely no reason to be, namely when offences have not been committed and when there is not even the kind of low-level problems—and I agree with Lynne Neagle—that seriously affect some of our communities.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes arnaf eisiau dadl gyhoeddus ar hyn. Bydd yr Aelodau’n cofio pam mae'r rheolau hyn gennym. A fydddech yn hoffi cael eich galw'n aelod o blaid ‘Geidwadol ac Unoliaethol Cymru’?

**David Davies:** Byddai hynny'n iawn gennyf fi.

**Y Llywydd:** Gan hynny, ceisiaf wneud hynny bob amser.

**Carl Sargeant:** Ymhellach i'r pwyt hwnnw o drefn, mae'n amlwg na ddealloedd Mike German gyfraniad Lynne Neagle a'i chyfeiriad at y Democratiaid Rhyddfrydol, ond yr oedd pawb arall yn y Siambra yn gwybod beth yr oedd yn ei olygu.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes arnaf eisiau anghytuno â dim un o'r Aelodau heddiw oherwydd y mae pob un ohonom i'w weld mewn hwyliau pur dda ac nid wyf am ddifetha hynny. Fodd bynnag, byddaf bob amser yn ceisio sicrhau bod Aelodau a grwpiau gwleidyddol, fel sy'n digwydd bob amser, yn cael eu cyfarch wrth y disgrifiad y maent wedi'i ddewis ac fel rheol wrth y disgrifiad sydd wedi ei gofrestru gan y Comisiwn Etholiadol. Yr wyf yn gobeithio bod hynny o gymorth, cyn imi i mi fynd i ragor o drybini.

**Helen Mary Jones:** Mae'r Araith hon gan y Frenhines yn un siomedig iawn i Gymru a hoffwn roi sylw i un mesur penodol, ond, cyn imi wneud hynny, teimlaf fod rhaid imi ymateb i rai o bwyntiau Lynne Neagle. Mae'n wir bod nifer y troseddau'n gostwng mewn rhai cymunedau, diolch byth, er bod problemau'n ymwneud â chysylltu â'r heddlu i roi gwybod am droseddau. Fodd bynnag, mae'n beryglus defnyddio'r math o rethreg sy'n arwain at fwy o ofn troseddau. Un o'r problemau mwyaf yr wyf yn eu hwynebu yn y cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli yw bod gan bobl hŷn yn fwyaf arbennig ofn eu cymdogion iau er nad oes ganddynt ddim rheswm dros eu hofni, hynny yw pan nad oes troseddau wedi eu cyflawni a phan nad oes sôn am hyd yn oed y math o problemau lefel isel—ac yr wyf yn cytuno â Lynne Neagle—sy'n cael effaith ddifrifol ar rai o'n cymunedau.

It is my fear that the kind of rhetoric that we have just heard from Lynne Neagle and the kind of obsession with passing criminal justice Acts instead of dealing with the causes of offending—

**Lynne Neagle:** Will you give way?

**Helen Mary Jones:** In a moment.

I am concerned that that kind of obsession feeds the fear of crime, which, in some of our communities, is having as harmful an effect as the anti-social behaviour that Lynne Neagle rightly describes.

**Lynne Neagle:** If, as you say, you hear complaints similar to those that I get from older people and a range of other people in the community, who are deeply worried about anti-social behaviour on their doorstep, do you think that it helps to ignore the problem? Is it not better to be here, raising the problem, discussing the issues and, like the Labour Government, addressing them?

**Helen Mary Jones:** I would not, for one moment, say that the problem should be ignored, but as someone who has worked professionally in this field for many years, I know that the best way to prevent young people from offending is to give them alternatives and a positive future, to get them involved in the education system and not to criminalise them for activities that our parents' generation would have considered to be mischief. There is no way one could say that those concerns are not real, but we have to paint an accurate picture and deal with the real problem. The Government that you represent talked about being tough on crime and tough on the causes of crime; it has been very tough on crime in terms of passing endless legislation, but not nearly tough enough on the causes of crime. If we look at the percentage of looked-after children who end up in custody—children who are supposed to be the responsibility of us all—do not tell me that your Government has been successful in dealing with the causes of crime, because it has not. Those young people in the custody system are just as much

Yr hyn sydd arnaf ei ofn yw y bydd y math o rethreg yr ydym newydd ei glywed gan Lynne Neagle a'r math o obsesiwn â gwneud Deddfau cyflawnder troseddol yn hytrach na delio â'r hyn sy'n achosi i bobl droseddu—

**Lynne Neagle:** A wnewch ildio?

**Helen Mary Jones:** Mewn munud.

Yr wyf yn poeni bod y math hwn o obsesiwn yn bwydo ofn troseddau, sydd, yn rhai o'n cymunedau, yn cael effaith yr un mor niweidiol â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae Lynne Neagle yn ei ddisgrifio'n holol iawn.

**Lynne Neagle:** Os ydych, fel y dywedwch, yn clywed cwynion tebyg i'r rhai yr wyf fi'n eu cael gan bobl hŷn a llawer o bobl eraill yn y gymuned, sy'n poeni'n fawr am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar garreg eu drws, a ydych yn meddwl bod anwybyddu'r broblem o unrhyw fudd? Onid yw'n well inni fod yma, yn codi'r broblem, yn trafod y materion ac, fel y Llywodraeth Lafur, yn rhoi sylw iddynt?

**Helen Mary Jones:** Ni fyddwn, am eiliad, yn dweud y dylid anwybyddu'r broblem, ond fel rhywun sydd wedi gweithio'n broffesiynol yn y maes hwn am flynyddoedd lawer, gwn mai'r ffordd orau o atal pobl ifanc rhag troseddu yw trwy roi dewisiadau eraill iddynt a dyfodol cadarnhaol, eu cael i fod yn rhan o'r system addysg ac nid eu labelu fel troseddwyr oherwydd gweithgareddau y byddai cenhedlaeth ein rhieni wedi edrych arnynt fel direidi. Ni ellir byth ddweud nad yw'r pryderon hyn yn rhai real, ond rhaid inni gyfleu darlun cywir a delio â'r broblem go iawn. Siaradodd y Llywodraeth yr ydych chi'n ei chynrychioli am fod yn llym ar droseddu ac yn llym ar achosion troseddu; mae wedi bod yn llym iawn ar droseddu o ran yr holl ddeddfau y mae wedi eu gwneud, ond nid yw wedi bod yn ddigon llym o bellffordd ar achosion troseddu. Os edrychwn ar ganran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyrraedd y ddalfa—plant sydd i fod yn gyfrifoldeb i bob un ohonom—peidiwch â dweud wrthyf fod eich Llywodraeth wedi bod yn llwyddiannus wrth ddelio ag achosion troseddu, oherwydd nid yw hynny'n wir. Mae'r bobl ifanc hynny

victims as the older people whom you and I are both concerned about in the communities that we represent.

I will now turn to the main subject that I wish to speak about, which has been touched upon by others, namely the Mental Health Bill. This Bill is desperately disappointing, not only to the Assembly—and I suspect, possibly, to the Assembly Government—but, more importantly, to mental health service users, carers and their families. I understood that, from this summer, as a result of the Government of Wales Act 2006, legislation that was dealing with devolved matters was to have framework legislation that would enable the Assembly to go its own way, if it chose to do so. I am profoundly disappointed, but, more importantly, those in my constituency with mental health problems—and, as Jenny Randerson said, one in four of us will suffer from mental health problems at any one time—are profoundly disappointed, that this legislation does not allow that.

There are no framework powers in this legislation and that is just plain wrong. The approach to mental health in Wales has been different. The Government's national service framework, despite the concerns that many of us have about delivery, does demonstrate an Assembly Government that has been willing to listen to service users and carers. The approach in Westminster and Whitehall has been far less constructive and has been driven by a kind of tabloid scare-story, fear-fed agenda.

The Mental Health Bill is, admittedly, a little less draconian than the previous Bill, which was successfully driven off by campaigning led by service users. However, the emphasis, as we have already heard, is still on compulsion, with powers to compel service users to receive treatment in the community without any balancing right to an early assessment of need and to receive treatment. I believe that a Wales mental health Bill would

sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn gymaint o ddioddefwyr â'r bobl hŷn yr ydych chi a minnau'n poeni amdanynt yn y cymunedau yr ydym yn eu cynrychioli.

Trof yn awr at y prif bwnc yr wyf am siarad amdano, y mae eraill wedi sôn amdano, sef y Mesur Iechyd Meddwl. Mae'r Mesur hwn yn hynod o siomedig, nid yn unig i'r Cynulliad—ac yr wyf yn tybio, o bosibl, i Lywodraeth y Cynulliad—ond, yn bwysicach, i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gofalwyr a'u teuluoedd. Yr oeddwn wedi cael ar ddeall, o'r haf hwn ymlaen, o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y byddai deddfwriaeth a oedd yn ymneud â materion datganoledig yn cael deddfwriaeth fframwaith a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddilyn ei thrywydd ei hun, pe bai'n dewis gwneud hynny. Yr wyf yn siomedig iawn, ond, yn bwysicach fyth, mae'r rhai yn fy etholaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl—ac, fel y dywedodd Jenny Randerson, bydd un o bob pedwar ohonom yn dioddef gan broblemau iechyd meddwl ar ryw adeg neu'i gilydd—yn siomedig iawn, nad yw'r deddfwriaeth hon yn caniatáu hynny.

Nid oes pwerau fframwaith yn y ddeddfwriaeth hon ac mae hynny'n gwbl anghywir. Mae'r agwedd tuag at iechyd meddwl yng Nghymru wedi bod yn wahanol. Mae fframwaith gwasanaeth cenedlaethol y Llywodraeth, er gwaetha'r pryderon sydd gan lawer ohonom ynglŷn â'r modd y mae'n cael ei gyflwyno, yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn barod i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'r agwedd yn San Steffan a Whitehall wedi bod yn llawer llai adeiladol ac wedi bod yn cael ei rheoli gan ryw fath o agenda sy'n seiliedig ar ofn a storïau brawychus gan y papurau tabloid.

Mae'r Mesur Iechyd Meddwl, mae'n rhaid cyfaddef, ychydig yn llai llym na'r Mesur blaenorol, y llwyddwyd i gael gwared arno drwy ymgyrchoedd yn cael eu harwain gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r pwyslais, fel y clywsom yn barod, ar orfodaeth o hyd, gyda phwerau i orfodi defnyddwyr gwasanaethau i dderbyn triniaeth yn y gymuned heb ddim hawl gydbwysol i gael asesiad cynnar o'r angen ac i dderbyn

look very different and would have far more in common with the Scottish Act. I wonder whether our Minister asked for framework powers in this legislation and whether he was refused. If he was, why was this the case? It would be interesting to know whether the Government could shed any light on this in its response this afternoon.

triniaeth. Credaf y byddai Mesur iechyd meddwl i Gymru'n ymddangos yn wahanol iawn ac y byddai llawer mwy'n gyffredin rhyngddo a Deddf yr Alban. Tybed a ofynnodd ein Gweinidog am bwerau fframwaith yn y ddeddfwriaeth hon ac a gafodd ei wrthod? Os cafodd ei wrthod, pam hynny? Byddai'n ddiddorol gwybod a allai'r Llywodraeth daflu unrhyw oleuni ar hyn yn ei hymateb y prynhawn yma.

This afternoon, I want to put to the Assembly Government and to the Secretary of State the points made, not by me, but by Brian Mitchell, a user of services provided by Hafal, a leading charity that serves and speaks for people with serious mental health problems in Wales. Brian has this to say:

Y prynhawn yma, yr wyf am gyfleo i Lywodraeth y Cynulliad ac i'r Ysgrifennydd Gwladol y pwyntiau a wnaethpwyd, nid gennfyf fi, ond gan Brian Mitchell, un sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Hafal, elusen flaenllaw sy'n gwasanaethu ac yn siarad ar ran pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol yng Nghymru. Dyma beth sydd gan Brian i'w ddweud:

'We need a law that supports Wales' National Service Framework and is specific to Wales. Why shouldn't we? Scotland has its own Act, and it's much fairer and more balanced than the one the UK Government is proposing. If we had a Welsh Bill we could develop laws that improve the service to patients in Wales—laws that are not dictated by a tabloid media in London.'

Mae arnom angen cyfraith sy'n cefnogi Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru ac sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Pam lai? Mae gan yr Alban ei Deddf ei hun, ac mae'n llawer tecach ac yn fwy cytbwys na'r un sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth y DU. Pe bai gennym Fesur Cymreig gallem ddatblygu cyfreithiau sy'n gwella'r gwasanaeth i gleifion yng Nghymru—cyfreithiau nad ydynt yn cael eu pennu gan gyfryngau tabloid yn Llundain.

These are Brian's words, not mine. I wonder how the Government will respond to them this afternoon.

Geiriau Brain yw'r rhain, nid fy rhai i. Tybed sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb iddynt y prynhawn yma?

The new powers after 2007 could enable us to make a difference. The First Minister, when he was questioned earlier, was reluctant to say what his party's stand would be. I can and am happy to say clearly that Plaid Cymru's manifesto for 2007 will contain a commitment to seek an Order in Council to devolve mental health legislation to Wales. I believe that other opposition parties may well do the same. I challenge Labour, in the name of mental health service users and what is a very reputable track record, to do the same. Surely, it must be the case that, if all four parties in the Assembly asked for that devolution, mental health service users in Wales would be able to get the kind of legislation that they are asking us for. I press the Government to come off the fence on this

Gallai'r pwerau newydd ar ôl 2007 ein galluogi i wneud gwahaniaeth. Yr oedd y Prif Weinidog, pan ofynnwyd cwestiynau iddo yn gynharach, yn gyndyn o ddweud beth fyddai safiad ei blaid. Yr wyf yn falch iawn fy mod yn gallu datgan yn glir y bydd manifesto Plaid Cymru ar gyfer 2007 yn cynnwys ymrwymiad i geisio cael Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddatganoli deddfwriaeth iechyd meddwl i Gymru. Credaf ei bod yn bosibl y bydd gwrbhleidiau eraill yn gwneud hyn hefyd. Yr wyf yn herio Llafur, yn enw defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a'r perfformiad da iawn a gafwyd yn y gorffennol, i wneud yr un peth. Heb os nac oni bai, pe bai'r pedair plaid sydd yn y Cynulliad yn gofyn am gael datganoli hyn, byddai defnyddwyr gwasanaethau iechyd

today.

**Mark Isherwood:** Having listened to the Secretary of State, it is clear that he is less Peter Hain than Peter the pantomime dame, because what you see is most definitely not what you get.

Gordon Brown was the lucky Chancellor, having inherited the best economy inherited by any Chancellor since the war. The rapid growth in public spending since 2001 is coming to an end. As the Confederation of British Industry's chief economist told the Assembly in June, we face a very tight spending round ahead, with zero-base budgeting in many programmes. Budget increases over recent years have given this Assembly Government the opportunity to invest in truly sustainable economic and social regeneration. However, recent research has shown that the heavy public spending increases of this decade have not helped Wales and have instead increased dependence on English taxpayers.

The number of school leavers not entering education, training or employment has increased. Despite Labour's 2003 manifesto promise, student numbers in further education colleges have fallen. NHS Wales is suffering deficit and debt, bed losses, cuts, closures and centralisation. Last week, I hosted a rally here against Labour's community hospital closure programme and, tonight, we are hosting representatives from hospices across Wales to highlight the funding crisis that they face.

4.30 p.m.

Unemployment in Wales is rising for the first time in 13 years, and more than 30 per cent of Welsh working-aged households now have no-one in work. Wales now has lower prosperity than any other UK nation or region and has fallen from first to eleventh position

meddwl yng Nghymru'n gallu cael y math o ddeddfwriaeth y maent yn gofyn inni amdani. Yr wyf yn erfyn ar y Llywodraeth ddatgan beth yw ei safbwyt ar y mater hwn heddiw.

**Mark Isherwood:** Ar ôl gwrando ar yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'n amlwg nad oes gwahaniaeth rhwng Peter Hain a hen wreigan y pantomeim, oherwydd yn bendant iawn, nid yr hyn a welwch yw'r hyn a gewch.

Gordon Brown oedd y Canghellor lwcus, ac yntau wedi etifeddu'r economi orau a etifeddwyd gan unrhyw Ganghellor ers y rhyfel. Mae'r twf cyflym mewn gwariant cyhoeddus ers 2001 yn dod i ben. Fel y dywedodd prif economegydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wrth y Cynulliad ym mis Mehefin, mae cylch gwariant anodd iawn o'n blaenau, heb ddim sicrwydd y bydd cynnydd yn y gyllideb mewn sawl rhaglen. Mae cynnydd mewn cyllidebau dros y blynnyddoedd diwethaf wedi rhoi cyfle i Lywodraeth y Cynulliad fuddsoddi mewn adfywio economaidd a chymdeithasol gwirioneddol gynaliadwy. Fodd bynnag, dangosodd gwaith ymchwil diweddar nad yw'r cynnydd sylweddol mewn gwariant cyhoeddus yn ystod y degawd hwn wedi helpu Cymru ac mai'r hyn a welwyd yn hytrach yw cynnydd mewn dibyniaeth ar drethdalwyr Lloegr.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi cynyddu. Er gwaethaf addewid manifesto Llafur yn 2003, mae nifer y myfyrwyr sydd mewn colegau addysg bellach wedi gostwng. Mae GIG Cymru yn dioddef oherwydd prinder arian a dyled, colli gwelyau, cwtogi, cau ysbytai a chanoli. Yr wythnos diwethaf, cynhelias rali yma yn erbyn rhaglen Llafur o gau ysbytai cymuned, a heno, yr ydym yn croesawu cynrychiolwyr hosbisau o Gymru benbaladr i dynnu sylw at yr argywng cyllido y maent yn ei wynebu.

Mae diweithdra yng Nghymru yn codi am y tro cyntaf ers 13 blynedd, ac mae dros 30 y cant o aelwydydd oedran gwaith yng Nghymru bellach heb neb yn gweithio. Mae Cymru bellach yn is o ran ffyniant nag unrhyw genedl neu ranbarth arall yn y DU a

out of 12 in terms of inward investment. Housing is creating a more divided Wales; as homelessness, waiting lists, house prices, and mortgage and landlord repossession orders have increased, Labour has cut the supply of new affordable housing by three quarters. That is the reality after seven and a half years of hard Labour in Cardiff. People will remember that the next time they hear Peter Hain talk with pantomime tongue.

We welcome those Government proposals in the Queen's Speech that were adopted from the Conservatives, including linking the basic state pension to earnings, making the provision of statistics independent and, of course, introducing the Climate Change and Sustainable Energy Bill. Let us hope that Labour will at last realise that renewable targets that do not cut carbon emissions are a cruel public con.

This Queen's Speech includes a Border and Immigration Bill, which makes no reference to the cuts imposed by the Home Office on policing at Holyhead and Mostyn docks. The Offender Management Bill fails to address the fundamental problems faced by an overwhelmed probation service. Too many offenders are released from prison too early, without adequate assessment.

This Queen's Speech, as we have heard, is full of macho tough-on-crime proposals, but we must remember that this UK Government has already put 29 criminal justice Acts through Parliament. It is so busy talking tough and passing new laws that it does not have time to consider their implementation. The result is a youth justice system that is not working. Of the young criminals who end up in young offenders' institutions, 85 per cent have mental health issues or learning difficulties. Half of them have spent time in care as a child, and over half are addicted to drugs or alcohol. Forty per cent of the boys have suffered violence at home, and a third of the girls have suffered sexual abuse. So much for being tough on crime, tough on the causes

disgynnodd o'r safle cyntaf i'r unfed ar ddeg o ran mewnfuddsoddi. Mae tai yn creu Cymru fwy rhanedig; wrth i ddigartrefedd, rhestrau aros, prisiau tai, a gorchmynion adfeddiannu morgeisi a landlordiniaid gynyddu, mae Llafur wedi torri'r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd o dri chwarter. Dyna sut y mae pethau mewn gwirionedd wedi saith mlynedd a hanner o Lafur caled yng Nghaerdydd. Bydd pobl yn cofio hynny y tro nesaf y clywant Peter Hain a'i araith bantomeim.

Yr ydym yn croesawu'r cynigion hynny gan y Llywodraeth yn Araith y Frenhines a fabwysiadwyd oddi wrth y Ceidwadwyr, gan gynnwys cysylltu pensiwn sylfaenol y wladwriaeth ag enillion, gwneud darparu ystadegau yn annibynnol, ac, wrth gwrs, cyflwyno'r Mesur Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy. Gadewch inni obeithio y bydd Llafur yn sylweddoli o'r diwedd mai twyllo'r cyhoedd yn greulon y mae targedau adnewyddadwy nad ydynt yn cwtogi gollyngiadau carbon.

Mae Araith y Frenhines y tro hwn yn cynnwys Mesur Ffiniau a Mewnfudo, nad oes ynddo gyfeiriad o gwbl at y toriadau a wnaed gan y Swyddfa Gartref ar blismona yn nociau Caergybi a Mostyn. Nid yw'r Mesur Rheoli Troseddwyr yn llwyddo i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol a wynebir gan wasanaeth prawf sydd yn cael ei lethu. Mae gormod o droseddwyr yn cael eu rhyddhau yn rhy gynnar o'r carchar, heb asesu digonol.

Mae Araith y Frenhines y tro hwn, fel yr ydym wedi clywed, yn llawn o gynigion bostfawr sy'n llym ar droseddu, ond rhaid i ni gofio bod y Llywodraeth hon yn y DU eisoes wedi rhoi 29 o Ddeddfau cyflawnder troseddol drwy'r Senedd. Mae mor brysur yn llefaru'n llym ac yn pasio cyfreithiau newydd fel nad oes ganddi amser i ystyried sut y maent yn cael eu gweithredu. Canlyniad hyn yw system cyflawnder ieuencid nad yw'n gweithio. O'r troseddwyr ifanc a aiff yn y pen draw i sefydliadau troseddwyr ifanc, mae gan 85 y cant broblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu. Mae eu hanner wedi treulio amser mewn gofal yn blant, ac mae mwy na'u hanner yn gaeth i gyffuriau neu alcohol. Mae 40 y cant o'r bechgyn wedi

of crime.

We have broadly welcomed the Consumers, Estate Agents and Redress Bill; however, this must not be a cost-cutting exercise. Consumer voice must be independent of Government, and the skills of Energywatch and Postwatch must not be lost. The Bill must also include plans for a fully devolved consumer advocacy organisation for Wales, which addresses the devolution settlement in Wales.

As we approach World AIDS Day on 1 December, we must also see Government action to raise awareness of the rising number of people infected with HIV/AIDS in the UK, which has gone up by between 5,000 and 7,000 a year, and has now reached a total of nearly 60,000. A third of them do not even know that they are carrying the infection. The Government must make it a priority once again to raise public awareness.

After the 1992 election, opinion polls found that fewer people admitted having voted Conservative than actually had, but, after the 2005 election, more people claim to have voted Conservative than actually did. Secretary of State, the times they are a-changin'.

**Mick Bates:** Sustainability is at the heart of my contribution, and at the heart of Welsh Liberal Democrat policy, as we see in amendments 5 and 6. The Welsh Liberal Democrats are ambitious to see the development of laws that move more people out of poverty, that build a greener economy, and that have a positive effect on our environment. Our vision is for a prosperous, green, clean and nuclear-free Wales. I hope that we do not resort to bribing communities to take nuclear waste, which will blight their communities for so many generations to come.

Tackling climate change has to be the main and greatest force that many people,

dioddef trais yn y cartref, a thraean o'r merched wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Dyna ichi beth yw bod yn llym ar droseddu, a llym ar achosion troseddu.

Yr ydym, at ei gilydd, wedi croesawu'r Mesur Defnyddwyr, Asiantau Tai ac Unioni Camweddau; fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn ymarferiad mewn torri costau. Rhaid i lais y defnyddiwr fod yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac ni ddylem golli sgiliau Golwg ar Ynni na Golwg ar Bost. Rhaid i'r Mesur hefyd gynnwys cynlluniau ar gyfer sefydliad eiriolaeth dros ddefnyddwyr hollol ddatganoledig i Gymru, sydd yn ymdrin â'r setliad datganoli yng Nghymru.

Wrth i Ddiwrnod AIDS y Byd ar 1 Rhagfyr nesáu, rhaid inni hefyd weld y Llywodraeth yn gweithredu i godi ymwybyddiaeth o nifer cynyddol y bobl sydd wedi eu heintio â HIV/AIDS yn y DU, sydd wedi cynyddu rhwng 5,000 a 7,000 y flwyddyn ac sydd bellach wedi cyrraedd cyfanswm o bron 60,000. Nid yw traean ohonynt hyd yn oed yn gwybod bod yr haint arnynt. Rhaid i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth unwaith eto i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Wedi etholiad 1992, canfu polau piniwn fod llai o bobl yn cyfaddef eu bod wedi pleidleisio dros y Ceidwadwyr nag a wnaeth mewn gwirionedd, ond wedi etholiad 2005, hawliodd mwy o bobl eu bod wedi pleidleisio dros y Ceidwadwyr nag a wnaeth mewn gwirionedd. Ysgrifennydd Gwladol, mae newid yn y gwynt.

**Mick Bates:** Mae cynaliadwyedd wrth graidd fy nghyfraniad, ac wrth graidd polisi Democraidaid Rhyddfrydol Cymru, fel y gwelwn yng ngwelliannau 5 a 6. Uchelgais Democraidaid Rhyddfrydol Cymru yw gweld datblygu cyfreithiau sydd yn codi mwy o bobl o dodi, sydd yn datblygu economi fwy gwyrd, ac a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein hamgylchedd. Ein gweledigaeth yw Cymru ffyniannus, werdd, lân a di-niwcil. Gobeithio na fyddwn yn mynd ati i lwgrwobrwyd cymunedau i gymryd gwastraff niwcil, a fydd yn amharu ar eu cymunedau am genedlaethau di-ri i ddod.

Y prif rym, a'r grym pennaf y mae pobl, a minnau yn eu plith, yn dymuno ei weld yn

including me, wish to see driving the Assembly and Westminster, and stabilising carbon dioxide in the atmosphere is critical to that. I am passionate about making sure that the Climate Change Bill does just that. I joined 30,000 people in Trafalgar square on 4 November to add my voice to those of the growing number of people who see climate change as one of the most fundamental issues to be challenged this century. Only the Liberal Democrats are showing how to tax pollution and not people.

To emphasise the point about the need for green taxation, I will quote two sets of very telling figures, one of which is from the Institute for Fiscal Studies. It concluded that green tax receipts had fallen from £37.7 billion in 1999 to £35 billion in 2005. Andrew Leicester of the institute states that green taxes are at their lowest for a decade. The Liberal Democrats are the only party to recognise that here is an important move to combat climate change. The current Government has, in fact, reduced taxation to ensure that we encourage better behaviour.

Although Stern did not recommend specific tax rises, his report prescribes how to minimise the economic and social impacts of climate change. Stern's main proposal is that large sums of money need to be spent on reducing carbon emissions, through encouraging low-carbon technologies and the protection of vulnerable communities. If that investment does not take place, Stern predicts that major economic disruption on the scale associated with the great wars will occur. That is the magnitude of the crisis that we face, and that is why we welcome the Climate Change Bill.

There are only two methods that will achieve that reduction in carbon emissions: incentivisation by taxation, and changing behaviour. Only the Liberal Democrats so far have stood up to say what our green tax switch will mean. Aircraft, for instance, have always been exempt from green taxation. This is absurd when their contribution to climate change is growing at a far greater rate

llywio'r Cynulliad a San Steffan, mae'n rhaid, yw mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae sefydlogi carbon deuocsiad yn yr atmosffer yn hanfodol i hynny. Yr wyf yn teimlo'n frwd am ofalu bod y Mesur Newid Hinsawdd yn gwneud yr union beth hwnnw. Ymunais â 30,000 o bobl yn Sgwâr Trafalgar ar 4 Tachwedd i ychwanegu fy llais at y nifer cynyddol o bobl sydd yn gweld newid yn yr hinsawdd yn un o'r materion mwyaf sylfaenol i'w herio yn y ganrif hon. Dim ond y Democratiaid Rhyddfrydol sydd yn dangos sut i drethu llygredd yn hytrach na phobl.

I bwysleisio'r pwynt bod angen trethiant gwyrd, dyfynnaf ddwy set o ffigyrâu trawiadol iawn; daw un gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Daeth i'r casgliad bod derbyniadau oddi wrth drethi gwyrd wedi disgyn o £37.7 biliwn yn 1999 i £35 biliwn yn 2005. Dywed Andrew Leicester o'r sefydliad fod trethi gwyrd ar eu hisaf ers degawd. Y Democratiaid Rhyddfrydol yw'r unig blaid sy'n cydnabod bod yma symudiad pwysig i wrthweithio newid yn yr hinsawdd. Mewn gwirionedd, mae'r Llywodraeth bresennol wedi lleihau trethi i sicrhau ein bod yn annog gwell ymddygiad.

Er nad argymhellodd Stern godiadau penodol mewn trethi, mae ei adroddiad yn datgan sut i sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael cyn lleied o effeithiau economaidd a chymdeithasol ag sy'n bosibl. Prif gynnig Stern yw bod angen gwario symiau mawr o arian ar leihau gollyngiadau carbon, drwy annog technolegau carbon isel ac amddiffyn cymunedau sydd yn agored i niwed. Oni ddigwydd y buddsoddi hwnnw, proffwyda Stern y bydd amharu mawr ar yr economi ar raddfa a gysylltir â'r rhyfeloedd mawr. Dyna faint yr argyfwng sydd yn ein hwynebu, a dyna pam yr ydym yn croesawu'r Mesur Newid Hinsawdd.

Dau ddull yn unig fydd yn peri'r lleihad hwnnw mewn gollyngiadau carbon: cymhelliant drwy drethu, a newid ymddygiad. Dim ond y Democratiaid Rhyddfrydol hyd yma sydd wedi cyhoeddi beth fydd yffaith ein bod yn troi at drethi gwyrd yn ei olygu. Mae awyrennau, er enghraifft, wastad wedi eu heithrio o drethi gwyrd. Mae hynny'n chwerthinillyd pan fo'u

than that of any other sector. We would put in place a new tax on aircraft emissions to encourage them to invest in cleaner, greener fuels and to reduce their impact on the environment.

The green tax switch would be good for business, too. It would provide a major boost to green industries in Wales and would include special relief for innovative smaller businesses. The use of biomass and biofuels will benefit farmers because of the increased market for their produce, and rural areas would also receive relief in the form of green taxes on their vehicles, as people's lifestyles mean that they have no other choice of vehicle. With regard to waste, we would set a long-term goal of zero municipal waste, by establishing a minimising policy of reuse and recycling. Manufacturers would be held responsible for disposing of their products and materials that are difficult to reuse or recycle.

**Glyn Davies:** In general, I support an increase in green taxation. However, if we are to win public support for that, do you accept that it is very important that that be balanced by a cut in taxation in other areas, so that it is not seen as a general increase in taxation?

**Mick Bates:** Thank you for that comment, Glyn. Yes, indeed. In fact, what we are proposing moves taxation away from poorer people and focuses on issues such as carbon emissions. That is the basic principle of our green taxation switch.

Of course, changing people's behaviour is critical. In this Bill, I want to see annual, legally binding targets; otherwise, we will not attack carbon emissions. Parliament has already done work on building regulations, but we need the power here. Sir Jonathon Porritt described Westminster's attempts to improve building regulations as,

'an unbelievable mess of crabby mandated

cyfraniad hwy i newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ar gyfradd uwch o lawer nag eiddo unrhyw sector arall. Byddem yn gosod treth newydd ar ollyniadau awyrennau er mwyn eu hannog i fuddsoddi mewn tanwydd glanach a mwy gwyrdd ac i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Byddai'r newid i drethi gwyrdd yn llesol i fusnesau, hefyd. Byddai'n hwb enfawr i ddiwydiannau gwyrdd yng Nghymru a byddai'n cynnwys gostyngiad arbennig i fusnesau arloesol, llai. Bydd defnyddio biomàs a biodanwydd o les i ffermwyr oherwydd y cynnydd yn y farchnad i'w cynyrch, a byddai ardaloedd gwledig hefyd yn derbyn gostyngiad ar ffurf trethi gwyrdd ar eu cerbydau, gan fod dulliau pobl o fyw yn golygu nad oes ganddynt ddewis arall o ran cerbyd. O ran gwastraff, byddem yn gosod nod yn y tymor hir na fyddai dim gwastraff trefol, drwy sefydlu polisi a fyddai'n golygu lleihau drwy ailddefnyddio ac ailgylchu. Byddai gwneuthurwyr yn gyfrifol am waredu eu cynhyrchion a deunyddiau sydd yn anodd eu haildefnyddio neu eu hailgylchu.

**Glyn Davies:** Yn gyffredinol, yr wyf yn cefnogi cynnydd mewn trethi gwyrdd. Fodd bynnag, os ydym am ennill cefnogaeth y cyhoedd i hynny, a ydych yn derbyn ei bod yn bwysig iawn i hynny gael ei gydbwyso drwy dorri trethi mewn meysydd eraill, fel nad yw'n cael ei weld fel cynnydd cyffredinol mewn trethiant?

**Mick Bates:** Diolch am y sylw hwnnw, Glyn. Ydwyt, yn wir. Mewn gwirionedd, mae'r hyn a gynigiwn yn symud trethi oddi wrth bobl dlotach ac yn canolbwytio ar faterion megis gollyniadau carbon. Hynny yw egwyddor sylfaenol ein newid i drethi gwyrdd.

Wrth gwrs, mae newid ymddygiad pobl yn hanfodol. Yn y Mesur hwn, yr wyf am weld targedau blynyddol, sydd yn rhwymo'n gyfreithiol; fel arall, ni fyddwn yn ymosod ar ollyniadau carbon. Mae'r Senedd wedi gwneud gwaith eisoes ar reoliadau adeiladu, ond mae arnom angen y grym yma. Disgrifiodd Syr Jonathon Porritt ymdrechion San Steffan i wella'r rheoliadau adeiladu fel,

cybollaeth anhygoel o fanion mandadol

minima'.

This Government has been looking at minimum standards for far too long. Let us be ambitious and set targets that will really improve our quality of life.

We need to build exemplars, using schools and public buildings, to show how buildings can be made more energy efficient. The Sustainable Development Commission's analysis of energy in school buildings showed that a large secondary school can save £40,000 to £50,000 a year by looking at energy efficiency and microgeneration. That is the equivalent cost of an extra teacher for a school. Those are the sort of achievements that the Welsh Liberal Democrats are ambitious to see. I hope that the Government will eventually see the need to have legally binding annual targets to reduce carbon emissions. Only then will we be able to meet the demands of Stern and ensure that we retain a quality environment in Wales.

**Leighton Andrews:** Secretary of State, I also wish to begin by giving Elizabeth my best wishes after her accident. We all hope that she is back on her feet soon.

4.40 p.m.

During your speech, you referred to the achievement of the Government of Wales Act. It is worth recording that we have passed an Act that puts primary law-making powers for the Assembly firmly on the statute book. We should all endorse and welcome that. However, on another note, I urge you not to give up too soon your right to ensure that Standing Orders are prepared for the National Assembly for Wales, as there are a number of us on this side of the Chamber who would not have any fears if you were to do that.

A couple of themes in this Queen's Speech will be widely welcomed by our constituents, such as its emphasis on security and justice, which are of concern to all our communities. In our surgeries, we must all contend with

cybyddlyd.

Mae'r Llywodraeth hon wedi bod yn edrych ar safonau gofynnol ers gormod o lawer o amser. Gadewch inni fod yn uchelgeisiol a a gosod targedau a fydd yn gwella ansawdd ein bywydau o ddifrif.

Rhaid inni ddatblygu esiamplau, gan ddefnyddio ysgolion ac adeiladau cyhoeddus, i ddangos bod modd peri i adeiladau ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Dangosodd dadansoddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o ynni yn adeiladau ysgolion y gall ysgol uwchradd fawr arbed £40,000 i £50,000 y flwyddyn drwy edrych ar effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu. Mae hynny'n cyfateb i gost athro ychwanegol i ysgol. Dyna'r math o lwyddiannau y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awyddus i'w gweld. Gobeithio y gwêl y Llywodraeth o'r diwedd fod angen cael targedau blynnyddol sydd yn rhwymo'n gyfreithiol i leihau gollyngiadau carbon. Ni allwn fodloni gofynion Stern a sicrhau ein bod yn cadw amgylchedd o safon yng Nghymru nes bod hynny'n digwydd.

**Leighton Andrews:** Ysgrifennydd Gwladol, hoffwn innau hefyd ddechrau drwy anfon fy nymuniadau gorau i Elizabeth ar ôl ei damwain. Yr ydym oll yn gobeithio y bydd yn ôl ar ei thraed yn fuan.

Yn ystod eich arraith, cyfeiriasoch at lwyddiant Deddf Llywodraeth Cymru. Mae'n werth cofnodi ein bod wedi pasio Deddf sydd yn rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad yn bendant ar y llyfr statud. Dylem oll gefnogi a chroesawu hynny. Fodd bynnag, ynglŷn â mater arall, yr wyf yn eich annog i beidio ag ildio yn rhy sydyn eich hawl i sicrhau bod y Gorchmynion Sefydlog yn cael eu paratoi ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan na fyddai nifer ohonom yr ochr hon i'r Siambra yn pryderu o gwbl petaech yn gwneud hynny.

Bydd ambell thema yn Araith y Frenhines y tro hwn yn cael croeso mawr gan ein hetholwyr, megis ei phwyslais ar ddiogelwch a chyflawnder, sydd peri pryder i'n cymunedau oll. Yn ein cymorthfeydd, rhaid i

issues of anti-social behaviour brought to us by constituents. I welcome the extra investment in the police, and the additional police community support officers that are being seen in our communities. However, in respect of the administration of justice, I would raise one issue that I would like you to be aware of, Secretary of State, which is the current consultation being held by the magistrates' courts service in south Wales. I emphasise the important role played by the magistrates' court in Llwlynypia, in my constituency, which is a purpose-built court, with separate entrances for victims and defendants. It plays an important role in the administration of justice, and an excellent victim-support service is also based there. The importance of such courts in the community should not be underestimated if we are to ensure proper access to justice. I want to see that court continuing, and I know that colleagues elsewhere in south Wales are contending with similar issues.

I would also like to talk about employment and the economy. The reality of any of our deliberations in the Chamber on the economy is not that we are engaged in a debate that cuts Wales off from the rest of the United Kingdom; the reality is that the economic conditions that our constituents contend with are shaped by forces on a global scale, by policies at a European, a UK and a Welsh level. Over the past 10 years, I am pleased that unemployment in the Rhondda has halved and that youth unemployment has come down by three quarters. Gross household disposable income in the Valleys has also increased by 6 per cent over the past eight years. Those are all a tribute to the economic policies that have been pursued.

However, as you said in your statement, Secretary of State, we do face challenges on a global scale, and the workers at Burberry in Treorchy are facing them at present. I pay tribute to the unions involved in the campaign at that factory, particularly GMB, but also Amicus, which has members there. This is a campaign that has won the hearts and minds of people throughout the Rhondda, and it is not a campaign that people are

ni oll ddod wyneb yn wyneb â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae ein hetholwyr yn tynnu ein sylw atynt. Yr wyf yn croesawu'r buddsoddi ychwanegol yn yr heddlu, a'r swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol a welir yn ein cymunedau. Fodd bynnag, o ran gweinyddu cyflawnder, fe garwn godi un mater y dymunwn ichi fod yn ymwybodol ohono, Ysgrifennydd Gwladol, sef yr ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd gan y gwasanaeth llysoedd ynaden yn y de. Yr wyf yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan lys yr ynaden yn Llwlynypia, yn f'etholaeth, sydd yn llys mewn adeilad pwrpasol, gyda mynedfeydd ar wahân i ddioddefwyr a diffynyddion. Mae iddo rôl bwysig o ran gweinyddu cyflawnder, ac mae'n ganolfan hefyd i wasanaeth cymorth i ddioddefwyr ardderchog. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd llysoedd o'r fath yn y gymuned os ydym am sicrhau mynediad priodol at gyflawnder. Yr wyf am weld y llys hwnnw'n parhau, a gwn fod cyd-Aelodau mewn mannau eraill yn y de'n mynd i'r afael â phynciau tebyg.

Carwn hefyd grybwyl cyflogaeth a'r economi. Y realiti yngylch unrhyw rai o'n trafodaethau yn y Siambwr yngylch yr economi yw nad ydym yn rhan o ddadl sydd yn torri Cymru ymaith oddi wrth weddill y Deyrnas Gyfunol; y realiti yw bod yr amodau economaidd y mae ein hetholwyr yn ymgodymu â hwy wedi eu llunio gan rymoedd ar raddfa fyd-eang, gan bolisiau ar lefel Ewrop, y DU a Chymru. Dros y 10 mlynedd diwethaf, yr wyf yn falch bod diweithdra yn y Rhondda wedi haneru a bod diweithdra ymhliith ieuencid wedi gostwng o dri chwarter. Mae incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn y Cymoedd hefyd wedi cynyddu o 6 y cant dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae hyn oherwydd i'r polisiau economaidd a ddilynwyd.

Fodd bynnag, fel y dywedasoch yn eich datganiad, Ysgrifennydd Gwladol, yr ydym yn wynebu her fydd-eang, ac mae gweithwyr Burberry yn Nhreorci yn wynebu'r peth ar hyn o bryd. Talaf deyrnged i'r undebau sydd yn rhan o'r ymgyrch yn y ffatri, yn enwedig GMB, ond hefyd Amicus, sydd ag aelodau yno. Ymgyrch yw hon sydd wedi ennill calonau a meddyliau pobl ledled y Rhondda, ac nid yw'n ymgyrch lle y mae pobl yn barod

prepared to give up on. That is why I was keen earlier today to welcome the contribution and support of Ioan Gruffudd, with his request to the chief executive of Burberry to find an alternative course of action.

There are other issues in the Queen's Speech that are not devolved issues on which we will have views. Digital switchover is mentioned. Given that Wales will be one of the first places in which analogue television will be switched off, it is important that there is a proper campaign to ensure that people are aware of what needs to happen in that regard. Many of my constituents complain at present that they do not have access to services such as Freeview, and they want to see those services changed.

I will make one particular point on the media, on the day after the chairman of the BBC departed for ITV. That was a regrettable development and I hope that the UK Government will look at whether a public appointment such as the chairmanship of the BBC should have some restrictions imposed upon it, so that someone who has that post cannot suddenly up sticks and move to work for a commercial broadcaster immediately afterwards. It is a public appointment and there should be restrictions upon it.

Finally, the Queen's Speech sets the framework for our elections next year. I have no fear of those elections, and I am sure that my colleagues have none either. We know the choice before us: it is a choice between a Labour Assembly Government working with Westminster or a Tory-led coalition. Bring that fight on.

**Jocelyn Davies:** I speak in support of those who have already outlined the need for a proper protocol for dealing with Orders in Council in the future. However, for it to be effective, there must be some transparency in the process. The Joint Ministerial Committee was set up to deal with inter-governmental relations following devolution. One of its four aims is to keep the arrangements for liaison between the UK Government and the devolved administrations under review.

i ildio. Dyna pam yr oeddwn yn awyddus yn gynharach heddiw i groesawu cyfraniad a chefnogaeth Ioan Gruffudd, gyda'i gais at brif weithredwr Burberry i ddarganfod dull arall o weithredu.

Mae pynciau eraill yn Araith y Frenhines nad ydynt yn faterion datganoledig y bydd gennym farn yn eu cylch. Crybwylir y newid i'r drefn ddigidol. O gofio mai Cymru yw un o'r mannau cyntaf lle y diffoddir teledu analog, mae'n bwysig cael ymgyrch briodol i ofalu bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddo ddigwydd yn hynny o beth. Mae llawer o'm hetholwyr yn cwyno ar hyn o bryd na allant gael gwasanaethau megis Freeview, ac maent am weld newid yn y gwasanaethau hynny.

Gwnaf un pwynt penodol ynghylch y cyfryngau, y diwrnod wedi i gadeirydd y BBC adael i fynd at ITV. Yr oedd hynny'n ddatblygiad i resynu ato a gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn edrych i weld a ddylid gosod rhai cyfyngiadau ar benodiad cyhoeddus megis cadeiryddiaeth y BBC, fel na fydd modd i rywun sydd yn y swydd honno godi'i bac yn sydyn a symud i weithio i ddarlleddwr masnachol ar ei union. Mae'n benodiad cyhoeddus, a dylai fod cyfyngiadau arno.

Yn olaf, mae Araith y Frenhines yn gosod y fframwaith ar gyfer ein hetholiadau y flwyddyn nesaf. Nid oes arnaf ofn yr etholiadau hynny, ac yr wyf yn siŵr nad oes ar fy nghyd-Aelodau ofn chwaith. Gwyddom beth yw'r dewis sydd ger ein bron: mae'n ddewis rhwng Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad yn gweithio gyda San Steffan neu glymplaid dan arweiniad y Torïaid. Ymlaen â'r frwydr.

**Jocelyn Davies:** Siaradaf o blaid y rhai sydd eisoes wedi amlinellu'r angen am brotocol priodol i ddelio â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn i hynny fod yn effeithiol, rhaid cael tryloywder yn y broses. Sefydlwyd y Cydbwyllgor Gweinidogion i ddelio â chysylltiadau rhwng Llywodraethau yn sgil datganoli. Un o'i bedwar nod yw parhau i adolygu'r trefniadau cyswllt rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau

Meetings are infrequent and are held in secret, and it is largely acknowledged that it is failing to provide a forum for resolving disputes and disagreements. Therefore, could someone tell me whether the Orders in Council process has ever been discussed by the Joint Ministerial Committee?

It seems to me that, currently, you are relying heavily on informal contact, which, in turn, relies on consensus and goodwill. That is unsustainable, because there will not always be consensus or goodwill. What will happen if there is a serious political difference, or if the Assembly Government refuses to be subordinate to the UK Cabinet? The current arrangements will not cope, and constitutional arrangements should never be based on goodwill.

The Assembly needs certainty if it hopes to be able to express the values of the nation that it serves. Expressing those values must be our top priority—otherwise we will not reverse the plummeting turnout at elections. Voters are becoming more and more disillusioned, and this Queen's Speech does nothing to correct that. I am concerned that the new Government of Wales Act 2006 creates a mini Westminster at a time when Westminster itself is coming under increased and intense criticism because of an over-powerful Executive that can ignore its Parliament and which has therefore become significantly out of step with the electorate's values and expectations.

The POWER Commission's report was welcomed by many politicians—some of them in this Chamber. However, I see no evidence that its recommendations will be acted upon. The report sets out the public's disengagement with politics, and we disregard its findings at our peril. As it points out, thousands of people are quietly angry and depressed that principles and ideas seem to have been replaced by spin, and that they no longer have a real say in their government.

datganoledig. Anfynych yw'r cyfarfodydd ac maent yn cael eu cynnal yn ddirlgel, a chydnabyddir yn gyffredinol nad yw'n llwyddo i ddarparu fforwm i ddatrys anghyd fodau ac anghytuno. Felly, a all rhywun ddweud wrthyf a yw proses y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor wedi cael ei thrafod erioed gan y Cydbwyllgor Gweinidogion?

Mae'n ymddangos i mi eich bod, ar hyn o bryd, yn dibynnu'n drwm ar gyswllt anffurfiol, sydd, yn ei dro, yn dibynnu ar gonsensws ac ewyllys da. Mae hynny'n anghynaliadwy, oherwydd ni fydd consensws neu ewyllys da bob amser. Beth fydd yn digwydd os ceir gwahaniaeth gwleidyddol difrifol, neu os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod bod yn ddarostyngedig i Gabinet y DU? Ni fydd y trefniadau cyfredol yn ymdopi, ac ni ddylai trefniadau cyfansoddiadol byth gael eu seilio ar ewyllys da.

Mae angen sicrwydd ar y Cynulliad os yw'n gobeithio gallu mynegi gwerthoedd y genedl y mae'n ei gwasanaethu. Rhaid inni roi'r brif flaenoriaeth i fynegi'r gwerthoedd hynny—fel arall ni wrthdrown y gostyngiad enfawr yn y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau. Mae pleidleiswyr yn cael eu dadrithio fwfywy, ac nid yw'r Araith hon gan y Frenhines yn gwneud dim i unioni hynny. Yr wyf yn pryderu bod Deddf newydd Llywodraeth Cymru 2006 yn creu fersiwn lai o San Steffan a hynny pan fo San Steffan ei hun yn dod yn destun beirniadaeth fawr a chynyddol oherwydd Gweithrediaeth orbwerus sy'n gallu anwybyddu ei Senedd ac nad yw felly'n cyd-fynd â gwerthoedd a disgwyliadau'r etholwyr o bellffordd.

Croesawyd adroddiad Comisiwn POWER gan lawer o wleidyddion—rhai ohonynt yn y Siambr hon. Fodd bynnag, ni welaf ddim tystiolaeth y gweithredir ar ei argymhellion. Mae'r adroddiad yn nodi sut y mae'r cyhoedd wedi ymddieithrio oddi wrth wleidyddiaeth, a gwaе ni os anwybyddwn ei ganfyddiadau. Fel y mae'n nodi, mae miloedd o bobl yn ddig ac yn ddigalon yn dawel bach bod egwyddorion a syniadau fel pe baent wedi cael eu disodli gan sbin, ac nad oes ganddynt mwyach lais gwirioneddol yn eu llywodraeth.

That has not generated apathy or contentment, as we might like to think, but alienation, and this Queen's Speech offers no solutions to that. I can see why the UK Government would not want to take up the recommendation, say, to introduce a proper proportional representation system—it might never get back in under a fairer, more democratic system. However, the thrust of the POWER report should be taken seriously.

I recall our First Minister dismissing concerns about falling voter turnout with one of his sporting quips. He said that it did not matter how big the crowd was, as long as his team won. Well, it does matter. I hope that he regrets making that remark: there is nothing to be pleased about in the fact that falling turnout has, up until now, given Labour victories.

I have one final comment, which is for Leighton—although he has left the Chamber now. If the National Assembly fails to produce its own Standing Orders, can we really expect Westminster to give us substantial extra powers? We need not fear that the Secretary of State might have to write them, but, were that the case, we should be deeply ashamed.

**Glyn Davies:** Thank you, Llywydd, for the opportunity to contribute to what is an important debate in the Assembly's calendar, particularly since it is the last debate on a Queen's Speech under our current powers, before we move into a new constitutional position.

I am keen to play a positive part in the new constitution—assuming that the electorate is courteous, or generous, enough to allow me to return. However, I do not know how it will work. The new arrangements with which we are faced are extremely convoluted. I have listened carefully to what the Secretary of State said today and on other occasions, and to other Ministers in this Chamber, but I still believe that an awful lot of goodwill will be needed on the part of us all to ensure that this is a success. I very much hope that it will be a success.

Nid yw hynny wedi creu difaterwch na bodlonrwydd, fel yr hoffem gredu efallai, ond ymbellhau, ac nid yw'r Araith hon gan y Frenhines yn cynnig dim atebion i hynny. Gallaf weld pam na fyddai Llywodraeth y DU am fabwysiadu'r argymhelliaid, dyweder, i gyflwyno system briodol o gynrychiolaeth gyfrannol—efallai na ddeuai byth yn ôl i rym o dan system decach, fwy democrataidd. Fodd bynnag, dylid cymryd byrdwn adroddiad POWER o ddifrif.

Cofiaf ein Prif Weinidog yn wfftio pryderon am y gostyngiad yn y nifer sy'n pleidleisio gydag un o'i ddywediadau bachog o fyd chwaraeon. Dywedodd nad oedd ots pa mor fawr yw'r dyrfa, cyn belled â bod ei dîm ef yn ennill. Wel, mae ots. Gobeithiaf ei bod yn edifar ganddo iddo wneud y sylw hwnnw: nid oes dim i ymfalchïo ynddo yn y ffaith bod gostyngiad yn y nifer sy'n pleidleisio wedi rhoi buddugoliaethau i Lafur, hyd yma.

Mae gennyf un sylw olaf, ar gyfer Leighton—er ei fod wedi gadael y Siambr erbyn hyn. Os metha'r Cynulliad Cenedlaethol â chynhyrchu ei Reolau Sefydlog ei hun, a allwn mewn difrif ddisgwyl i San Steffan roi pwerau ychwanegol sylweddol inni? Nid oes angen inni ofni y gallai fod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hysgrifennu, ond, pe bai hynny'n digwydd, dylai fod cywilydd mawr arnom.

**Glyn Davies:** Diolch ichi, Lywydd, am y cyfle i gyfrannu at yr hyn sy'n ddadl bwysig yng nghalendr y Cynulliad, yn enwedig gan mai hon yw ein dadl olaf am Araith gan y Frenhines o dan ein pwerau cyfredol, cyn inni gamu i sefyllfa gyfansoddiadol newydd.

Yr wyf yn awyddus i chwarae rhan gadarnhaol yn y cyfansoddiad newydd—a chymryd bod yr etholwyr yn ddigon cwrtais, neu hael, iadael imi ddychwelyd. Fodd bynnag, ni wn sut y bydd yn gweithio. Mae'r trefniadau newydd sy'n ein hwynebu yn hynod o astrus. Yr wyf wedi gwrando'n astud ar yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei ddweud heddiw ac ar achlysuron eraill, ac ar Weinidogion eraill yn y Siambr hon, ond credaf o hyd y bydd angen peth wmbredd o ewillys da ar ran pawb ohonom i sicrhau bod hyn yn llwyddiant. Mawr

obeithiaf y bydd yn llwyddiant.

4.50 p.m.

One issue that has concerned me has been that of the relationship between the National Assembly and the Government of the day at Westminster. I was extremely disappointed by comments that I had heard attributed to the Secretary of State about his only being prepared to approve legislation of which Westminster might approve. Today's reference to the privatisation of education was rather silly. In truth, it is far more likely that a Blair-led Government at Westminster would wish to privatise education than any combination of parties that might form a majority in this institution. I find it difficult to imagine a situation in which a majority of Members in this Chamber, made up of whatever parties, would put forward a proposed Measure to Westminster that did not reflect the views of the Welsh people. That is why I welcome the interpretation that the Secretary of State put before the Chamber today. That is a side of the sandwich board—to take up that analogy—of which I approve. That interpretation is the basis for a genuine protocol that will help us to be successful in future.

There are 29 Bills in the Queen's Speech. We all have a relatively short time in which to speak today, so I will only speak to one of them, the Climate Change Bill, which is perhaps the most important Bill in the Queen's Speech. I greatly welcome the inclusion of a Bill on climate change in the Queen's Speech, but what is important is that it should set meaningful targets. There has been a tremendous amount of debate about what form those targets should take—Nick Bourne has contributed on that point today, and so has Mick Bates recently. I hope that whatever the targets may be they are meaningful targets, which will genuinely hold the Government of the day to account and make a difference. In dealing with climate change we have seen an awful lot of fine words over a long time, but there has not been delivery. We are not making the progress that we want and unless we deal with this situation with meaningful targets, we will not achieve what we want.

Un mater sydd wedi peri pryder imi yw'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth ar y pryd yn San Steffan. Yr oeddwn yn hynod o siomedig â sylwadau a glywais yn cael eu priodoli i'r Ysgrifennydd Gwladol na fyddai ond yn barod i gymeradwyo deddfwriaeth y byddai San Steffan efallai yn barod i'w chymeradwyo. Yr oedd y cyfeiriad heddiw at breifateiddio addysg braidd yn ddwl. Mewn gwirionedd, mae'n llawer mwy tebygol y byddai Llywodraeth dan arweiniad Blair yn San Steffan yn dymuno preifateiddio addysg nag unrhyw gyfuniad o bleidiau a allai ffurfio mwyafrif yn y sefydliad hwn. Yr wyf yn ei chael yn anodd dychmygu sefyllfa lle y byddai mwyafrif o Aelodau yn y Siambra hon, o ba bleidiau bynnag, yn cyflwyno Mesur arfaethedig i San Steffan na fyddai'n adlewyrchu barn pobl Cymru. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r dehongliad a roddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gerbron y Siambra heddiw. Mae hynny'n ochr i'r bwrdd dwbl—a chydio yn y gyfatebiaeth honno—yr wyf yn ei chymeradwyo. Mae'r dehongliad hwnnw yn sail i brotocol dilys a fydd yn help inni fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae 29 o Fesurau yn Araith y Frenhines. Amser cymharol fyr sydd gan bawb ohonom i siarad heddiw, felly siaradaf am un ohonynt yn unig, y Mesur Newid yn yr Hinsawdd, sef y Mesur pwysicaf efallai yn Araith y Frenhines. Yr wyf yn rhoi croeso mawr i gynnwys Mesur ar newid yn yr hinsawdd yn Araith y Frenhines, ond yr hyn sy'n bwysig yw y dylai bennu targedau ystyrlon. Bu llawer iawn o ddadlau ynghylch beth ddylai'r targedau hynny fod—mae Nick Bourne wedi cyfrannu ar y pwynt hwnnw heddiw, ac felly hefyd Mick Bates yn ddiweddar. Gobeithiaf, beth bynnag fydd y targedau, y byddant yn dargedau ystyrlon, a fydd o ddifrif yn peri i'r Llywodraeth ar y pryd fod yn atebol ac yn gwneud gwahaniaeth. Wrth ddelio â newid yn yr hinsawdd yr ydym wedi gweld llawer iawn o eiriau teg dros gyfnod hir, ond ni fu llawer o gyflawni. Nid ydym yn gwneud y cynnydd y mae arnom eisiau ei weld ac onid awn i'r afael â'r sefyllfa hon gyda thargedau ystyrlon, ni chyflawnwn yr hyn sydd arnom

ei eisiau.

My second point on the Climate Change Bill relates to the role of the Assembly. First, I hope that there will be an opportunity for the Assembly to be involved in what goes into the Bill. We have a good template in how we dealt with the proposed Marine Bill, which I understand may be published in March. We have had significant debates in committee and in this Chamber about what might go into this Bill, and I hope that we can proceed in that way with regard to the Climate Change Bill. Secondly, the further point that I want to make with regard to this is a point that the Secretary of State has himself made in the past, which is the importance of maximising framework powers. I hope that this Bill will be drawn up and that the framework powers will be maximised—I do not think that that has been the case for all Bills, but I hope that it will be for this one.

The reason why I believe that that is vital is that, if we are to challenge, in a meaningful way, the impact of climate change and make a real difference, we must involve people at every level. There is no point in Westminster coming up with a Bill to which it alone is signed up—the devolved institutions must also be signed up to it. It is that important. We must also find a way of bringing every individual into this debate. This is one of the most important Bills that we face and I hope that, as the Climate Change Bill goes through the House of Commons and the House of Lords, it is dealt with in a way that engages this Assembly to the maximum degree possible.

**Eleanor Burnham:** I will speak briefly to amendment 10, but before I do so, I wonder whether our Secretary of State will take a message back to Tony Blair about the lack of funding for hospices, which we will be discussing in about an hour's time, when Welsh hospices come to meet and lobby us. He is quoted in today's *Daily Post* as saying that he will help hospices. Can he help by giving us more money in the Assembly so that we can help them?

Mae a wnelo fy ail bwynt am y Mesur Newid yn yr Hinsawdd â'r rôl y Cynulliad. Yn gyntaf, gobeithiaf y bydd cyfle i'r Cynulliad gyfrannu tuag at gynnwys y Mesur. Mae gennym dempled da o ran sut yr ymdriniاسom â'r Mesur Morol arfaethedig, y deallaf y bydd yn cael ei gyhoeddi fis Mawrth. Yr ydym wedi cael dadleuon o bwys yn y pwylgor ac yn y Siambra hon am yr hyn a allai gael ei gynnwys yn y Mesur hwn, a gobeithiaf y gallwn weithredu yn yr un ffordd mewn perthynas â'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd. Yn ail, mae'r pwynt arall yr wyf am ei wneud ynglŷn â hyn yn bwynt y mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun wedi ei wneud yn y gorffennol, sef pwysigrwydd cynyddu'r pwerau fframwaith i'r eithaf. Gobeithiaf y bydd y Mesur hwn yn cael ei lunio fel bod y pwerau fframwaith yn cael eu cynyddu i'r eithaf—ni chredaf fod hynny wedi digwydd gyda phob Mesur, ond gobeithiaf y bydd gyda hwn.

Y rheswm pam yr wyf yn credu bod hynny'n hanfodol yw, os ydym i herio, mewn ffordd ystyrlon, effaith newid yn yr hinsawdd a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, rhaid inni gynnwys pobl ar bob lefel. Nid oes diben i San Steffan ddyfeisio Mesur nad oes neb ond San Steffan yn ymrwymo iddo—rhaid i'r sefydliadau datganoledig hefyd ymrwymo iddo. Mae mor bwysig â hynny. Rhaid inni hefyd ganfod ffordd o ddod â phob unigolyn i mewn i'r ddadl hon. Mae hwn yn un o'r Mesurau pwysicaf sy'n ein hwynebu a gobeithiaf, wrth i'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd fynd drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, yr ymdrinnir ag ef mewn ffordd sy'n cynnwys y Cynulliad hwn i'r graddau mwyaf possibl.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf am siarad yn fyr am welliant 10, ond cyn gwneud hynny, tybed a wnaiff ein Hysgrifennydd Gwladol fynd â neges yn ôl at Tony Blair am y diffyg cyllid ar gyfer hosbisau, y byddwn yn ei drafod ymhen tuag awr, pan ddaw hosbisau Cymru i gwrdd â ni a'n lobio. Fe'i dyfynnir yn y *Daily Post* heddiw yn dweud y gwnaiff helpu hosbisau. A all helpu drwy roi rhagor o arian inni yn y Cynulliad fel y gallwn ni eu helpu?

My few words will be focused on amendment 10, which is to do with the digital switchover. The Welsh Liberal Democrats support the intention behind the Digital Switchover Bill, in order to ensure that those who need assistance in the switchover to digital television can be identified, as Leighton Andrews has just mentioned. Even if we know who needs assistance, it is ridiculous that we still do not know, as far as I am aware, what help they will get. Can the Secretary of State clarify this in his closing speech? We would also like clarification about who will provide this service and what it will cost, so that we can help the most vulnerable to take advantage of digitalisation. Getting the BBC licence-fee payers to pay for helping the vulnerable to switch over to digital, in my humble opinion, is another smash-and-grab raid—like providing free television licences for those aged over 75, it is a Government social policy and the Government should pay for it. Even the limited scope of the Bill needs careful scrutiny, because it is essential that provisions to allow Government departments to share data contain tight restrictions, to ensure that data are only used for the one-off task of the switchover and are never used for commercial purposes, as can happen.

The Welsh Liberal Democrats' amendment 10 advocates that consideration should be given to extending television coverage. Despite the technological advance of digital TV, I am sure that the Secretary of State understands that some areas could still be left out. This is a problem that is not just for the Assembly Government to address, and I am sure that the Secretary of State will want to say something about it.

**Lorraine Barrett:** I welcome the Secretary of State to my constituency. You are very welcome, Secretary of State. I am speaking today as a member of Welsh Labour, the party of Wales. As ever, Glyn Davies and I—oh, I see that he has left the Chamber—are on the same wavelength and, in today's debate, we are both thinking about what we feel is the most serious aspect of the Queen's Speech, which is the Climate Change Bill.

Bydd fy ychydig eiriau yn canolbwyntio ar welliant 10, sy'n ymwneud â'r newid i ddigidol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r bwriad wrth wraidd y Mesur Newid i Ddigidol, er mwyn sicrhau bod modd canfod y rhai y mae angen cymorth arnynt wrth newid i ddigidol, fel y mae Leighton Andrews newydd ddweud. Hyd yn oed os ydym yn gwybod ar bwy y mae angen cymorth, mae'n chwerthinllyd nad ydym yn gwybod o hyd, hyd y gwn, pa help a gânt. A all yr Ysgrifennydd Gwladol egluro hyn yn ei arraith gloi? Hoffem gael eglurhad hefyd ynghylch pwy fydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a beth fydd y gost, fel ein bod yn gallu helpu'r bobl fwyaf agored i niwed i fanteisio ar ddigidoleiddio. Yn fy marn ostyngedig i, lladrad dwyn a dianc arall yw cael talwyr ffi drwydded y BBC i dalu am helpu pobl agored i niwed i newid i ddigidol—megis darparu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed, polisi cymdeithasol gan y Llywodraeth ydyw a'r Llywodraeth ddylai dalu amdano. Er mai cyfyngedig yw cwmpas y Mesur, mae angen craffu'n ofalus arno oherwydd y mae'n hanfodol bod darpariaethau i ganiatáu i adrannau Llywodraeth rannu data yn cynnwys cyfyngiadau tynn, i sicrhau mai dim ond ar gyfer y dasg untro o newid i ddigidol y defnyddir y data ac nas defnyddir byth at ddibenion masnachol, fel sy'n gallu digwydd.

Mae gwelliant 10 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i ymestyn darpariaeth teledu. Er gwaethaf datblygiadau technolegol teledu digidol, yr wyf yn siŵr bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn deall y gallai rhai ardaloedd gael eu gadael allan o hyd. Nid problem i Lywodraeth y Cynulliad yn unig ymdrin â hi yw honno, ac yr wyf yn siŵr y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol am ddweud rhywbeth amdani.

**Lorraine Barrett:** Croesawaf yr Ysgrifennydd Gwladol i'm hetholaeth. Mae croeso mawr ichi, Ysgrifennydd Gwladol. Siaradaf heddiw fel aelod o Lafur Cymru, plaid Cymru. Yr un fath ag arfer, mae Glyn Davies a minnau—o, gwelaf ei fod wedi gadael y Siambr—ar yr un donfedd ac, yn y ddadl heddiw, yr ydym ein dau'n meddwl am yr agwedd fwyaf difrifol yn ei barn ni ar Araith y Frenhines, sef y Mesur Newid yn yr

The Queen's Speech sets the goal of a 60 per cent reduction in carbon dioxide emissions by 2050, and I welcome that. I think that we would all agree that climate change is one of the greatest threats facing humanity. We have a window of opportunity, if we act now, to prevent damaging and lasting effects further down the line. However, I am afraid that the window of opportunity is closing and there is a lot of work to be done.

Poor people in the developing world are on the front line with regard to the effects of climate change. If we are honest, we, in the west, particularly America, and the emerging economies of places such as China, are responsible for that. It is not fair that we should pass the buck to the developing world. We must reaffirm our commitment to tackling the causes of climate change by setting ourselves these tough, sensible and achievable goals to reduce our emissions. However, strong words are useless without concerted action and effort at every level of society. All our policies should reflect that, at both the UK level and in the Assembly.

The problem is that we all want clean energy, but some people do not want nuclear, some do not want tidal power and others do not want wind power. Therefore, we all have a big job to do to find a way forward and to find solutions and bring people with us. We want a cleaner, healthier environment for future generations. Like Glyn, I hope that the Environment, Planning and Countryside Committee will have a part to play in that. I look forward to working with the UK Government and the Welsh Assembly Government on achieving those important goals.

**Alun Ffred Jones:** Cyfeiriaf yn fyr at welliant 14 sy'n cyfeirio at ddiwygio fformiwla Barnett, a chefnogaf yr hyn a ddywedodd Jenny Randerson. Bob tro yr ydym yn crybwylly y mater hwn, mae'r Prif Weinidog a'i Gabinet yn dlyfu gân ac yn awgrymu mai hen stori yw hon ac nad oes grym yn ein dadl dros adolygu'r fformiwla. Yn wir, yr ydym wedi clywed bygythiadau y byddai adolygiad yn arwain at Gymru'n colli

Hinsawdd. Mae Araith y Frenhines yn gosod targed o ostyngiad o 60 y cant mewn gollyngiadau carbon deuocsid erbyn 2050, a chroesawaf hynny. Credaf y byddem i gyd yn cytuno bod newid yn yr hinsawdd yn un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth. Mae gennym gyfle, os gweithredwn yn awr, i atal effeithiau niweidiol a pharhaol yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae arnaf ofn bod y cyfle hwnnw'n darfod ac mae llawer o waith i'w wneud.

Pobl dlawd yn y byd sy'n datblygu sy'n gorfol wynebu effeithiau newid yn yr hinsawdd. Os ydym yn onest, ni, yn y gorllewin, yn enwedig America, ac economiau sy'n datblygu mewn lleoedd fel Tsieina, sy'n gyfrifol am hynny. Nid yw'n deg ein bod yn taflu'r baich ar y byd sy'n datblygu. Rhaid inni ailddatgan ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy osod y targedau llym, synhwyrol a chyraeddadwy hyn i ni'n hunain i leihau ein gollyngiadau. Fodd bynnag, mae geiriau cryf yn ddiwerth heb weithredu ac ymdrech gydunol ar bob lefel o gymdeithas. Dylai ein holl bolisiau adlewyrchu hynny, ar lefel y DU ac yn y Cynulliad.

Y broblem yw ein bod i gyd am gael ynni glân, ond nid yw rhai pobl am gael niwclear, nid yw rhai pobl am gael ynni'r llanw ac nid yw eraill am gael ynni gwynt. Felly, mae gan bawb ohonom waith mawr i'w wneud i ganfod ffordd ymlaen a chanfod atebion a chael gan bobl ddod gyda ni. Yr ydym am gael amgylchedd glanach, iachach, i genedlaethau'r dyfodol. Fel Glyn, gobeithiaf y bydd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ran i'w chwarae yn hynny. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r nodau pwysig hynny.

**Alun Ffred Jones:** I will refer briefly to amendment 14, which refers to amending the Barnett formula, and I support what Jenny Randerson said. Every time we raise this issue, the First Minister and his Cabinet yawn and suggest that this is an old story and that there is no strength to our argument that the formula should be revised. Indeed, we have heard threats that a review would lead to Wales losing money—on what basis anyone

arian—ar ba sail y gall unrhyw un ddweud hynny, nid wyf yn gwybod. Sôn yr ydym, mewn gwirionedd, am degwch. Mae cynnrych mewnwladol crynswth y pen mwy na dau draean o Gymru o dan 70 y cant lefel CMC y pen y Deyrnas Gyfunol ar gyfartaledd, ac nid yw CMC gweddill Cymru ond ychydig dros y lefel cyfartalog, felly mae'n anodd gweld sut y gallem dderbyn llai. Yr ydym eisoes wedi gweld erydu ar y gwariant y pen ym maes iechyd ac addysg—colled o tua £1 biliwn ers 1999. Eto, bob wythnos, yr ydym yn clywed ple ar ôl ple am ragor o adnoddau i'n hardaloedd difreintiedig. O ble y daw'r arian hwnnw? Ymddengys y bydd yr arian yn dod o ardaloedd eraill o fewn ardal Amcan 1—dywediad Saesneg yw, '*Robbing Peter to pay Paul*'. Mae hynny'n rhyw fath o adlais o bolisi cwmni Farepak, i bob golwg. Mae angen adolygiad o fformiwla Barnett er mwyn rhoi'r adnoddau i ni godi safon byw yr ardaloedd tloaf fel eu bod yn gymharol â gweddill Cymru a'r rhan fwyaf o'r Undeb Ewropeaidd.

5.00 p.m.

Ni allaf ddeall unrhyw un yn dadlau yn erbyn cael yr adnoddau i wneud hynny. Mae'n ddiddorol, er enghraifft, fod y Prif Weinidog, Mr Blair, wedi mynd i'r Alban yn ddiweddar i frolio cymaint y mae'r Alban yn elwa ar fformiwla Barnett. Mae'r Alban yn derbyn cymorth ar lefel y pen llawer uwch na Chymru. Pam? A all unrhyw un esbonio'r rhesymeg? Mae cynnrych mewnwladol crynswth yr Alban yn sylweddol uwch nag un Cymru—mae CMC Cymru 8 y cant o dan lefel yr Undeb Ewropeaidd, ond mae lefel yr Alban rhyw 12 y cant uwchben y lefel honno. Mae'r Alban yn derbyn cymorth y pen ar lefel llawer yn uwch na Chymru. Mae angen adolygiad.

Soniais am yr angen i godi perfformiad economaidd ein hardaloedd tloaf, a byddai gostwng y dreth gorfforaethol ar gwmniau yn ardal Amcan 1 yn un offeryn i gyflawni hynny. Dyna un o'r mesurau llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn Iwerddon, a gwyddom beth ddigwyddodd yn y wlad honno. Cafwyd ple i adael i Ogledd Iwerddon godi'r un lefel o dreth gorfforaethol ag a godir yn y weriniaeth—daeth cefnogaeth ar draws

can say that, I have no idea. In reality, we are talking about fairness. The gross domestic product per capita of two thirds of Wales is below 70 per cent of the average GDP per capita within the UK, and the GDP for the rest of Wales is just above that average, so it is difficult to see how we could receive less. We have already seen the erosion of per capita expenditure in health and education—a loss of around £1 billion since 1999. However, every week, we hear one plea after another for additional resources for our disadvantaged areas. Where will that money come from? It appears that it will come from other areas within the Objective 1 area—the saying is, 'Robbing Peter to pay Paul'. That is some kind of echo of the policy of Farepack, it seems. We need a review of the Barnett formula to give us the resources to improve the standard of living in our poorest areas so that they are comparable with the rest of Wales and most of the European Union.

I cannot understand anyone arguing against being given the resources to do that. It is interesting, for example, that Prime Minister Blair went to Scotland recently to brag about how much Scotland has benefited from the Barnett formula. Scotland receives support on a per capita basis that is much higher than that given to Wales. Why is that? Can anyone explain the reasoning for it? Scotland's gross domestic product is significantly higher than Wales's—in Wales, the GDP is 8 per cent below the European Union level, but in Scotland it is about 12 per cent above that level. Scotland receives per capita support at a much higher level than Wales. A review is needed.

I mentioned the need to raise the economic performance of our poorest areas, and lowering the corporate tax paid by companies in Objective 1 areas would be one way of doing that. That is one of the successful tools used in Ireland, and we know what happened there. A plea has been made to allow Northern Ireland to charge the same level of corporate tax as the republic—that plea has been supported across Northern Ireland's

spectrwm gwleidyddol Gogledd Iwerddon i hynny. Hoffwn pe bai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn esbonio a yw'n cefnogi'r cais hwnnw, gan fod dyfyniad wedi ymddangos sy'n awgrymu ei fod yn gefnogol. Mae Cymru yn haeddu cael ei thrin yn gyfartal ag ardal oedd eraill ac yn haeddu cael yr adnoddau i godi'r rhannau eang ohoni sydd ar hyn o bryd mewn tlodi cymharol o'u cymharu â gweddill yr Undeb Ewropeaidd.

**Alun Cairns:** I thank the Secretary of State for his presence today, and the First Minister for opening the debate. I also wish Elizabeth well in her recovery; I am sure that the Secretary of State will extend to her the good wishes of all Members.

In the Secretary of State's statement, why did he make sweeping statements that we know are not accurate? He made sweeping statements about rising standards in schools, about a much better and stable economy, and about the health and wellbeing of the nation. The statement promises much, just as this Government did eight years ago, but the reality is that the Government has delivered very little. Our divergence from England with regard to education, economy and the health service is remarkable. For example, the gap in GCSE rates between Wales and England is now wider than it used to be; much quicker progress is being made in England. On health, we do not need to underline differences in waiting times between the two countries—that is always in the news—or the higher numbers of people waiting for treatment in Wales.

The Secretary of State commented specifically on the economy, stating that it has stabilised. That may well be the case across the United Kingdom, but the reality in Wales is that the economy has stagnated. Gross value added figures formed the basis of the Government's key target, which was for our GVA to be 90 per cent of the UK's GVA per capita figure by 2010—there is not a hope in the world of achieving that key fundamental target. Inactivity rates are much higher in Wales than those for most parts of the United Kingdom. Alun Ffred Jones referred specifically to Scotland in this

political spectrum. I would like to hear the Secretary of State for Wales say whether or not he supports that plea, as he has been quoted as suggesting that he is in favour. Wales deserves to be treated on an equal footing with other areas and deserves to be given the resources to improve the lot of the vast parts of the country currently in relative poverty as compared with the rest of the European Union.

**Alun Cairns:** Diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei bresenoldeb heddiw, ac i'r Prif Weinidog am agor y ddadl. Dymunaf finnau adferiad buan i Elizabeth hefyd; yr wyf yn siŵr y gwnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfleo dymuniadau da'r Aelodau i gyd iddi.

Yn natganiad yr Ysgrifennydd Gwladol, pam y gwnaeth osodiadau ysgubol y gwyddom eu bod yn anghywir? Gwnaeth osodiadau ysgubol ynghylch safonau'n codi mewn ysgolion, ynghylch economi lawer gwell a sefydlog, ac ynghylch iechyd a lles y genedl. Mae'r datganiad yn addo llawer, yn union fel y gwnaeth y Llywodraeth hon wyth mlynedd yn ôl, ond y gwrionedd yw mai ychydig iawn y mae'r Llywodraeth wedi'i gyflawni. Mae'r gwahaniaeth rhyngom a Lloegr ym myd addysg, yr economi a'r gwasanaeth iechyd yn hynod. Er enghraift, mae'r bwlc rhwng cyfraddau TGAU Cymru a Lloegr yn lletach yn awr nag yr arferai fod; mae camau llawer brasach yn digwydd yn Lloegr. Ym myd iechyd, nid oes angen tanlinellu'r gwahaniaethau rhwng amserau aros y ddwy wlad—mae hynny yn y newyddion o hyd—na'r niferoedd uwch o bobl sy'n aros am driniaeth yng Nghymru.

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol sylw penodol am yr economi, gan ddweud ei bod wedi sefydlogi. Efallai'n wir mai felly y mae ledled y Deyrnas Unedig, ond y realiti yng Nghymru yw bod yr economi wedi marweiddio. Ffigurau gwerth ychwanegol crynswth oedd y sail i darged allweddol y Llywodraeth, sef bod eisiau i'n gwerth ychwanegol crynswth ni fod yn 90 y cant o ffigur gwerth ychwanegol crynswth y pen y DU erbyn 2010—nid oes gobaith yn y byd o gyrraedd y targed sylfaenol allweddol hwnnw. Mae cyfraddau anweithgarwch yn llawer uwch yng Nghymru nag yn y rhan

regard—there is an enormous divergence between Wales and Scotland in this regard, as there is between Wales and the rest of the United Kingdom.

The First Minister always seeks to hold on to gross domestic household income figures, and Leighton Andrews repeated a point about that today, but when you look at the trend for gross domestic household income, we are at a worse level now than in 1996. Is that progress? Are you satisfied with the progress made over the last year?

**Leighton Andrews:** Do you dispute the figure that I gave you for the Valleys, which shows a 6 per cent improvement over the last eight years? When we talk about gross domestic household income, it means the money that people have in their pockets to spend, and that is a crucial figure in terms of building the ability of communities to regenerate themselves.

